

Cynnwys

Geirfa a Diffiniadau	2
Cyflwyniad	6
Rhan 1 - Gofynion o 1 Ebrill 2021	12
Rhan 2 - Gofynion o 1 Ionawr 2023	15
Rhan 3 - Gofynion o 1 Ionawr 2024	24
Rhan 4 – Gofynion o’r 1 Awst 2024	26
ATODIAD 1	30
• Siart Ilif	
ATODIAD 2	34
• Templedi ar gyfer Cynlluniau, Cyfrifo a Chadw Cofnodion	
ATODIAD 3	72
• Samplu a Dadansoddi <i>Tail organig</i>	
ATODIAD 4	73
• Gofynion Cyffredinol ar gyfer Storio <i>Slyri a Silwair</i>	
ATODIAD 5	77
• Gofynion Penodol ar gyfer Gwneud <i>Silwair</i> a Storio <i>Silwair</i> y mae’r Rheoliadau yn effeithio arnynt	
ATODIAD 6	82
• Gofynion Penodol ar gyfer Systemau Storio <i>Slyri</i> y mae’r Rheoliadau yn effeithio arnynt.	
ATODIAD 7	87
• Atodlenni a gymerwyd o’r Rheoliadau	
ATODIAD 8	99
• Rhagor o Wybodaeth a Manylion Cyswllt	

Geirfa a Diffiniadau

Mae i rai geiriau a thermau ystyron penodol yng nghyd-destun y Rheoliadau. Rhestrir y rhain (ynghyd â'u hystyron) isod ac er hwylustod tynnir sylw atynt mewn llythrennau *italig* yn y **Canllawiau** yma ac **Atodiadau** cysylltiedig:

<u>Term</u>	<u>Disgrifiad</u>
<u>ardal</u> <u>amaethyddol</u>	unrhyw dir a ddefnyddir at ddibenion amaethyddol fel y'i diffinnir yn y Ddeddf Amaethyddiaeth 1947.
<u>amaethyddiaeth</u>	yn meddu ar yr un ystyr ag yn adran 109(3) o Ddeddf Amaethyddiaeth 1947.
<u>dyfroedd a reolir</u>	yn meddu ar yr ystyr a roddir yn adran 104 o Ddeddf Adnoddau Dŵr 1991.
<u>cnwd â galw</u> <u>mawr am</u> <u>nitrogen</u>	yn cynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig iddynt, <i>porfa</i> , tatws, betys siwgr, indrawn, gwenith, rêp had olew, haidd, bresych, rhyg a rhygwenith
<u>porfa</u>	yn golygu <ol style="list-style-type: none"> <i>glaswelltir</i> parhaol neu <i>laswelltir</i> dros dro (ystyr dros dro yw am gyfnod o lai na 4 blynedd); sy'n bodoli rhwng hau ac aredig y <i>borfa</i>; ac mae'n cynnwys cynydu yr heuwyd <i>porfa</i> oddi tanynt; ond nid yw'n cynnwys <i>glaswelltir</i> sydd â 50% neu ragor o feillion
<u>daliad</u>	yr holl dir a'i adeiladau cysylltiedig sydd ar gael i'w defnyddio gan y meddiannydd ac a ddefnyddir i dyfu cynydu mewn pridd neu i fagu <i>da byw</i> at ddibenion amaethyddol
<u>tir y mae'r risg o</u> <u>oferu drosto yn</u> <u>isel</u>	tir: <ol style="list-style-type: none"> y mae ei oleddf cyfartalog yn llai na 3°, nad oes ynddo ddraeniau tir (ac eithrio pibell anhydraidd sydd wedi ei selio), ac sydd o leiaf 50 metr i ffwrdd o gwrs dŵr neu ddyfrffos sy'n arwain at gwrs dŵr
<u>dŵr sydd ychydig</u> <u>yn fudr(dŵr budr)</u>	dŵr ffo a gynhyrchir gan law wedi'i halogi ag wrin neu ysgarthion da byw ond gyda chynnwys maethol isel e.e. o fuarthau sy'n cael eu defnyddio gan dda byw lle caiff y buarthau eu sgrapio neu eu glanhau'n rheolaidd.
<u>slwtsh carthion</u> <u>wedi'u treulio</u> <u>hylifol</u>	hylif o drin slwtsh carthion trwy dreulio anaerobig
<u>da byw</u>	unrhyw anifail sydd wedi'i gynnwys yn Nhablau 1.1, 1.2,

	1.3 a 2.3 o Atodiad 2
<u>gwartaith nitrogen a weithgynhyrchwyd</u>	unrhyw <i>wartaith nitrogen</i> (ac eithrio <i>tail organig</i>) a weithgynhyrchwyd drwy broses ddiwydiannol
<u>gwartaith nitrogen</u>	unrhyw sylwedd sy'n cynnwys un neu ragor o gyfansoddion nitrogen a ddefnyddir ar dir i wella twf y llystyfiant ac mae'n cynnwys <i>tail organig</i>
<u>hysbysiad</u>	hysbysiad cyfreithiol ysgrifenedig sy'n ei gwneud yn ofynnol i waith adfer gael ei wneud erbyn dyddiad penodedig.
<u>tail organig</u>	unrhyw <i>wartaith nitrogen</i> neu <i>wartaith ffosffad</i> sy'n deillio o anifeiliaid, planhigion neu fodau dynol, ac mae'n cynnwys <i>tail da byw</i> ;
<u>tail organig sydd â chyfran uchel o nitrogen ar gael yn rhwydd</u>	<i>tail organig</i> lle mae mwy na 30% o gyfanswm y nitrogen sydd ynddo ar gael i'r cnwd ar adeg ei <i>daenu</i> ¹ . (Mae'r diffiniad hwn yn berthnasol yn benodol i'r rheolau ynghylch "cyfnodau gwaharddedig")
<u>golchion y parlwr godro</u>	dŵr sydd ychydig yn fudr sy'n deillio o olchi'r parlwr godro sy'n gallu cynnwys wrin a/neu ysgarthion.
<u>gwartaith ffosffad</u>	unrhyw sylwedd sy'n cynnwys un neu ragor o gyfansoddion ffosffad a ddefnyddir ar dir i wella twf y llystyfiant ac mae'n cynnwys <i>tail organig</i> .
<u>dofednod</u>	unrhyw <i>ddofednod</i> sydd wedi'u cynnwys yn Nhablau 1.3 a 2.3 o Atodiad 2 .
<u>cyfarpar taenu manwl</u>	peiriannau sydd wedi'u cynllunio i osod y <i>tail organig</i> yn hytrach na'i daenu dros ardal e.e. gwadn lusg, bar diferion neu system chwistrellu. (Mae'r diffiniad hwn yn gymwys yn benodol i'r rheolau ynghylch " <i>taenu tail organig</i> ger dŵr wyneb, tyllau turio, ffynhonnau neu bydewau").
<u>pydew derbyn</u>	system gadw a ddefnyddir i gasglu slyri cyn ei drosglwyddo i danc storio slyri neu i gasglu slyri sy'n cael ei ollwng o danc o'r fath.
<u>pridd tywodlyd</u>	unrhyw bridd sy'n gorwedd ar dywodfaen, ac unrhyw bridd arall sy'n cynnwys: <ul style="list-style-type: none"> a) yn yr haen hyd at ddyfnder o 40 cm, mae: <ul style="list-style-type: none"> i. mwy na 50 % yn ôl pwysau o ronynnau sydd â diamedr o 0.06 i 2 mm; ii. llai na 18 % yn ôl pwysau o ronynnau sydd â'u diamedr yn llai na 0.02 mm; a ii. llai na 5% yn ôl pwysau o garbon organig; a

¹ yn gyffredinol mae'r diffiniad hwn yn cynnwys *slyri*, y rhan fwyaf o fathau o dail *dofednod* a gwastraff arall oddi ar y fferm fel gweddillion treuliad anaerobig hylifol (nid yw *tail buarth solet*, *tail hwyaid*, *golchion y parlwr godro* a *dŵr* sydd ychydig yn fudr yn dod o dan y diffiniad hwn).

	<p>b) yn yr haen sydd rhwng 40 a 80 cm o ddyfnder, mae:</p> <ol style="list-style-type: none"> i. mwy na 70 % yn ôl pwysau o ronynnau sydd â diamedr o 0.06 i 2 mm; ii. llai na 15 % yn ôl pwysau o ronynnau sydd â'u diamedr yn llai na 0.02 mm; a iii. llai na 5% yn ôl pwysau o garbon organig;
<u>pridd tenau</u>	pridd y mae ei ddyfnder y llai na 40 cm
<u>silwair</u>	porfa neu borthiant gwyrdd arall wedi'i gywasgu a'i storio mewn amodau aerglos, fel arfer mewn <i>seilo</i> , ond sydd hefyd yn cynnwys byrnau (bêls) neu fagiau
<u>elifiant silwair</u>	yr hylif a gynhyrchir wrth wneud silwair
<u>seilo</u>	strwythur a ddefnyddir i wneud neu i storio silwair
<u>slyri</u>	<p>mater hylifol neu led-hylifol a'i gynnwys yw—</p> <ol style="list-style-type: none"> (i) carthion a gynhyrchir gan <i>dda byw</i> (ac eithrio dofednod) tra maent ar fuarth neu mewn adeilad (gan gynnwys da byw sy'n cael eu cadw mewn corlannau sglodion coed); neu (ii) cymysgedd sy'n cynnwys yn gyfan gwbl neu'n bennaf carthion da byw, gwasarn da byw, dŵr glaw a golchion o adeilad neu fuarth a ddefnyddir gan dda byw, <p>ac o ddwystr sy'n caniatáu iddo gael ei bwmpio neu ei ollwng drwy ddisgyrchiant at unrhyw gymal yn y broses o'i drin</p>
<u>tanc storio slyri</u>	system gadw a adeiladwyd i'r safonau adeiladu penodedig e.e. yn cynnwys lagŵn, pydew (ac eithrio pydew derbyn) neu dŵr sy'n cael ei ddefnyddio i storio <i>slyri</i> .
<u>taenu</u>	yn cynnwys ei wasgaru ar wyneb y tir, chwistrellu i mewn i'r tir neu gymysgu â haenau arwyneb y tir ond nid yw'n cynnwys dyddodi carthion yn uniongyrchol ar y tir gan anifeiliaid.
<u>cyfnod storio</u>	<p>yn golygu:</p> <ol style="list-style-type: none"> a) ar gyfer moch a <i>dofednod</i>, y cyfnod rhwng 1 Hydref ac 1 Ebrill (dyddiadau cynwysedig); a b) ar gyfer pob <i>da byw</i> arall, y cyfnod rhwng 1 Hydref ac 1 Mawrth (dyddiadau cynwysedig). <p>(Mae'r diffiniad hwn yn gymwys yn benodol i'r rheolau</p>

	ynghylch “capasiti storio”)
<u>safle dros dro mewn cae</u>	<p>ni ddylai fod²:</p> <p>a) mewn cae sy'n agored i lifogydd neu fynd yn <i>ddyfrlawn</i>;</p> <p>b) o fewn 50 metr i ffynnon, pydew neu dwll turio, neu o fewn 10 metr i ddwr wyneb neu ddraen tir (ac eithrio pibell anhydraidd sydd wedi ei selio);</p> <p>c) mewn unrhyw un lleoliad am fwy na 12 mis yn olynol, neu</p> <p>d) yn yr un man ag un cynharach a adeiladwyd o fewn y ddwy flynedd diwethaf;</p> <p>e) ni chaniateir symud uwchbridd o'r tir lle y bwriedir adeiladu safle dros dro mewn cae;</p> <p>f) ni chaiff fod o fewn 30 metr i gwrs dŵr ar dir y nodir ar y map risg fod ei oleddf yn fwy na 12°(yn gyfystyr â “20%” neu “1 mewn 5”); ac</p> <p>g) rhaid cadw'r arwyneb mor fach ag y bo'n rhesymol ymarferol, er mwyn lleihau effeithiau trwytholchi gan ddŵr glaw.</p> <p>(Mae'r diffiniad hwn yn gymwys yn benodol i'r rheolau ynghylch “storio <i>tail organig</i>”).</p>
<u>gwrs dŵr</u>	yn meddu ar yr ystyr a roddir iddo yn adran 221 o Ddeddf Adnoddau Dŵr 1991.
<u>dyfrlawn</u>	pan fydd yr haen aradr gyfan yn dirlawn gan ddŵr glaw neu'n cael ei llenwi â dŵr yn rhinwedd lefel trwythiad uchel neu ddŵr a gesglir (yn clwydo) uwchben pridd cywasgedig.

² dim ond ar yr amod bod y deunydd yn solet y gellir defnyddio safle o'r fath i storio *tail organig* (h.y. gellir ei bentyrru mewn tomen sydd yn sefyll ar ei phen ei hun ac nad yw'n draenio hylif)

Cyflwyniad

Mae'r Canllawiau yma yn disgrifio'r gofynion y mae'n rhaid i ffermwyr a thirfeddianwyr yng Nghymru eu dilyn i gydymffurfio â Rheoliadau Adnoddau Dŵr (Rheoli Llygredd Amaethyddol) (Cymru) 2021 – (OS 2021/77 Cy.20) (y Rheoliadau) a ddaeth i rym ar 1 Ebrill 2021. Mae copïau electronig o'r Canllawiau yma a rhagor o wybodaeth ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru <https://llyw.cymru/rheoli-tir>

Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) sy'n gyfrifol am orfodi'r Rheoliadau. Gellir cael cyngor cyffredinol am storio a rheoli maethynnau gan Cyfoeth Naturiol Cymru a Llywodraeth Cymru.

Mae gofynion y Rheoliadau yn gyfreithiol rwydol ac yn cynnwys gofynion ar gyfer cadw cofnodion a pharatoi cynlluniau, cyfrifiadau a mapiau. Bwriad y Canllawiau yma yw eich helpu i fodloni gofynion y Rheoliadau. Bydd Cyfoeth Naturiol Cymru, Llywodraeth Cymru a Linell Gymorth Rheoli Rheoliadau Llygredd Amaethyddol (ADAS) yn gallu eich helpu gydag unrhyw ymholiadau. Gweler **Atodiad 8** am fanylion cyswllt.

Pam mae angen y Rheoliadau?

Cyflwynwyd Rheoliadau Adnoddau Dŵr (Rheoli Llygredd Amaethyddol) (Cymru) 2021 i leihau colli llygryddion o amaethyddiaeth i'r amgylchedd drwy osod rheolau ar gyfer rhai arferion ffermio. Mae'r Rheoliadau hefyd yn gosod safonau ar gyfer gwneud *silwair* a storio elifiant silwair ac ar gyfer systemau storio *slyri*. Maent yn disodli'r Rheoliadau Adnoddau Dŵr (Rheoli Llygredd) (Silwair a Slyri) (Cymru) 2010 a gofynion arferion da ar gyfer rheoli maethynnau a'u cyfuno mewn un set o rheoliadau er mwyn lleihau cymhlethdod.

Mae slyri ac elifiant silwair wedi peri achosion sylweddol o lygredd, yn aml oherwydd bod gan ffermydd gyfleusterau storio sydd yn annigonol mewn perthynas â diffyg gofod storio, neu eu bod o adeiladwaith gwael. Gall tail *da byw* hefyd gyfrannu at lygredd amgylcheddol pan fydd yn cael ei daenu ar dir pan nad yw'r pridd a'r tywydd yn briodol neu lle nad oes ei angen ar y cnwd. Bydd y Rheoliadau hyn yn sicrhau bod pob fferm yng Nghymru yn gallu dangos eu bod yn arddel safonau arferion da, fel sy'n ofynnol er mwyn ennyn hyder y cyhoedd.

A yw'r Rheoliadau'n berthnasol i fusnes fy fferm?

YDYNT – mae'r Rheoliadau'n berthnasol i bob busnes fferm yng Nghymru. Mae unrhyw berson neu bersonau sy'n berchnogion neu'n feddianwyr (e.e. tenantiaid, porwyr) *daliad* tir *amaethyddol* (waeth beth fo'i faint) yn gyfrifol am gydymffurfio â'r rheolau hyn.

Pryd mae'r Rheoliadau'n berthnasol?

Daw'r Rheoliadau i rym o 1 Ebrill 2021 yn amodol ar y Cyfnodau Pontio canlynol, sydd ond yn berthnasol i ffermydd nad ydynt gynt wedi bod mewn Parth Perygl Nitradau*.

Gofynion o 1 Ebrill 2021

- **Storio *silwair*;**
- **Hysbysu Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) cyn adeiladu unrhyw *seilo* neu system storio *slyri* newydd;**
- **Rheoli taenu *gwrtaiith nitrogen* ar adegau risg uchel ac mewn ardaloedd risg uchel;**
- **Ymgorffori tail mewn pridd moel neu sofl; a**
- **Cyfnodau gwaharddedig ar gyfer *taenu gwrtaiith nitrogen* *a weithgynhyrchwyd.***

Gofynion o 1 Ionawr 2023

- **Mapiau risg;**
- **Storio *tail organig*;**
- ***Safleoedd dros dro mewn caeau*;**
- **Terfyn hectarau unigol ar gyfer lledaenu tail organig**
- **Mewngludo/allgludo tail;**
- **Cynllunio Rheoli Maethynnau a chadw cofnodion; a**
- **Triniaethau maethynnau wedi'u cyfyngu i derfynau cnydau.**

Gofynion o 1 Ionawr 2024

- **Terfyn nitrogen daliad 'y terfyn 170'**

Gofynion o 1 Awst 2024

- **Cyfnodau gwaharddedig ar gyfer taenu gwrtaiith nitrogen (yn cynnwys *slyri* a *thail organig* arall);**
- **Gofod storio ar gyfer *Slyri*; a**
- **Y cyfnod storio**

***Parthau Perygl Nitradau (NVZ)**

Nid yw'r cyfnodau pontio uchod yn berthnasol i unrhyw dir amaethyddol mewn ardal sydd wedi'i dynodi'n Barth Perygl Nitradau yn y gorffennol. Mae Rheoliadau Adnoddau Dŵr (Rheoli Llygredd Amaethyddol) (Cymru) 2021 yn disodli'r rheoliadau'r Parthau Perygl Nitradau. Rhaid i chi gydymffurfio'n llawn â Rheoliadau Adnoddau Dŵr (Rheoli Llygredd Amaethyddol) (Cymru) 2021 o 1

Ebrill 2021.

Defnyddio'r Canllawiau a'r Templedi hyn

Mae'r **Canllawiau** yma yn amlinellu'r gofynion ar gyfer y Rheoliadau hyn.

Darperir siart llif yn **Atodiad 1** o'r Canllawiau i'ch cynorthwyo i ddeall gofynion y Rheoliadau a'r goblygiadau i'ch system ffermio chi, gan ddefnyddio dull cam wrth gam.

Mae llawer o'r rheolau'n cynnwys blaengynllunio, gwneud cyfrifiadau neu gadw cofnodion, ac mae **Atodiad 2** yn darparu'r templedi at y diben hwn. Bydd cwblhau hwn yn helpu i nodi addasiadau y bydd eu hangen ar y fferm ac yn galluogi'r cofnodion angenrheidiol i gael eu cadw a'u cyflwyno i'w harchwilio. Darperir tablau cryno o'r hyn sydd angen i chi ei wneud a phryd ym mhob rhan. Cyn belled â'ch bod chi'n darparu'r hyn sy'n ofynnol, gellir defnyddio dulliau amgen o baratoi'r cynlluniau a'r cyfrifiadau angenrheidiol, a gellir defnyddio cadw'r cofnodion angenrheidiol i ddangos cydymffurfiaeth â'r Rheoliadau.

Bydd yr holl dablau yn **Atodiad 2** ar gyfer cyfrifo a chadw cofnodion ar gael mewn fformat Excel. Ceir mynediad iddynt drwy <https://llyw.cymru/rheoli-tir>

Cydymffurfio a gorfodi

Mae unrhyw berson neu bersonau sy'n berchnogion neu'n feddianwyr (e.e. tenantiaid, porwyr) *daliad* tir *amaethyddol* (waeth beth fo'i faint) yn gyfrifol am gydymffurfio â'r rheolau hyn.

Cyfoeth Naturiol Cymru sy'n gyfrifol am asesu cydymffurfiaeth, a bydd yn gwneud hynny drwy ymweld â ffermydd a gwirio cofnodion.

Bydd ffermydd dethol yn derbyn cadarnhad ysgrifenedig ymlaen llaw i esbonio'r hyn a fydd yn ofynnol ganddynt yn ystod yr ymweliad. Gall hyn gynnwys gwiriadau manwl o gofnodion sydd gan asiantaethau eraill, e.e. Gwasanaeth Symudiadau Gwartheg Prydain, neu ffermwyr eraill, e.e. yn achos allgludo tail.

Os ceir cadarnhad bod y Rheoliadau wedi eu torri, gweithredir yn unol â pholisïau a gweithdrefnau Gorfodi ac Erlyn Cyfoeth Naturiol Cymru. Bydd y camau posibl yn dibynnu ar ddifrifoldeb y tramgwydd a'i effaith ar yr amgylchedd. Gallant gynnwys:

- Cyngor ar sut i unioni tramgwydd bach;
- Llythyr rhybuddio a fydd yn nodi'r tramgwydd, y gellir ei ystyried os bydd tramgwydd pellach yn y dyfodol;
- Hysbysiad cyfreithiol;
- Rhybudd ffurfiol;neu
- Erlyn.

Ceir manylion llawn am y systemau dethol, y gweithdrefnau archwilio a'r camau a gymerir os canfyddir tramgwydd trwy gysylltu â Cyfoeth Naturiol Cymru – gweler **Atodiad 8**. Mae manylion ar gael hefyd am y modd yr ymdrinnir ag amgylchiadau eithriadol, a'r hyn y dylech ei wneud er mwyn cofnodi cwyn.

Cynlluniau a rheoliadau eraill - wrth addasu arferion fferm i gydymffurfio â'r Rheoliadau, rhaid i chi hefyd gadw at yr holl gytundebau rheoli ar eich tir (e.e. o dan Glastir neu'r Cynllun Ffermio Organig). Yn ogystal, rhaid bodloni rhwymedigaethau cyfreithiol eraill (megis yr angen i wneud cais am benderfyniad sgrinio Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol cyn *taenu slyri* ar dir heb ei drin neu ardaloedd lled-naturiol.

Os ydych yn hawlio Cynllun y Taliad Sylfaenol neu unrhyw daliadau Cynllun Datblygu Gwledig, rhaid i chi hefyd gydymffurfio â safonau Trawsgydymffurfio'r Polisi Amaethyddol Cyffredin, gan gynnwys y Cyflwr Amaethyddol ac Amgylcheddol Da sydd â'r nod o ddiogelu dŵr wyneb a dŵr daear rhag llygredd.

Bydd cydymffurfio â'r Rheoliadau yn rhan o'r drefn archwilio trawsgydymffurfiaeth. Bydd yn rhaid i chi gydymffurfio â'r Rheoliadau er mwyn cael hawl i daliad llawn - gallai methu â chydymffurfio arwain at ddiidyniadau.

Gweler y ddogfen Cwestiynau Cyffredin sy'n cyd-fynd â'r Canllawiau yma am wybodaeth bellach.

Rheoliadau presennol ar gyfer storio slyri

Rhaid i chi barhau i gydymffurfio â Rheoliadau Adnoddau Dŵr (Rheoli Llygredd) (Silwair a Slyri) (Cymru) 2010 tan 1 Awst 2024 (SSAFO).

Storio *Slyri*

Rhaid i'r holl *slyri fod yn gadwedig*. Gweler **Adran 3.3**. ac **Atodiad 4** am ofynion cyffredinol. Rhaid i bob storfa slyri fodloni'r safonau adeiladu gofynnol a nodir yn **Atodiad 6**.

Adeiladau ag eithriwyd

Ni fydd y **gofynion adeiladu** isod yn berthnasol i storfa a adeiladwyd cyn 1 Mawrth 1991:

- a oedd yn cael ei defnyddio i storio *slyri*; neu
- lle nad oedd yn cael ei defnyddio, iddi gael ei hadeiladu at y diben hwnnw neu lle cytunwyd ar gontract ar gyfer ei hadeiladu, ei hehangu'n sylweddol neu ei hailadeiladu'n sylweddol cyn 1 Mawrth 1991; neu
- lle dechreuwyd ar waith o'r fath cyn y dyddiad hwnnw, **ac**
- yn y naill achos neu'r llall, i'r gwaith gael ei gwblhau cyn 1 Medi 1991.

Mae'r eithriad hwn ond yn gymwys i ofynion adeiladu storfa a adeiladwyd cyn 1991. Gellir defnyddio storfa a adeiladwyd cyn 1991 os nad oes risg sylweddol o achosi llygredd, ond rhaid cwrdd â gofynion capasiti storio y Rheoliadau erbyn 1 Awst 2024.

Gofynion Adeiladu Storfeydd *Slyri*

Mae Rheoliadau Adnoddau Dŵr (Rheoli Llygredd Amaethyddol) (Cymru) 2021 yn disodli Rheoliadau Adnoddau Dŵr (Rheoli Llygredd) (Silwair a *Slyri*) (Cymru) 2010 (SSAFO). O ganlyniad rhaid i bob storfa *slyri* gydymffurfio â'r gofynion perthnasol erbyn 1 Awst 2024.

Ar gyfer unrhyw storfa *slyri* nad yw'n dod o dan eithriad SSAFO 1991, rhaid i storfeydd *slyri* gydymffurfio â'r gofynion a amlinellir yn **Atodlen 6 (Atodiad 7)** o'r Rheoliadau sy'n nodi'r gofynion adeiladu gofynnol.

Gweler **Atodiad 6** am fanylion gofynion adeiladu storfa *slyri* y Rheoliadau.

Er mwyn i CNC fod yn fodlon bod y gosodiad yn cydymffurfio â'r Rheoliadau, mae'n debygol y gofynnir i chi am wybodaeth ychwanegol am faint, dyluniad a'r deunyddiau adeiladu a ddefnyddiwyd. Mae gan CNC ffurflen (ar gael ar ei wefan, gweler **Atodiad 8** am fanylion cyswllt) i'ch helpu i wneud hyn.

Gall CNC gyflwyno *hysbysiad* i'w gwneud yn ofynnol i welliannau gael eu gwneud i osodiad os nad ydynt o'r farn ei fod yn addas. Cysylltir â chi os mai dyna'r achos.

Gweler y **ddogfen Cwestiynau Cyffredin** am wybodaeth bellach

Hysbysiad yn gwneud gwaith yn ofynnol

Mae gan CNC bwerau i gyflwyno *hysbysiad* i chi sy'n ei gwneud yn ofynnol i chi gymryd camau i wella gosodweithiau presennol lle mae CNC o'r farn bod risg sylweddol o lygredd i *ddyfroedd rheoledig*. (Gall hyn gynnwys safleoedd *silwair* mewn cae a gosodweithiau sydd fel arall yn "eithriedig"). Rhaid i'r camau sy'n ofynnol gan yr *hysbysiad* fod yn briodol i'r dasg o leihau'r risg o lygredd (Er enghraifft, ei gwneud yn ofynnol darparu storfa ddigonol ar gyfer *slyri*).

Bydd gennych o leiaf 28 diwrnod i gydymffurfio â'r *hysbysiad*. Gall CNC ymestyn y cyfnod lleiaf hwn i ystyried, er enghraifft, yr amser sydd ei angen i gael caniatâd cynllunio, trefnu i gontractwyr wneud y gwaith, y tywydd neu amodau'r safle.

Caiff CNC gyflwyno *hysbysiad* i berson sydd â *silwair* neu *slyri* dan ei ofal neu ei reolaeth, neu sydd yn gyfrifol am y *seilo*, neu'r system storio *slyri*, yn ei gwneud yn ofynnol i'r person hwnnw wneud gwaith, neu gymryd rhagofalon neu gamau eraill, a

bennir yn yr hysbysiad.

Rhaid i'r gwaith, y rhagofalon neu'r camau eraill fod, ym marn CNC, yn briodol, ar gyfer lleihau unrhyw risg sylweddol o lygredd *dyfroedd rheoledig* i'r lleiafswm.

Apelio yn erbyn hysbysiad gan CNC

Gall unigolyn apelio i Weinidogion Cymru yn erbyn *hysbysiad* a gyflwynir gan CNC. Os yw unigolyn yn dymuno apelio yn erbyn *hysbysiad* a gyflwynwyd iddo gan CNC, rhaid gwneud hynny yn ysgrifenedig o fewn 28 diwrnod i'r diwrnod ar ôl y dyddiad y cafodd yr *hysbysiad* ei gyflwyno. Mae gennych chi a CNC yr hawl i ofyn am wrandawriad llafar gan y sawl a benodwyd i benderfynu ar eich apêl. Gweler **Atodiad 4** am fanylion cyswllt a gwybodaeth bellach am y broses apelio yng Nghymru.

Rhan 1 – Gofynion o 1 Ebrill

1.1	Storio Silwair a Slyri
1.1.1	Storio <i>Silwair</i>
1.1.2	Hysbysu Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) cyn adeiladu unrhyw <i>seilo</i> neu system storio <i>slyri</i> newydd
1.2	Taenu gwrtaith
1.2.1	Pryd a ble i daenu gwrtaith
1.2.2	Ymgorffori tail organig mewn pridd moel neu sofl
1.2.3	Cyfnodau gwaharddedig ar gyfer taenu <i>gwrtaith nitrogen</i> a <i>weithgynhyrchwyd</i>
1.3	Cadw cofnodion o 1 Ebrill 2021

Nid yw'r cyfnodau pontio yn berthnasol i unrhyw dir amaethyddol mewn ardal sydd wedi'i dynodi'n Barth Perygl Nitradau yn y gorffennol.

1.1 Storio *Silwair* a *Slyri*

1.1.1 Storio *Silwair*

Rhaid i berson sydd â silwair dan ei ofal neu ei reolaeth sicrhau ei fod yn cydymffurfio â'r gofynion cyffredinol a nodir yn **Atodiad 4**. Heblaw am silwair sy'n cael ei storio dros dro mewn cynhwysydd, trelar neu gerbyd mewn cysylltiad â'i gludiant o amgylch y fferm neu rywle arall mae'n rhaid ei gadw mewn a strwythur sy'n bodloni'r gofynion a nodir yn **Atodiad 5**.

1.1.2 Hysbysu Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) cyn adeiladu neu addasu unrhyw *seilo* neu system storio *slyri* newydd

Rhaid rhoi 14 diwrnod o rybudd i Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) yn ysgrifenedig **cyn** i'r gwaith o adeiladu storfa newydd neu wedi'i hehangu neu ei hailadeiladu'n sylweddol sy'n cynnwys *slyri* neu silwair ddechrau. (gweler **Atodiad 8** am fanylion cyswllt CNC). Mae hyn yn berthnasol i unrhyw *seilo* neu system storio *slyri* y mae ei adeiladu neu ei hadeiladu i ddechrau ar neu ar ôl 28 Ebrill 2021 ("storfa newydd neu storfa wedi ei gwella").

Rydym yn argymhell yn gryf eich bod yn lleihau'r risg o adeiladu gosodwaith nad yw'n cydymffurfio ac o gael *hysbysiad*, drwy gynnwys CNC yn gynnar yn y camau cynllunio. Noder, os bydd angen caniatâd cynllunio arnoch, mae CNC yn ymgynghorai statudol yn y broses gynllunio.

1.2 Taenu Gwrtaith

1.2.1 Pryd a ble i daenu gwrtaith

Cyn *taenu* gwrtaith, dylid cynnal archwiliad o'r cae er mwyn ystyried y risg o achosi llygredd neu ddifrod i'r pridd.

Ni ddylid *taenu* gwrtaith ar y tir hwnnw os oes risg sylweddol o lygredd, gan ystyried goleddf y tir, yn enwedig os yw'r goleddf yn fwy na 12° (yn gyfystyr â "20%" neu "1 mewn 5"); unrhyw orchudd tir; pa mor agos yw'r tir at ddŵr wyneb; yr amodau tywydd; y math o bridd; a phresenoldeb draeniau tir.

Ni ddylid *taenu* gwrtaith os yw'r pridd yn ddyfrlawn, dan ddŵr, wedi ei orchuddio ag eira, wedi rhewi neu os oedd y pridd wedi rhewi am fwy na 12 awr yn ystod y 24 awr flaenorol.

Ni ddylid taenu *gwrtaith nitrogen a weithgynhyrchwyd* o fewn 2 fetr i ddŵr wyneb.

Ni ddylid taenu *tail organig* o fewn 50 metr i dwll turio, ffynnon neu bydew neu o fewn 10 metr i ddŵr wyneb (6 metr os yn defnyddio cyfarpar *taenu* manwl).

1.2.2 Ymgorffori *tail organig* mewn pridd moel neu sofl

Rhaid ymgorffori tail *dofednod, slyri a slwtsh carthion hylif* a daenir ar wyneb pridd moel neu sofl (ac eithrio pridd sydd wedi'i hau) yn y pridd cyn gynted ag y bo'n ymarferol, ac o fewn 24 awr fan hwyraf, oni ddefnyddir cyfarpar *taenu* manwl. Rhaid i unrhyw *dail organig* arall a ddefnyddir ar bridd moel neu sofl (ac eithrio *tail organig* a daenir fel tomwellt ar *bridd tywodlyd*) gael ei ymgorffori yn y pridd cyn gynted ag y bo'n ymarferol, ac o fewn 24 awr fan hwyraf, os yw'r tir o fewn 50 metr i ddŵr wyneb ac yn goleddfu mewn modd a allai achosi goferu i'r dŵr hwnnw.

1.2.3 Cyfnodau gwaharddedig ar gyfer taenu gwrtaith nitrogen a weithgynhyrchwyd

Ni ddylech *daenu gwrtaith nitrogen a weithgynhyrchwyd* ar dir yn ystod y cyfnodau canlynol (pob dyddiad yn gynwysedig)—

- a) yn achos *glaswelltir*, o 15 Medi i 15 Ionawr, neu
- b) yn achos tir tro, o 1 Medi i 15 Ionawr.

Caniateir *taenu gwrtaith nitrogen sachau* yn ystod y cyfnodau hyn ar y cnydau a nodir yn **Nhabl A** isod ar yr amod nad eir dros ben y gyfradd uchaf.

Caniateir *taenu* yn ystod y cyfnodau hyn ar gnydau nad ydynt yn **Nhabl A** ar sail cyfiawnhad ysgrifenedig ar ofynion yn cnwd gan berson sy'n aelod o'r Cynllun Ardystio a Hyfforddi Cynghorwyr am Wrteithiau.(FACTS)

Tabl A

<i>Y cnwd</i>	<i>Y gyfradd uchaf o nitrogen (kg/hectar)</i>
Rêp had olew, gaeaf (a)	30
Merllys	50
Bresych (b)	100
<i>Porfa</i> (a)(c)	80
Sgaliwns wedi eu gaeafu	40
Perllys	40
Bylbiau winwns	40

(a) Ni chaniateir *taenu* nitrogen ar gnydau ar ôl 31 Hydref

(b) Caniateir *taenu* 50 kg ychwanegol o nitrogen yr hectar bob pedair wythnos yn ystod y cyfnod gwaharddedig hyd at ddiwedd y cynhaeaf.

(c) Caniateir *taenu* uchafswm o 40 kg o nitrogen yr hectar ar unrhyw un adeg.

1.3 Gofynion Cadw Cofnodion

Mae'r cofnodion sydd eu hangen o 1 Ebrill 2021 yn cynnwys:

- Copi o'r *hysbysiad* i CNC am unrhyw waith sydd mewn golwg i adeiladu system storio *silwair* neu *slyri* newydd

Rhan 2 – Gofynion o 1 Ionawr 2023

2.1	Mapiau Risg
2.1.1	Sut mae cynhyrchu eich Map Risg
2.2	Rheoli taeniad gwrtaith Nitrogen
2.3	Storio <i>tail organig</i>
2.4	Tomenni dros dro mewn caeau
2.5	Terfynau Nitrogen – Terfyn hectar unigol ar gyfer lledaenu gwrtaith organig
2.6	Mewngludo/Allgludo Tail
2.7	Cynlluniau Rheoli Maethynnau
2.7.1	Eich Cynllun Rheoli Nitrogen a Chofnodion
2.7.2	Sut mae cynhyrchu eich Cynllun Rheoli Maethynnau - Taenu maetholion wedi'u cyfyngu i derfynau cnwd
2.8	Gofynion Cadw Cofnodion o 1 Ionawr 2023

Nid yw'r cyfnodau pontio yn berthnasol i unrhyw dir amaethyddol mewn ardal sydd wedi'i dynodi'n Barth Perygl Nitradau yn y gorffennol.

2.1 Mapiau Risg

Os ydych chi'n *taenu tail organig* ar eich *daliad*, rhaid i chi gynhyrchu a chynnal map o'r *daliad* ("map risg"). Rhaid cynhyrchu mapiau risg sydd wedi'u cynllunio i'ch galluogi i gydymffurfio â mesurau eraill yn ogystal â'r Rheoliadau hyn. Rhaid bod copi ar gael ar gais.

Rhaid diweddarau newidiadau i gyfanswm arwynebedd tir y *daliad* o fewn mis.

Rhaid i'r map risg ddangos, yn y man lleiaf:

- pob cae, ynghyd â'i arwynebedd mewn hectarau;
- yr holl ddyfroedd wyneb;
- unrhyw dyllau turio, ffynhonnau neu bydewau sydd ar y *daliad* neu sydd o fewn 50 metr i ffin y *daliad*;
- ardaloedd â *phridd tywodlyd* neu *bridd tenau*;
- tir sydd ar oledf o fwy na 12° (yn gyfystyr â "20%" neu "1 mewn 5");
- tir sydd o fewn 10 metr i ddyfroedd wyneb;
- tir sydd o fewn 50 metr i dwll turio, ffynnon neu bydew;
- draeniau tir (ac eithrio pibellau anhydraidd sydd wedi eu selio);
- safleoedd sy'n addas ar gyfer tomenni dros dro mewn caeau os bwriedir defnyddio'r dull hwn o storio tail; a

- *tir y mae'r risg o oferu drosto yn isel os yw tir o'r fath i'w ddefnyddio wrth gyfrifo gofynion storio slyri*

2.1.1 Sut mae cynhyrchu eich map risg.

Mae **Rhan 5** o **Atodiad 2** y **Canllawiau** yma yn rhoi cyfarwyddiadau manwl ar sut i gynhyrchu eich map risg.

2.2. Rheoli taeniad *gwrtaiith nitrogen*

Rhaid i unrhyw berson sy'n taenu gwrtaiith nitrogen wneud hynny mewn modd mor gywir â phosibl. Rhaid bod gan offer taenu slyri daflwybr ymledu isel sydd o dan 4 metr o'r ddaear. Gellir defnyddio offer gwasgaru â thafllwybr o fwy na 4 metr o'r ddaear ar dir sydd â risg dŵr ffo isel a lle nad oes gan yr offer gyfradd taenu o fwy na 2mm yr awr ar gyfartaledd.

2.3. Storio *tail organig (ac eithrio slyri)*

Rhaid storio *tail organig (ac eithrio slyri)*, neu unrhyw sarn sydd wedi'i halogi ag unrhyw *dail organig*, mewn llestr; mewn adeilad dan do; ar arwyneb anhydraidd; neu mewn safle dros dro mewn cae os gellir ei bentyrru mewn tomen heb iddi ddymchwel. Noder bod unrhyw hylif sy'n deillio o dail da byw e.e. y ffracsiwn hylifol o storfa wal hidlo neu hylif sy'n deillio o dail solet sydd wedi'i storio ar arwyneb anhydraidd yn cael ei gyfrif fel *slyri* a rhaid ei ddal yn briodol.

Rhaid cadw cofnodion o faint o dail a gynhyrchir gan y nifer disgwylidig o anifeiliaid sy'n cael eu cadw mewn adeilad neu ar arwyneb solet yn ystod y *cyfnod storio* i gyfrifo'r gofyniad storio **gan ddefnyddio'r ffigurau safonol yn Atodiad 2**, gan ystyried hefyd unrhyw fwriad i allgludo tail, ei storio mewn tomenni dros dro mewn caeau ac unrhyw daenu i dir y nodwyd ei fod yn risg isel. Mae tablau cyfrifo ar gael yn **Atodiad 2**, hefyd ar gyfer da byw sydd dan do yn barhaol gallwch ddefnyddio meddalwedd a gymeradwywyd gan Lywodraeth Cymru at ddibenion cyfrifo storfeydd.

Beth	Pryd
Ar <i>ddaliad</i> lle cedwir <i>da byw</i> , cyfanswm y tail a gynhyrchir gan y nifer disgwylidig o anifeiliaid a gedwir mewn adeilad neu ar lawr caled yn ystod y <i>cyfnod storio</i> , gan ddefnyddio'r ffigurau safonol yn Nhablau 1.1, 1.2. ac 1.3, Atodiad 2 .	Rhaid i unrhyw anifeiliaid a roddir ar y <i>daliad</i> am y tro cyntaf gael eu cynnwys yn y cyfrifiad o fewn un mis.
Maint y lle storio (llestri <i>slyri</i> a lloriau caled) sy'n ofynnol er mwyn gallu cydymffurfio â'r gofynion, gan ystyried:	Rhaid i unrhyw anifeiliaid a roddir ar y <i>daliad</i> am y tro cyntaf gael eu cynnwys yn y cyfrifiad o fewn un mis.

a) cyfanswm y tail y bwriedir ei allgludo o'r <i>daliad</i> , b) cyfanswm y tail y bwriedir ei <i>daenu</i> ar <i>dir lle mae'r risg o oferu drosto yn isel</i> c) yn achos llestr <i>slyri</i> , cyfanswm yr hylifau eraill heblaw <i>slyri</i> sy'n debygol o fynd i mewn i'r llestr.	
Y maint o le (capasiti) i storio ar y daliad ar hyn o bryd	Os yw maint y lle storio/capasiti yn newid, rhaid i chi gofnodi'r newid o fewn wythnos.
Ar <i>ddaliad</i> lle cedwir <i>da byw</i> , rhaid ichi gofnodi, ar gyfer y <i>cyfnod storio</i> blaenorol, y nifer a'r categori o anifeiliaid a oedd mewn adeilad neu ar lawr caled.	Cyn 30 Ebrill bob blwyddyn

2.4 Tomenni Dros Dro mewn Caeau

Gellir storio *tail organig* solet mewn tomenni dros dro mewn caeau os gellir ei bentyrru mewn tomen heb iddi ddymchwel, nad yw'n draenio hylif o du mewn y domen a'u bod yn bodloni'r gofynion canlynol.

Ni ddylid lleoli tomenni dros dro:

- mewn cae sy'n agored i lifogydd neu fynd yn ddyfrlawn;
- o fewn 50 metr i ffynnon, pydew neu dwll turio;
- o fewn 10 metr i ddŵr wyneb neu ddraen tir (ac eithrio pibell anhydraidd sydd wedi ei selio); neu
- o fewn 30 metr i gwrs dŵr ar dir y nodir ar y **map risg** fod ei oleddf yn fwy na 12°(yn gyfystyr â "20%" neu "1 mewn 5"); a
- dylai'r arwynebedd fod mor fach ag y bo'n rhesymol ymarferol, er mwyn lleihau effeithiau trwytholch neu oferu gan ddŵr glaw

Ni ddylid **lleoli'r domen dail dros dro mewn unrhyw un lleoliad am fwy na 12 mis yn olynol** nac yn yr un man ag un cynharach a adeiladwyd o fewn y ddwy flynedd diwethaf.

Ni chaniateir symud uwchbridd o'r tir lle y bwriedir adeiladu tomen dros dro mewn cae.

Rhaid i dail *dofednod* nad yw'n cynnwys sarn ac sy'n cael ei storio mewn tomen dros dro mewn cae gael ei orchuddio â deunydd anhydraidd. Gweler y Cwestiynau Cyffredin am ragor o wybodaeth.

Beth	Pryd
-------------	-------------

Ar <i>ddaliad</i> lle cedwir <i>da byw</i> , rhaid i chi gofnodi'r safleoedd a ddefnyddiwyd ar gyfer tomenni mewn caeau, a dyddiadau eu defnyddio ac wedi'i amlygu ar y map risg.	Cyn 30 Ebrill bob blwyddyn
---	----------------------------

2.5 Terfyn hectar unigol ar gyfer lledaenu gwrtaith organig

Mae terfyn o 250kg o gyfanswm y Nitrogen yr hectar unigol yn gymwys i *daenu tail organig* am unrhyw gyfnod treigl o 12 mis. Gellir dangos hyn yn eich Cynllun Rheoli Maethynnau.

2.6 Mewngludo/Allgludo tail

Rhaid i chi gofnodi'r canlynol o fewn wythnos ar gyfer mewngludo ac allgludo *tail organig* o'ch *daliad* gan gynnwys

- Math a faint o dail *da byw*;
- Y dyddiad y mae'r tail *da byw* yn gadael neu'n cyrraedd y *daliad*;
- Y cynnwys nitrogen (gweler **Atodiad 2** am dablau cyfrifo);
- Enw a chyfeiriad y derbynnydd; a
- Manylion unrhyw gynllun wrth gefn os gwrthodir yr allgludo

Bioddiogelwch – er mwyn cydymffurfio â rhai o'r rheolau, hwyrach y byddwch yn penderfynu allgludo cyfran o'r tail a gynhyrchir gan eich *da byw*.

Dylech gadw mewn cof, fodd bynnag, fod symud tail/*slyri* o un safle i'r llall yn achosi risg o lledaenu afiechydon, felly dylech ystyried yn fanwl iawn cyn dewis yr opsiwn hwn, gan gydbwyso'r manteision yn erbyn y risgiau. Mae llawer o afiechydon, gan gynnwys rhai sydd â'u heffaith yn sylweddol a hirdymor, y gellid eu lledaenu yn y ffordd hon (hyd yn oed trwy daenu ar *laswelltir* i gynnal porthiant).

Dylech o leiaf gymryd rhai camau sylfaenol rhag lledaenu afiechydon anifeiliaid wrth gludo'r tail i ffermydd eraill. Mae camau o'r fath yn cynnwys:

- Sicrhau bod y tail yn cael ei gadw'n ddiogel;
- Glanhau'r tu allan i'r cerbyd a ddefnyddir i'w gludo cyn gadael eich fferm; a
- Sicrhau y taenir tail ar dir tro neu *laswelltir* a ddefnyddir i gynnal porthiant, h.y. osgoi troi anifeiliaid i dir lle taenwyd *tail/slyri* cyhyd â phosibl.

Beth	Pryd
-------------	-------------

<p>Os byddwch yn dod â thail <i>da byw</i> neu slyri ar ddaliad neu yn anfon tail <i>da byw</i> neu slyri oddi ar ddaliad, rhaid i chi gofnodi:</p> <p>a) y math a'r cyfanswm o dail <i>da byw</i> ;</p> <p>b) y dyddiad rydych chi'n dod â'r tail i'r <i>daliad neu'n anfon y tail o'r daliad</i>;</p> <p>c) cynnwys nitrogen y tail (gweler Atodiad 2 am dablau cyfrifo);</p> <p>d) enw a chyfeiriad y cyflenwr/derbynnydd; a</p> <p>e) manylion cynllun wrth gefn i'w ddefnyddio os bydd cytundeb i berson dderbyn y tail <i>da byw</i> yn methu</p>	<p>O fewn wythnos o fewngluro/allgludo'r slyri/tail</p>
--	---

2.7 Cynlluniau Rheoli Maethynnau

2.7.1 Eich Cynllun Rheoli Nitrogen (CRhN)

Defnyddir y Cynllun Rheoli Nitrogen (CRhN) i ddangos eich bod yn cydymffurfio â'r Rheoliadau.

Bydd angen i chi gyfrifo'r maint optimwm o nitrogen y dylid ei daenu ar y cnwd (gan gynnwys *glaswelltir*, gan ystyried y cyflenwad nitrogen yn y pridd (CNP) a chynhyrchu cynllun ysgrifenedig ar gyfer *taenu gwrtaith nitrogen* ar gyfer pob blwyddyn galendr cyn *taenu*. Gall y cynllun gynnwys maethynnau eraill er hwylustod rheoli.

Rhaid i'ch CRhN ddarparu:

- Cyfeirnod cae;
- Arwynebedd y cae;
- Math o gnwd;
- Math o bridd;
- Cnwd blaenorol;
- Y cyflenwad nitrogen yn y pridd a'r dull a ddefnyddiwyd i gyfrifo'r ffigur hwn;
- Y mis a ragwelir y caiff y cnwd ei blannu;
- Y cynnyrch disgwylidiedig (os yw'n dir â'r);
- Y maint optimwm o nitrogen sydd ei angen ar y cnwd gan ystyried y Cyflenwad Nitrogen yn y Pridd (CNP);
- Arwynebedd lle bydd y *tail organig* yn cael ei daenu;
- Faint o *dail organig* sydd i'w daenu;
- Dyddiad arfaethedig ar gyfer *taenu* (mis);

- Math o *dail organig*;
- Cyfanswm cynnwys Nitrogen ac Nitrogen sydd ar gael o *dail organig*;
- Faint o wrtaith a weithgynhyrchwyd sydd ei angen;
- Faint o wrtaith a weithgynhyrchwyd a ddefnyddiwyd; a
- Cyfanswm y nitrogen a daenir ar *ddaliad*

2.7.2 Uchafswm y terfynau nitrogen yn ôl y math o gnwd

Rhaid i gyfanswm y nitrogen y caniateir ei wasgaru ar unrhyw gnwd beidio â bod yn fwy na'r terfyn nitrogen uchaf. Gweler **Atodiad 2** am derfynau a chyfrifiadau.

Rhaid i chi gofnodi *taenu'r holl wrtaith Nitrogen* ar eich *daliad* o fewn wythnos i'r *taenu* ddigwydd.

Beth	Pryd
<p>Os ydych yn bwriadu <i>taenu gwrtaith nitrogen</i>, rhaid i chi:</p> <p>a) gyfrifo faint o nitrogen yn y pridd sy'n debygol o fod ar gael i'r cnwd ei amsugno yn ystod y tymor tyfu (“Cyflenwad Nitrogen yn y Pridd”);</p> <p>b) gyfrifo'r swm optimaidd o nitrogen y dylid ei <i>daenu</i> ar y cnwd, gan ystyried faint o nitrogen sydd ar gael o'r Cyflenwad Nitrogen yn y Pridd; a</p> <p>c) gynhyrchu “cynllun” (gweler isod) ar gyfer <i>taenu gwrtaith</i> nitrogen ar gyfer y tymor tyfu hwnnw</p>	<ul style="list-style-type: none"> ▪ Glaswelltir Parhaol - bob blwyddyn yn dechrau ar 1 Ionawr cyn <i>taenu gwrtaith nitrogen</i> am y tro cyntaf ▪ Pob cnwd heblaw glaswelltir parhaol - cyn <i>taenu</i> unrhyw wrtaith nitrogen am y tro cyntaf er mwyn ffrwythloni cnwd a blannwyd neu y bwriedir ei blannu.
<p>Rhaid i'r “cynllun” fod ar ffurf barhaol a rhaid iddo gofnodi:</p> <p>a) cyfeirnod neu enw'r cae perthnasol;</p> <p>b) “arwynebedd y cae a blannwyd neu y bwriedir ei blannu” (gweler isod);a</p> <p>c) y math o gnwd</p>	<ul style="list-style-type: none"> ▪ Glaswelltir Parhaol - bob blwyddyn yn dechrau ar 1 Ionawr cyn <i>taenu gwrtaith nitrogen</i> am y tro cyntaf ▪ Pob cnwd heblaw glaswelltir parhaol - cyn <i>taenu</i> unrhyw wrtaith nitrogen am y tro cyntaf, at y diben o wrteithio cnwd a blannwyd neu y bwriedir ei blannu.

<p>Ar gyfer “arwynebedd y cae a blannwyd neu y bwriedir ei blannu” rhaid i’r cynllun gofnodi:</p> <p>a) y math o bridd;</p> <p>b) y cnwd blaenorol (os <i>porfa</i>, ai torri neu bori oedd dull rheoli’r cnwd);</p> <p>c) Cyflenwad Nitrogen yn y Pridd a’r dull a ddefnyddiwyd i gyrraedd y ffigur hwnnw;</p> <p>d) y mis y disgwylir plannu’r cnwd;</p> <p>e) os yw’n dir âr, y cynnyrch a ragwelir; a</p> <p>f) y cyfanswm optimaidd o nitrogen y dylid ei <i>daenu</i> ar y cnwd gan ystyried faint o nitrogen sydd ar gael o’r Cyflenwad Nitrogen yn y Pridd</p>	<ul style="list-style-type: none"> ▪ Glaswelltir parhaol - bob blwyddyn yn dechrau ar 1 Ionawr cyn <i>taenu gwrtaith nitrogen</i> am y tro cyntaf ▪ Pob cnwd heblaw glaswelltir parhaol - cyn <i>taenu</i> unrhyw wrtaith nitrogen am y tro cyntaf er mwyn ffrwythloni cnwd a blannwyd neu y bwriedir ei blannu.
<p>Cyn <i>taenu tail organig</i>, rhaid i chi gyfrifo faint o nitrogen o’r tail sy’n debygol o fod ar gael i’w amsugno gan gnydau yn y tymor tyfu y <i>taenir</i> y tail, drwy gofnodi:</p> <p>a) yr arwynebedd y <i>taenir</i> y <i>tail organig</i> arno;</p> <p>b) cyfanswm y <i>tail organig</i> a <i>daenir</i>;</p> <p>c) y dyddiad (mis) y bwriedir ei <i>daenu</i>;</p> <p>d) y math o <i>dail organig</i>;</p> <p>e) cyfanswm cynnwys nitrogen y <i>tail organig</i>; a</p> <p>f) cyfanswm y nitrogen yn y tail y bwriedir ei <i>daenu</i> sy’n debygol o fod ar gael i’w amsugno gan gnydau yn y tymor tyfu y <i>taenir</i> y tail</p>	<p>ar bob achlysur cyn <i>taenu tail organig</i></p>
<p>Cyn <i>taenu gwrtaith nitrogen</i> rhaid i chi gofnodi:</p> <p>a) y cyfanswm sy’n ofynnol³; a</p> <p>b) y dyddiad (mis) y bwriedir ei <i>daenu</i></p>	<p>ar bob achlysur cyn <i>taenu tail organig</i></p>

³ Mae hyn yn cyfateb i h.y. y cyfanswm optimaidd o nitrogen sydd ei angen ar y cnwd (gan ystyried y **Cyflenwad Nitrogen yn y Pridd**) llai y cyfanswm o nitrogen a fydd ar gael i’w amsugno gan gnydau o unrhyw *dail organig* a *daenir*

<p>Rhaid i chi gadw cofnod hefyd o'r hyn sy'n digwydd mewn gwirionedd, fel a ganlyn:</p> <p>Mewn perthynas â chnydau: a) y cnwd a heuir; a b) dyddiad yr hau</p> <p>Mewn perthynas â <i>thaenu tail organig</i>: a) yr arwynebedd y <i>taenir tail organig</i> arno; b) cyfanswm y <i>tail organig a daenir</i>; c) y dyddiad(au); d) y dulliau <i>taenu</i>; e) y math o <i>dail organig</i>; f) cyfanswm y nitrogen sydd ynddo; a g) cyfanswm y nitrogen a oedd ar gael i'r cnwd</p> <p>Mewn perthynas â <i>thaenu gwrtaith</i> a weithgynhyrchwyd: a) dyddiad y <i>taenu</i>; a b) cyfanswm y nitrogen a <i>daenir</i></p>	<ul style="list-style-type: none"> ▪ o fewn wythnos i hau cnwd ▪ o fewn wythnos i <i>daenu</i> <p>o fewn wythnos i <i>daenu</i></p>
<p>Os ydych wedi defnyddio <i>gwrtaith nitrogen</i>, rhaid i chi gofnodi'r cynnyrch a geir o gnwd â'r.</p>	<p>o fewn wythnos ar ôl gwybod y cynnyrch</p>
<p>Rhaid i chi gofnodi sut yr oedd unrhyw <i>laswelltir</i> yn cael ei reoli yn ystod y flwyddyn galendr flaenorol.</p>	<p>cyn 30 Ebrill bob blwyddyn</p>

2.7.3 Sut mae cynhyrchu eich Cynllun Rheoli Nitrogen

Mae **Atodiad 2** o'r Canllawiau yma yn darparu cyfres o dempledi a fydd yn eich galluogi i ddangos cydymffurfiaeth â'r Rheoliadau sy'n cynnwys cynllunio, cyfrifo a chadw cofnodion.

2.8 Gofynion Cadw Cofnodion

Mae'r cofnodion sy'n rhaid eu cadw o 1 Ionawr 2023 yn cynnwys:

- ar gyfer *daliadau lle y caiff gwrtaith organig ei ledaenu* – Copïau o'r holl fapiau risg a gynhyrchwyd (Mae manylion ar sut mae cynhyrchu map risg yn **Atodiad 2.**);
- ar gyfer pob *daliad* – Cyn 30 Ebrill bob blwyddyn, manylion y nifer a'r math o

anifeiliaid ar y *daliad* o'r flwyddyn galendr flaenorol a nifer y diwrnodau a dreuliodd ar y *daliad* – i ddangos cydymffurfiaeth â'r terfyn Nitrogen 170kg/ha.;

- ar gyfer *daliadau* ag anifeiliaid sy'n cael eu cadw mewn adeilad neu ar lawr caled yn ystod y *cyfnod storio* - cyfanswm y tail a gynhyrchir gan y nifer tebygol o anifeiliaid yn ystod y *cyfnod storio* a'r gofod storio sydd ei angen;
- ar gyfer *daliadau* sy'n taenu *gwrrtaith nitrogen* - copïau o bob Cynllun Rheoli Maethynnau; ac
- ar gyfer *daliadau* sy'n mewngludo neu allgludo tail organig neu slyri – cofnodion o'r holl ddigwyddiadau mewngludo neu allgludo slyri yn cynnwys dyddiadau mewngludo/allgludo, y math o dail a'r cynnwys nitrogen.

Rhaid cadw cofnodion am o leiaf 5 mlynedd a'u cyflwyno i gael eu harchwilio ar gais.

Cyfeiriwch at y ddogfen **Cwestiynau Cyffredin** am arferion gorau wrth gadw cofnodion.

2.8.1 Eithriad rhag cofnodi lledaeniad gwirioneddol gwrrteithwyr organig neu weithgynhyrchiedig

Daliadau lle mewn unrhyw flwyddyn galendr

- mae 80% o *arwynebedd amaethyddol* eich daliad wedi'i hau â *glaswellt*
- nid yw cyfanswm y nitrogen mewn *tail organig* a daenir ar y daliad, boed yn uniongyrchol gan anifail neu o ganlyniad i *daenu* yn fwy na 100 kg / ha
- nid yw cyfanswm y nitrogen mewn *gwrrtaith* a weithgynhyrchwyd a daenir ar y daliad yn fwy na 90 kg/ha
- nad ydych yn dod ag unrhyw *dail organig* i'r daliad

wedi'u heithrio o gadw cofnodion am daenu gwrrtaith organig neu wrtaith nitrogen a weithgynhyrchwyd. Bydd dal angen i chi gwblhau Cynllun Rheoli Maetholion o hyd.

Rhaid cadw cofnodion am o leiaf 5 mlynedd a'u cyflwyno i gael eu harchwilio ar gais.

Cyfeiriwch at y ddogfen **Cwestiynau Cyffredin** am arferion gorau wrth gadw cofnodion

Rhan 3 – Gofynion o 1 Ionawr 2024

3.1	Terfyn Nitrogen y Daliad 'terfyn 170'
3.2	Dull Gwell o Reoli Maetholion

3.1 Terfyn Nitrogen y Daliad 'terfyn 170'

Ar draws y *daliad* ni ddylech fynd dros y terfyn o **170kg o Nitrogen yr hectar** o bob *tail da byw*, gan gynnwys ysgarthion uniongyrchol o anifeiliaid ar y tir a *lledaenu tail*. Mae hyn yn berthnasol i bob cyfnod o 12 mis gan ddechrau ar 1 Ionawr 2024 ar gyfer daliadau neu rannau o ddaliadau nad oeddent wedi'u lleoli o fewn Parth Perygl Nitradau gynt.

Ar gyfer daliadau o fewn Parth Perygl Nitradau o'r blaen dylid parhau cofnodion am flynyddoedd calendr sy'n dechrau 1 Ionawr.

Gweler **Atodiad 2** ar gyfer tablau; hefyd efallai y byddwch yn defnyddio meddalwedd sydd wedi'i chymeradwyo gan Lywodraeth Cymru ar gyfer *da byw* sy'n cael llety parhaol.

Gweler **dogfen Cwestiynau Cyffredin** am fanylion pellach

Beth	Pryd
Rhaid i chi gadw cofnod o gyfanswm maint y <i>daliad</i> . Dylai cyfrifo arwynebedd tir eithrio dyfroedd wyneb, arwynebau solet, adeiladau, ffyrdd a choetir heb ei bori	Mae'n rhaid cofnodi newidiadau o fewn mis
Rhaid i chi wneud cofnod o'r canlynol: a) nifer a chategori (yn ôl Tabl 2.2) yr anifeiliaid ar y <i>daliad</i> yn ystod y cyfnod blaenorol o 12 mis sy'n dechrau 1 Ionawr b) nifer y dyddiau y treuliodd pob anifail ar y <i>daliad</i>	Erbyn 30 Ebrill bob blwyddyn
Yna rhaid i chi gyfrifo faint o nitrogen yn y tail a gynhyrchir gan yr anifeiliaid ar y <i>daliad</i> yn ystod y cyfnod o 12 mis gan ddefnyddio'r ffigurau safonol yn Nhabl 2.3	Erbyn 30 Ebrill bob blwyddyn

<p>Fel arall, yn achos moch neu <i>ddofednod</i> wedi'u cartrefu'n barhaol, efallai y byddwch yn defnyddio:</p> <p>a) meddalwedd sydd wedi'i chymeradwyo gan Lywodraeth Cymru (ac os felly mae'n rhaid cadw argrafflen o'r canlyniadau) neu</p> <p>b) yn achos system o gadw <i>da byw</i> sydd ond yn cynhyrchu tail solet⁴, samplu a dadansoddi yn unol ag Atodiad 3 o'r Canllawiau hyn.</p> <p>Rhaid i chi wneud cofnod o'r cyfrifiadau a sut y cyrhaeddwyd y ffigyrau terfynol.</p>	<p>Erbyn 30 Ebrill bob blwyddyn</p>
---	-------------------------------------

3.2 Dull Reoli Maetholion ar Lefel Uwch

Ar gyfer daliadau sy'n debygol o ddefnyddio mwy na chyfradd o 170kg/N / ha y flwyddyn o dail da byw i uchafswm o 250kg/N/ha mae opsiwn i ymgymryd â dull Rheoli Maetholion ar Lefel Uwch ar gyfer y flwyddyn galendr 1 Ionawr 2024 i 31 Rhagfyr 2024. I gael manylion am ofynion y dull Rheoli Maetholion ar Lefel Uwch, gweler y canllawiau ar wahân ar gyfer y dull Rheoli Maetholion ar Lefel Uwch (ar gael o ddiwedd mis Tachwedd 2023).

⁴ Deunydd sy'n gallu cael ei pentyrru mewn tomenni annibynnol sydd ddim yn draenio hylif

Rhan 4 – Gofynion erbyn 1 Awst 2024

3.1	Cyfnodau gwaharddedig ar gyfer <i>taenu</i> gwrtaith nitrogen (yn cynnwys <i>slyri</i> a <i>thail organig arall</i>)
4.1.1	Eithriadau i'r cyfnodau gwaharddedig
4.1.2	Cyfngiadau ar ôl cyfnodau gwaharddedig
4.2	Gofod storio ar gyfer <i>Slyri</i>
4.3	Y <i>cyfnod storio</i>
4.4	Gofynion Cadw Gofynion o 1 Awst 2024

Nid yw'r cyfnodau pontio yn berthnasol i unrhyw dir amaethyddol mewn ardal sydd wedi'i dynodi'n Barth Perygl Nitradau yn y gorffennol.

4.1 Cyfnodau gwaharddedig ar gyfer *taenu* gwrtaith nitrogen (yn cynnwys *slyri* a *thail organig arall* gyda nitrogen ar gael yn rhwydd)

Ni ddylid taenu *tail organig* sydd â chyfran uchel o nitrogen ar gael yn rhwydd (mae mwy na 30% o gyfanswm y nitrogen ar gael i'r cnwd ar adeg lledaenu – gweler **Tabl A** a thestun ategol) ar dir rhwng y dyddiadau a bennir yn **Nhabl B**.

Tabl A

Math o dail <i>da byw</i> *	Maint y nitrogen sydd ar gael i'r cnwd ei amsugno
<i>Slyri</i> gwartheg	40%
<i>Slyri</i> moch	50%
Tail <i>dofednod</i>	30%
Tail <i>da byw</i> arall	10%

*Ar gyfer pob *tail organig arall*, gellir defnyddio dadansoddiadau technegol a ddarparwyd gan y cyflenwr, gwerthoedd RB209 neu ddefnyddio'r fethodoleg samplu a dadansoddi yn **Atodiad 3 o'r Canllawiau yma**.

Tabl B - peidiwch â lledaenu tail organig sydd â N uchel ar gael yn ystod y cyfnodau hyn

Math o bridd	Glaswelltir	Tir tro
<i>Pridd tywodlyd</i> neu <i>bridd tenau</i>	1 Medi i 31 Rhagfyr	1 Awst i 31 Rhagfyr
Pob math arall o bridd	15 Hydref i 15 Ionawr	1 Hydref i 31 Ionawr

4.1.1 Eithriadau i'r cyfnodau gwaharddedig

Caniateir taenu tail organig sydd â chyfran uchel o nitrogen ar gael yn rhwydd ar dir tro gyda phridd tywodlyd neu bridd tenau rhwng 1 Awst a 15 Medi yn gynwysedig ar yr amod bod y cnwd yn cael ei hau ar neu cyn 15 Medi.

Eithriadau i Gynhyrchwyr Organig

Gall cynhyrchwyr organig cofrestredig daenu tail organig sydd â chyfran uchel o nitrogen ar gael yn rhwydd ar unrhyw adeg ar gnydau a restrir yng **Ngholofn 1 o Dabl C** neu gnydau eraill yn unol â chyfiawnhad ysgrifenedig gan berson sy'n aelod o'r Cynllun Ardystio a Hyfforddi Cynghorwyr am Wrteithiau (FACTS), ar yr amod nad yw pob hectar y taenir tail organig arno yn cael mwy na 150 kg o gyfanswm nitrogen rhwng dechrau'r cyfnod gwaharddedig a diwedd mis Chwefror.

Tabl C

Y cnwd	Y gyfradd uchaf o nitrogen (kg/hectar)
Rêp had olew, gaeaf(a)	30
Merllys	50
Bresych(b)	100
Porfa(a)(c)	80
Sgaliwns wedi eu gaeafu	40
Perllys	40
Bylbiau winwns	40

(a) Ni chaniateir taenu nitrogen ar y cnydau yma ar ôl 31 Hydref

(b) Caniateir taenu 50 kg ychwanegol o nitrogen yr hectar bob pedair wythnos yn ystod y cyfnod gwaharddedig hyd at ddiwedd y cynhaeaf.

(c) Caniateir taenu uchafswm o 40 kg o nitrogen yr hectar ar unrhyw un adeg.

4.1.2 Cyfyngiadau ar ôl cyfnodau gwaharddedig

O ddiwedd y cyfnod gwaharddedig tan ddiwedd mis Chwefror, uchafswm y slyri y gellir ei daenu ar unrhyw un adeg yw 30 metr ciwbig yr hectar a'r uchafswm o dail dofednod y gellir ei daenu ar unrhyw un adeg yw 8 tunnell yr hectar. Rhaid cael o leiaf dair wythnos rhwng pob taeniad.

4.2 Y Cyfnod Storio

Rhaid darparu digon o le storio ar gyfer tail moch a thail dofednod a gynhyrchir ar y daliad rhwng 1 Hydref ac 1 Ebrill (6 mis), ac ar gyfer tail arall a gynhyrchir mewn buarth neu adeilad ar y daliad, 1 Hydref ac 1 Mawrth (5 mis) ynghyd â digon o gapasiti i fodloni cyfyngiadau taenu'r Rheoliadau.

Rhaid cyfrifo cyfaint y tail a gynhyrchir gan yr anifeiliaid ar y *daliad* yn unol â'r ffigurau safonol yn **Atodiad 2**.

Rhaid i'r storfa hefyd fod â'r gallu i storio unrhyw law, golchion neu hylif arall sy'n mynd i mewn i'r llestr (naill ai'n uniongyrchol neu'n anuniongyrchol) yn ystod y *cyfnod storio*.

Mae data glawiad ar gyfartaledd ar gael trwy borth mapio lle. Llywodraeth Cymru yn seiliedig ar gyfartaleddau misol hanesyddol y Swyddfa Dywydd rhwng 1981 a 2010. Darperir y data ar grid 1km i adlewyrchu daearyddiaeth eang Cymru a darparu data lleol cywir. Gellir defnyddio offer cydnabyddedig eraill i bennu'r gofyniad sylfaenol. Gweler y **ddogfen Cwestiynau Cyffredin** am fanylion.

4.3 Gofod storio ar gyfer *Slyri*

Rhaid bod gennych ddigon o le storio i storio'n briodol y *slyri* a gynhyrchir na ellir ei daenu yn ystod y cyfnod gwaharddedig, a elwir yn *gyfnod storio*, ac i fodloni cyfyngiadau taenu eraill y Rheoliadau ar gyfer eich system ffermio.

Rhaid i'r storfa hefyd fod â digon o gapasiti ar gyfer yr holl *slyri* a gynhyrchwyd ac unrhyw ddŵr glaw neu olchion sy'n dod i mewn i'r storfa yn ystod y cyfnod.

Rhaid cyfrifo'r gofod storio gofynnol gan ddefnyddio'r *slyri* disgwylidig a gynhyrchir gan anifeiliaid ar y *daliad* yn ystod y *cyfnod storio*, ac unrhyw fewnbynau dŵr ychwanegol gan gynnwys dŵr goferu a dŵr golchion. Mae manylion ar gyfer cyfrifo'r gofyniad storio ar gael yn Atodiad 2 neu drwy feddalwedd fferm addas.

Rhaid storio *slyri* mewn system sy'n bodloni'r gofynion a nodir yn Atodiad 6.

Nid oes angen cyfleusterau storio ar gyfer *slyri* na thail *dofednod* sy'n cael eu hanfon oddi ar y *daliad* neu eu taenu ar *dir y mae'r risg o oferu drosto yn isel* (ar yr amod bod hyn yn cael ei wneud yn unol â'r mesurau *taenu* eraill). Fodd bynnag, rhaid darparu cyfleusterau storio ar gyfer un wythnos ychwanegol o dail fel mesur wrth gefn os na fydd modd *taenu* ar rai dyddiadau.

Rhaid gwahanu *slyri* yn ei ffracsiynau solet a hylifol naill ai'n fecanyddol neu ar wyneb anhydraiddd. Caiff y ffracsiwn hylif wedi ei wahanu ei ddiffinio fel *slyri* ac mae'n rhaid ei storio yn unol â'r rheoliadau hyn.

Gweler y **ddogfen Cwestiynau Cyffredin** am fanylion pellach.

4.4 Gofynion Cadw Cofnodion

Mae'r cofnodion sy'n ofynnol o 1 Awst 2024 yn cynnwys:

- Ar gyfer daliadau â systemau storio *slyri* – Cyfrifiadau i ddangos bod digon o ofod i storio'r holl *slyri* a fydd yn cael ei gynhyrchu gan anifeiliaid yn ystod y

cyfnod storio. Gweler **Atodiad 2**;


- Ar gyfer *daliadau* â moch, dofednod neu anifeiliaid eraill sy'n cael eu cadw dan do heb system *slyri* – Cyfrifiadau i ddangos bod digon o ofod i storio'r holl dail a gynhyrchir yn ystod y *cyfnod storio*. Gweler **Atodiad 2**

Rhaid cadw cofnodion am o leiaf 5 mlynedd a'u cyflwyno i gael eu harchwilio ar gais.


Cyfeiriwch at y ddogfen **Cwestiynau Cyffredin** am arferion gorau wrth gadw cofnodion.

Atodiad 1


O 1 Ebrill 2021




O 1 Ionawr 2023



O'r 1 Ionawr 2024



O 1 Awst 2024



ATODIAD 2

TEMPLEDI AR GYFER CYNLLUNIAU, CYFRIFO A CHADW COFNODION

Cyflwyniad

Mae'r **Atodiad** hwn yn darparu cyfres o dempledi a fydd, ar ôl eu cwblhau, yn eich galluogi i ddangos cydymffurfiaeth â'r Rheoliadau sy'n cynnwys cynllunio, cyfrifo a chadw cofnodion.

Mae'r **Atodiad**:

- a) yn darparu templedi ar gyfer y cynllunio a'r cyfrifo y mae angen i chi eu gwneud,
- b) yn darparu taflenni safonol ar gyfer cadw'r cofnodion angenrheidiol,
- c) yn nodi meysydd lle gallai arferion fferm cyfredol olygu torri'r Rheoliadau.

Bydd cwestiynau allweddol ar ddechrau pob **Rhan** yn nodi pa dempledi y mae'n rhaid eu cwblhau er mwyn i chi fodloni'r Rheoliadau. Ar ddechrau pob **Rhan**, ceir arwydd clir hefyd pryd y mae'n rhaid cwblhau pob templed penodol ac erbyn pryd y mae'n rhaid cydymffurfio â rheolau amrywiol. Wrth i chi symud ymlaen drwy'r **Atodiad**, dylech hefyd nodi amseroedd yn y dyfodol pan fydd angen diweddarau neu gadw cofnodion pellach.

Mae'n bosibl eich bod eisoes yn paratoi rhai o'r cyfrifiadau a'r cynlluniau, ac yn cadw'r cofnodion angenrheidiol (ar gyfer cynlluniau neu fentrau eraill). Cyn belled â bod y rhain yn bodloni'r Rheoliadau, gellir eu defnyddio fel dewis amgen i'r templedi hyn.

Ym mhob achos, rhaid cadw cofnodion am o leiaf bum mlynedd.

***Bydd yr holl dablau a ddarperir yn yr Atodiad hwn at ddibenion cyfrifo a chadw cofnodion ar gael ar ffurf Excel. Byddant ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru: <https://llyw.cymru/rheoli-tir>**

Nid oes angen cyflwyno'r templedi hyn nac unrhyw gofnodion eraill i CNC (oni bai eich bod yn cael cais i wneud hynny), fodd bynnag, rhaid iddynt fod ar gael i'w harchwilio unrhyw bryd.

Rhan 1 – Storio *tail organig* (gan gynnwys *slyri*)

Gofyniad ar gyfer cynlluniau, cyfrifiadau a chofnodion

Beth	Pryd
Ar <i>ddaliad</i> lle cedwir <i>da byw</i> , cyfanswm y tail a gynhrychir gan y nifer disgwylidig o anifeiliaid a gedwir mewn adeilad neu ar lawr caled yn ystod y <i>cyfnod storio</i> , gan ddefnyddio'r ffigurau safonol yn Nhablau 1.1, 1.2. ac 1.3.	Rhaid i unrhyw anifeiliaid a roddir ar y <i>daliad</i> am y tro cyntaf gael eu cynnwys yn y cyfrifiad o fewn un mis.
Maint y lle storio (llestri <i>slyri</i> a lloriau caled) sy'n ofynnol er mwyn gallu cydymffurfio â'r gofynion, gan ystyried: a) cyfanswm y tail y bwriedir ei allgludo o'r <i>daliad</i> ; b) cyfanswm y tail y bwriedir ei <i>daenu</i> ar <i>dir lle mae'r risg o oferu drosto yn isel</i> ; a c) yn achos llestr <i>slyri</i> , cyfanswm yr hylifau eraill heblaw <i>slyri</i> sy'n debygol o fynd i mewn i'r llestr. d) storio mewn tomenni caeau dros dro	Rhaid i unrhyw anifeiliaid a roddir ar y <i>daliad</i> am y tro cyntaf gael eu cynnwys yn y cyfrifiad o fewn un mis.
Y maint o le (capasiti) i storio ar y daliad ar hyn o bryd	Os yw maint y lle storio/capasiti yn newid, rhaid i chi gofnodi'r newid o fewn wythnos.
Ar <i>ddaliad</i> lle cedwir <i>da byw</i> , rhaid ichi gofnodi, ar gyfer y <i>cyfnod storio</i> blaenorol, y nifer a'r categori o anifeiliaid a oedd mewn adeilad neu ar lawr caled.	Cyn 30 Ebrill bob blwyddyn
Ar <i>ddaliad</i> lle cedwir <i>da byw</i> , rhaid i chi gofnodi'r safleoedd a ddefnyddiwyd ar gyfer tomenni mewn caeau, a dyddiadau eu defnyddio	Cyn 30 Ebrill bob blwyddyn

C 1.1 A fyddwch yn cynhyrchu *slyri* o wartheg, defaid, geifr, ceirw neu geffylau yn ystod y cyfnod 1 Hydref i 1 Mawrth?

BYDDWN / NA FYDDWN

Os "NA FYDDWN" ewch ymlaen i **C 1.4**

Os "BYDDWN", rhaid i chi wneud **Cyfrifiadau 1.1 - 1.6**

Cyfrifiad 1.1

Cwblhewch **Dabl 1.1** i gyfrifo cyfanswm y *slyri* a gynhyrchir gan y nifer disgwyliedig o anifeiliaid a gedwir yn ystod y *cyfnod storio*. Ceir cyfarwyddyd yn y blwch o dan y tabl.

Nodwch y ffigur o **Flwch 1A** isod a'i rannu â 1,000 i drosi i fetrau ciwbig. Nodwch y ffigur hwn ym **Mlwch 1B** isod.

$$\boxed{1A} \boxed{} \div 1,000 = \boxed{1B} \boxed{} \text{ m}^3$$

Tabl 1.1 - Cynnyrch *slyri* gwartheg, defaid, geifr, ceirw (yn seiliedig ar *slyri* heb ei wanhau)

Math o <i>dda byw</i>	Col 1	Col 2	Col 3	Col 4
	Nifer y stoc	Nifer y diwrnodau y cesglir <i>slyri</i> yn ystod y <i>cyfnod storio</i>	Cyfaint y carthion dyddiol (litrau)	Cyfaint a gynhyrchir yn y <i>cyfnod storio</i> Col 1 x Col 2 x Col 3
Gwartheg				
Llo (pob categori yn cynnwys cig llo) hyd at 3 mis			7.0	
Buwch odro hyd at y llo cyntaf	O 3 mis ac o dan 13 mis		20.0	
	O 13 mis hyd at y llo cyntaf		40.0	
Buwch odro ar ôl magu llo cyntaf	Cynnyrch llaeth blynyddol dros 9,000 litr		64.0	
	Cynnyrch llaeth blynyddol 6,000 – 9,000 litr		53.0	
	Cynnyrch llaeth blynyddol yn llai na 6,000 litr		42.0	
Buchod neu fustych ^a hyd at 25 mis	O 3 mis ac o dan 13 mis		20.0	
	O 13 mis ac o dan 25 mis		26.0	
Buchod neu fustych ^a o 25 mis	Anifeiliaid benyw neu fustych ^a i'w lladd		32.0	
	Anifeiliaid bridio benyw sy'n pwysu 500 kg neu lai		32.0	
	Anifeiliaid bridio benyw sy'n pwysu dros 500 kg		45.0	
Teirw	Nid ar gyfer bridio, 3 mis a throsodd		26.0	
	Bridio – o 3 mis ac o dan 25 mis		26.0	
	Bridio – o 25 mis		26.0	
Defaid				
O 6 mis hyd at 9 mis			1.8	
O 9 mis hyd at yr oena cyntaf, yr hwrdda cyntaf neu'r lladd			1.8	
Ar ôl wyna neu hwrdda ^b	Pwysu llai na 60 kg		3.3	
	Pwysu dros 60 kg		5.0	
Geifr, ceirw, cheffylau				
Gafr			3.5	
Carw	Bridio		5.0	
	Arall		3.5	
Ceffyl			24.0	
Cyfanswm cyfaint y <i>slyri</i> o wartheg, defaid, geifr, ceirw a cheffylau yn ystod y <i>cyfnod storio</i>			1A	

a – bustych = gwryw wedi'i sbaddu

b – yn achos mamog, mae'r ffigur hwn yn cynnwys un neu ragor o ŵyn sugno hyd nes bo'r ŵyn yn 6 mis oed

Colofn 1 - ar gyfer pob categori o *dda byw* a restrwyd, nodwch y nifer sy'n debygol o gael eu cadw ar system *slyri* neu system rannol-*slyri* yn ystod y *cyfnod storio*.

Colofn 2 - ar gyfer pob categori o *dda byw*, nodwch gyfanswm nifer y diwrnodau yn ystod y *cyfnod storio* pan gesglir *slyri*. Ar gyfer *da byw* a letyir o dan system *slyri* 100% trwy gydol y *cyfnod storio*, y nifer fydd 152 diwrnod. Yn achos systemau rhannol-*slyri*, neu pan na chesglir *slyri* o *dda byw* drwy gydol y dydd, neu ar bob diwrnod yn ystod y *cyfnod storio*, dylid addasu'r nifer diwrnodau a gofnodir yn y golofn hon yn unol â hynny.

Colofn 3 - y ffigurau hyn yw'r cyfeintiau safonol o garthion a gynhyrchir ar gyfer pob categori o *dda byw*, a rhaid eu defnyddio yn y cyfrifiad.

Colofn 4 - ar gyfer pob categori o *dda byw*, lluoswch y ffigurau yng Ngholofnau 1, 2 a 3 i gael cyfanswm y cyfaint (mewn litrau) o *slyri* a gynhyrchir gan wartheg, defaid, geifr, ceirw a cheffylau yn ystod y *cyfnod storio*.

Blwch 1A - nodwch gyfanswm y ffigurau yng Ngholofn 4.


Cyfrifiad 1.2

Mae'r cyfrifiad hwn yn darparu'r isafswm statudol yn unig ac nid yw'n ystyried yr holl ffactorau sy'n berthnasol i'ch gallu i gydymffurfio â gofynion eraill y Rheoliadau. Dylid ystyried ffactorau perthnasol, megis a fydd y storfa yn gwbl wag cyn y cyfnodau gwaharddedig, darparu storfa ychwanegol i fynd i'r afael â'r risg y bydd tywydd gwael yn atal *taenu slyri* ar ôl toriad silwair hwyr yn yr hydref a rhagfynegiadau glawiad yn y dyfodol.

Cyfrifwch y cyfaint cyfartalog o ddŵr glaw⁴ sy'n mynd i mewn i'ch storfa/storfeydd *slyri* yn ystod y *cyfnod storio*, o 1 Hydref tan 1 Mawrth. Gellir cyfrifo hyn drwy baratoi cynllun o adeiladau a buarthau'r fferm, a marcio arno, mewn lliw **coch**, y draeniau sy'n cludo dŵr neu hylifau budr; ac mewn lliw **glas** y draeniau sy'n cludo dŵr glân. Cyfrifwch gyfanswm arwynebedd y buarthau ac adeiladau, ac yna didynnwch ohono unrhyw arwynebeddau dan do os yw'r dŵr glaw sy'n disgyn ar y toeau hynny yn cael ei gasglu a'i arllwys i un o'r draeniau dŵr glân. Fodd bynnag, os yw'r glaw sy'n disgyn ar doeau neu goncrit glân yn draenio yn anochel i storfa/storfeydd *slyri*, rhaid cynnwys arwynebeddau o'r fath. Rhaid ichi gynnwys hefyd arwynebedd storfeydd wal hidlo, claddfeydd silwair heb orchudd drostynt, tomenni tail a storfeydd *slyri*. Nodwch yr arwynebedd hwn ym **Mlwch 1C** isod. Ym **Mlwch 1D**, nodwch y glawiad nodweddiadol⁵ (mewn metrau) sy'n digwydd yn ystod y *cyfnod storio*. Lluoswch y ffigurau ym **Mlychau 1C ac 1D** a nodwch y canlyniad ym **Mlwch 1E**, i roi'r goferiad sy'n mynd i mewn i'r storfa *slyri*.

⁴ Mae data glawiad ar gyfartaledd ar gael trwy borth mapio lle. Llywodraeth Cymru yn seiliedig ar gyfartaleddau misol hanesyddol y Swyddfa Dywydd rhwng 1980 a 2010. Darperir y data ar grid 1km i adlewyrchu daearyddiaeth eang Cymru a darparu data lleol cywir. Gellir defnyddio dulliau cydnabyddedig eraill i bennu'r gofyniad sylfaenol, gweler y ddogfen Cwestiynau Cyffredin sy'n cyd-fynd â'r ddogfen am fanylion.

Enghraifft o gynllun draeniad fferm



Arwynebedd (m ²)	1C	x	Glawiad ar gyfartaledd yn ystod cyfnod storio	1D	=	1E	m ³
------------------------------	-----------	---	---	-----------	---	-----------	----------------

Sylwer: ar rai ffermydd hwyrach na fydd yr holl ddŵr sydd ychydig yn fudr yn mynd i mewn i storfa/storfeydd *slyri*, ac y bydd rhywfaint yn cael ei gyfeirio i storfa dŵr budr ar wahân i ddyfrhau caeau yn rheolaidd. Dylech sicrhau bod unrhyw beth sy'n mynd i mewn i storfa dŵr sydd ychydig yn fudr, a ddefnyddir i ddyfrhau'n rheolaidd yn ystod cyfnodau gwaharddedig, yn bodloni'r diffiniad Rheolaethol o ddŵr sydd ychydig yn fudr, **sef dŵr wedi ei halogi yn ysgafn drwy oferu dros fuarthau concret sydd ychydig yn fudr, neu ddŵr o'r llaethdy/parlwr godro a gesglir ar wahân i'r slyri**. Nid yw'n cynnwys draeniad o fuarthau neu adeiladau a ddefnyddir i gadw neu i borthi *da byw*, na hylifau o storfeydd wal hidlo, storfeydd tail ar arwynebau caled, blychau hidlo, gwahanyddion *slyri* neu elifion silwair, sydd i gyd yn gyfoethog mewn nitrogen.

C 1.2 A ydych chi'n cynhyrchu dŵr golchi o'r llaethdy sy'n mynd i mewn i'r storfa/storfeydd *slyri* yn ystod y *cyfnod storio*?

YDYN / NAC YDYN

Os "NAC YDYN" ewch ymlaen i **C 1.3**

Os "YDYN" rhaid ichi wneud y cyfrifiad canlynol:

Cyfrifiad 1.3

Cyfrifwch gyfaint y dŵr golchi o'r llaethdy sy'n mynd i mewn i'r storfa/storfeydd *slyri* yn ystod y *cyfnod storio*.

Y cyfaint nodweddiadol a ddefnyddir o biben cyfaint uchel yw 30 litr y fuwch y diwrnod, ac o biben cyfaint isel, 20 litr y fuwch y diwrnod.

Os gwyddoch beth yw cyfanswm cyfaint (mewn metrau ciwbig) y dŵr golchi a ddefnyddiwyd yn ystod y *cyfnod storio* (e.e. o ddarlleniadau mesurydd dŵr), nodwch y ffigur hwnnw yn syth ym **Mlwch 1J**. Fel arall, nodwch nifer y buchod godro sydd ar eich fferm ym **Mlwch 1F**, ac ym **Mlwch 1G** nodwch gyfaint dyddiol nodweddiadol (mewn litrau) a ddefnyddir fesul buwch. Lluoswch y **Blychau 1F, 1G** ac **1H** (sef 152 diwrnod y *cyfnod storio* wedi ei rannu gyda 1,000 i drosi o litrau i fetrau ciwbig) a nodwch y canlyniad ym **Mlwch 1J**, fel cyfanswm cyfaint y dŵr golchi sy'n mynd i mewn i'r storfa/storfeydd *slyri*.

Nifer y buchod	1F	x	Cyfaint dŵr golchi dyddiol fesul buwch	1G	x	1H	0.152	=	1J	m ³
----------------	-----------	---	--	-----------	---	-----------	-------	---	-----------	----------------

C 1.3 A oes unrhyw oferion budr eraill yn mynd i mewn i'r storfa/storfeydd *slyri* yn ystod y *cyfnod storio*?

OES / NAC OES

Os "NAC OES" ewch ymlaen i **Gyfrifiad 1.5**

Os "OES" rhaid ichi wneud y cyfrifiad canlynol:

Cyfrifiad 1.4

Gwnewch amcangyfrif o unrhyw oferiad budr arall (mewn m³) sy'n mynd i mewn i'r storfa/storfeydd *slyri* yn ystod y *cyfnod storio*. Rhowch y manylion yn y blwch isod a nodwch y ffigur ym **Mlwch 1K**

--

1K m³

Cyfrifiad 1.5

Adiwch ynghyd y ffigurau ym Mlychau 1B, 1E, 1J ac 1K i gael cyfanswm cyfaint y *slyri* a gynhyrchwyd yn ystod y *cyfnod storio*. Nodwch y canlyniad yn y Blwch 1L.

1L m³

C 1.4 A ydych chi'n cynhyrchu unrhyw *slyri* o foch yn ystod y cyfnod o 1 Hydref i 1 Ebrill?

YDYN / NAC YDYN

Os "NAC YDYN" ewch ymlaen i **Gyfrifiad 1.6**

Os "YDYN" mae'n rhaid chi gyfrifo cyfaint y *slyri* a gynhyrchir gan ddefnyddio'r ffigurau safonol yn **Nhabl 1.2** isod. Dylech gofio cynnwys hefyd unrhyw ddŵr glaw, dŵr golchi⁶ ac unrhyw oferion budr eraill sy'n mynd i mewn i storfa *slyri* moch.

⁶ Os gwyddoch y maint gwirioneddol (mewn m³), cewch ddefnyddio'r ffigur hwnnw neu, fel arall, gellir defnyddio'r ffigurau nodweddiadol canlynol:

Math o fochyn	Litrau am bob lle mochyn bob wythnos	Math o fochyn	Litrau am bob lle mochyn bob wythnos
Hychod â thorllwyth hyd at 7 kg	10.0	Perchyll diddwyn (13 – 30 kg)	2.6
Banwesi heb gael baedd a baeddod bridio	0.6	Moch stôr (31 – 65 kg)	1.9
Perchyll diddwyn (7 – 12 kg)	2.0	Moch tew (66 kg a throsodd)	1.6

Tabl 1.2 Slyri a gynhyrchir gan foch (seiliedig ar slyri heb ei wanhau)

Math o dda byw		Cyfaint y Carthion Dyddiol (litrau)
O 7 kg ond llai na 13 kg		1.3
O 13 kg ond llai na 31 kg		2.0
O 31 kg ond llai na 66 kg	Ar fwyd sych	3.7
	Bwydir â hylif	7.1
O 66 kg	Bwriedir i'w lladd – ar fwyd sych	5.1
	Bwriedir i'w lladd – bwydir â hylif	10.0
	Hychod a fwriedir ar gyfer bridio, cyn cael eu torllwyth gyntaf	5.6
	Hychod (gan gynnwys torllwythi hyd at 7 kg)	10.9
	Baeddod bridio o 66 kg hyd at 150 kg	5.1
	Baeddod bridio dros 150 k	8.7

Rhaid ichi ddangos manylion eich cyfrifiad ar ddalen ar wahân, a nodi cyfanswm y cyfaint ym **Mlwch 1M**. (Dylai pob cyfaint fod mewn m³)

1M m³

C 1.5 A ydych wedi nodi ffigur yn y naill neu'r llall o **Flychau 1L neu 1M**?

DO / NADDO

Os "NADDO" ewch ymlaen i **C 1.6**

Os "DO", dylech wneud **Cyfrifiad 1.6**

Cyfrifiad 1.6

Cyfrifwch gyfaint y lle sydd ar gael ar y fferm i storio *slyri*, a nodwch y ffigur ym **Mlwch 1N** isod.

Yn achos storfa sy'n sgwâr neu'n betryal:

Hyd (m) x lled (m) x dyfnder (m) = cyfaint mewn metrau ciwbig

Yn achos storfa gron sydd uwchlaw'r ddaear:

3.142 x radiws (m) x radiws (m) x uchder (m) = cyfaint mewn m³

Dylid caniatáu ar gyfer y bwrdd rhydd sy'n ofynnol, sef 750 mm yn achos lagwnau pridd a 300 mm yn achos lagwnau concrit neu danciau dur uwchlaw'r ddaear. Ni ddylid cyfrif cyfaint y bwrdd rhydd tuag at y lle storio sydd ar gael i fodloni gofynion storio y Rheoliadau. Yn ogystal, dylai mesuriadau unrhyw lagwnau pridd ystyried bod yr ochrau yn goleddfu tuag i mewn. Dylid dangos manylion y cyfrifiadau yn y blwch isod.

Lle storio <i>slyri</i> sydd ar gael	=	1N	m ³
--------------------------------------	---	-----------	----------------

Casgliadau

Os yw'r ffigur ym **Mlwch 1N** yn llai na swm y ffigurau ym **Mlychau 1L ac 1M**, nid oes gan y fferm ddigon o le ar gyfer storio *slyri* i fodloni'r Rheoliadau. Fodd bynnag, cyn ystyried darparu lle storio ychwanegol neu newid eich system ffermio i ddarparu ar gyfer y diffyg, mae'r Rheoliadau yn caniatáu ichi ystyried y canlynol, a thynnu'r cyfeintiau priodol o **Flychau 1L neu 1M**:

- Os ydych **bob amser** yn allgludo cyfran o'ch *slyri* yn ystod y *cyfnod storio*, i fferm arall i'w *daenu* ar y tir neu i ryw gyrchfan arall sy'n dderbyniol yn amgylcheddol (gweler hefyd **Rhan 6**)
- Os ydych **bob amser** yn defnyddio gwahanydd mecanyddol i dynnu'r solidau allan o'r *slyri*, cewch leihau cyfaint y lle storio angenrheidiol (15-20% ar gyfer *slyri* gwartheg a 5-10% ar gyfer *slyri* moch) a rheoli'r ffracsiwn solet yn unol â gofynion y Rheoliadau ar gyfer tail solet
- Os ydych **bob amser** yn rhoi cyfran o'r *slyri* ar *dir y mae'r risg o oferu drosto yn isel* ar ôl diwedd y "cyfnod gwaharddedig", cewch ddiynnu'r cyfaint a ddefnyddir felly, **ond rhaid ichi hefyd ychwanegu cynnyrch *slyri* un wythnos ychwanegol, fel mesur wrth gefn.**

Os gallwch ad-drefnu'r arwynebeddau buarth glân a budr, newid y draeniad oddi ar y toeau, gosod to dros arwynebeddau o fuarth budr neu storfeydd *slyri*, hwyrach y gallwch leihau cyfaint y dŵr glaw sy'n mynd i mewn i'ch storfa/storfeydd *slyri* presennol.

Os byddwch yn defnyddio unrhyw rai o'r opsiynau uchod i leihau cyfanswm y *slyri* a gaiff ei storio, dylech gofnodi eich cyfrifiad a'r cyfiawnhad dros newid y ffigurau yn y blwch isod (neu ar ddalen ar wahân)

--

- Pan fydd systemau wedi eu haddasu, dylech ail-weithio Cyfrifiadau 1.1 – 1.6 fel sy'n briodol
- Pan fo'r ffigur ym Mlwch N yn hafal i, neu'n fwy na swm y ffigurau ym Mlychau L ac M, mae'r fferm yn bodloni'r Rheoliadau.
- Dylid ail-weithio Cyfrifiadau 1.1 – 1.6 o fewn un mis o roi unrhyw *dda byw* ychwanegol ar y fferm.
- Rhaid cofnodi unrhyw newidiadau i'r maint lle storio o fewn un wythnos.

C 1.6 A ydych chi'n cynhyrchu unrhyw dail *dofednod* solet yn ystod y cyfnod 1 Hydref i 1 Ebrill?

YDYN / NAC YDYN

Os "NAC YDYN" ewch ymlaen i baragraff olaf y **Rhan** hon, sydd â'r pennawd "Cadw Cofnodion"

Os "YDYN", bydd rhaid ichi gyfrifo:

- cyfaint y tail *dofednod* a gynhyrchir, gan ddefnyddio ffigurau safonol yn **Nhabl 1.3** isod
- cyfaint y tail *dofednod* sydd angen ei storio, gan ddefnyddio dwysedd o 0.9 ar gyfer carthion ieir dodwy a 0.5 ar gyfer torllwyth *dofednod*
- cyfaint y storfeydd presennol
- ac ystyried a yw'r cyfaint presennol yn ddigonol. Os oes prinder lle ar hyn o bryd, bydd rhaid ichi ddangos pa gamau y bwriedwch eu cymryd i sicrhau bod eich fferm yn bodloni gofynion y Rheoliadau.

Tabl 1.3 – Cynhyrchu tail dofednod (sylwer - mae'r holl ffigurau'n cynnwys torllwythi)

Math o <i>dda byw</i>		Tail a gynhyrchir yn ddyddiol gan bob anifail (kg)
leir a ddefnyddir i gynhyrchu wyau i'w bwyta gan bobl	O dan 17 wythnos oed	0.04
	O 17 wythnos ymlaen	0.12
leir a fegir ar gyfer cig		0.06
leir a fegir ar gyfer bridio	O dan 25 wythnos oed	0.04
	O 25 wythnos ymlaen	0.12
Tyrcwn	Gwryw	0.16
	Benyw	0.12
Hwyaid		0.10
Estrysod		1.60

Cadw Cofnodion

- Cyn 30 Ebrill bob blwyddyn, rhaid i feddiannydd *daliad* gyda *da byw* gofnodi, ar gyfer y *cyfnod storio* blaenorol, y nifer a'r categori o anifeiliaid a oedd mewn adeilad neu ar lawr caled yn ystod y *cyfnod storio*. Gellir defnyddio'r cofnodion fferm presennol at y pwrpas hwn.
- Cyn 30 Ebrill bob blwyddyn, rhaid i feddiannydd *daliad* gyda *da byw* gofnodi, ar gyfer y *cyfnod storio* blaenorol, y safleoedd a ddefnyddiwyd ar gyfer tomenni dros dro mewn caeau (gweler Rhan 5 - map risg) a dyddiadau eu defnyddio

Os oeddech wedi defnyddio *tomenni dros dro mewn cae* i storio tail solet (h.y. deunydd y gellir ei bentyrru'n domen ar ei thraed ei hun, ac nad oes hylif yn draenio ohono), nodwch y dyddiadau isod. Nodwch leoliad y safle, y dyddiad cychwyn a'r dyddiad diweddu.

Rhan 2 – Terfyn cyfanswm nitrogen y *daliad* cyfan

Gofynion ar gyfer cynlluniau, cyfrifiadau a chofnodion

Beth	Pryd
Rhaid ichi gofnodi cyfanswm maint y daliad. Dylai'r cyfrifiad o arwynebedd tir adael allan unrhyw ddŵr wyneb, lloriau caled, adeiladau, ffyrdd a choetir nad yw'n cael ei bori.	Rhaid cofnodi newidiadau o fewn un mis.
Rhaid i chi gofnodi: a) nifer a chategori (yn ôl Tabl 2.2) yr anifeiliaid ar y <i>daliad</i> yn ystod y cyfnod blaenorol o 12 mis yn dechrau ar 1 Ionawr b) nifer y diwrnodau a dreuliodd pob anifail ar y <i>daliad</i> Ar gyfer daliadau o fewn Parth Perygl Nitradau blaenorol dylid parhau i gadw cofnodion am flynyddoedd calendr sy'n dechrau ar 1 Ionawr	Erbyn 30 Ebrill bob blwyddyn
Wedyn rhaid ichi gyfrifo cyfanswm y nitrogen yn y tail a gynhyrchwyd gan yr anifeiliaid ar y <i>daliad</i> yn ystod y cyfnod blaenorol o 12 mis gan ddechrau ar 1 Ionawr gan ddefnyddio'r ffigurau safonol yn Nhabl 2.3 Ar gyfer daliadau o fewn Parth Perygl Nitradau blaenorol dylid parhau i gadw cofnodion am flynyddoedd calendr sy'n dechrau ar 1 Ionawr	Erbyn 30 Ebrill bob blwyddyn
Fel dewis arall, yn achos moch neu <i>ddofednod</i> a gedwir dan do yn barhaol, cewch ddefnyddio: a) meddalwedd a gymeradwyir gan Lywodraeth Cymru (ac os gwneir hynny rhaid cadw allbrint o'r canlyniadau); neu b) yn achos system o gadw <i>da byw</i> sy'n cynhyrchu tail solet yn unig ⁷ , samplu a dadansoddi yn unol ag Atodiad 3 y Cyfarwyddyd hwn . Rhaid ichi wneud cofnod o'r cyfrifiadau a sut cyfrifwyd y ffigurau terfynol.	Erbyn 30 Ebrill bob blwyddyn

Sylwer: o dan y Rheoliadau, mae'n ofynnol bod eich cyfrifiad o gyfanswm y baich nitrogen ar eich daliad yn seiliedig ar ffigurau gwirioneddol y flwyddyn galendr flaenorol. Fodd bynnag, pe baech yn aros tan ddiwedd y flwyddyn cyn gwneud y cyfrifiad, gallech ddarganfod eich bod wedi mynd dros ben y terfyn ac na allech wneud dim i adfer y sefyllfa. Argymhellir yn gryf, felly, y dylech hefyd gynllunio ar gyfer y flwyddyn sydd i ddod, drwy wneud y cyfrifiadau yn y **Rhan hon**

⁷ Deunydd y gellir ei bentyrru mewn tomen ar ei thraed ei hun nad oes hylif yn draenio ohono

o'r **Atodiad** ymlaen llaw, cyn dechrau pob blwyddyn galendr.

Cyfrifiad 2.1

Cyfrifwch arwynebedd tir yr holl fferm drwy lenwi **Tabl 2.1**. Nodwch enw neu rif pob cae yng **Ngholofn 1**. Dylech gynnwys tir pori garw, tir a ddelir ar rent sydd o dan eich rheolaeth chi yn ystod y flwyddyn galendr, tir o dan gytundebau rheoli (megis Glastir, Tir Cynnal, Tir Gofal) a'r cyfran briodol o unrhyw dir comin a ddefnyddir gennych. Yng **Ngholofn 2** nodwch arwynebedd pob cae mewn hectarau, **ond peidiwch â chynnwys arwynebeddau o ddŵr wyneb, lloriau caled, adeiladau, ffyrdd, a choetir nad yw'n cael ei bori**. Nodwch gyfanswm yr arwynebeddau caeau a nodwyd yng **Ngholofn 2** o **Dabl 2.1** ym **Mlwch 2**.

Tabl 2.1

		Colofnau parhad	
Col 1	Col 2	Col 1	Col 2
Enw neu rif y cae	Arwynebedd (ha)	Enw neu rif y cae	Arwynebedd (ha)
		(is-gyfanswm a gariwyd ymlaen)	
Is-gyfanswm		Cyfanswm arwynebedd	2A

Cyfanswm nitrogen o'r holl dail da byw a fewngludir			2G

kg N /
blwyddyn

Colofn 1 - nodwch y math o dail o **Rhestr 2.3.1** isod a fewngludir.

Rhestr 2.3.1

Gwrtaith nad yw'n slyri

Cyfanswm Nitrogen ym mhob tunnell (kg)

Gwrtaith nad yw'n slyri o	
Gwartheg	6.0
Moch	7.0
Defaid	7.0
Hwyaid	6.5
Ceffylau	7.0
Tail o ieir dodwy	19.0
Tail o dyrchw neu ieir ar gyfer cig	30.0

Slyri

Cyfanswm Nitrogen ym mhob m³ (kg)

Gwartheg	2.6
Moch	3.6
<i>Slyri</i> gwartheg a wahanwyd (ffracsiwn hylifol)	1.5
Blwch hidlo	2.0
Wal hidlo	3.0
Gwahanydd mecanyddol	
<i>Slyri</i> gwartheg a wahanwyd (ffracsiwn solet)	4.0
<i>Slyri</i> moch a wahanwyd (ffracsiwn hylif)	3.6
<i>Slyri</i> moch a wahanwyd (ffracsiwn solet)	5.0
Dŵr budr	0.5

Colofn 2 - nodwch gyfanswm pob math unigol o dail a fewngludir yn ystod y flwyddyn. Defnyddiwch fetrau ciwbig ar gyfer *slyri* neu dunelli ar gyfer mathau eraill o dail.

Colofn 3 - nodwch y cyfanswm nitrogen a gynhwysir ym mhob math unigol o dail. Rhaid ichi naill ai ddefnyddio'r gwerthoedd safonol o'r rhestr⁷ neu, os yw'n dderbyniol, canlyniadau'r samplu a'r dadansoddi yn unol ag **Atodiad 2 o'r Cyfarwyddyd hwn**

Colofn 4 - ar gyfer pob math unigol o dail, nodwch gyfanswm y nitrogen a fewngludir i'ch fferm drwy luosi pob ffigur yng **Ngholofn 2** gyda'r ffigurau yng **Ngholofn 3**.

Blwch 2G - nodwch gyfanswm y ffigurau yng **Ngholofn 4**, sy'n rhoi ffigur ar gyfer y cyfanswm nitrogen a fewngludir yn yr holl dail *da byw*.

Tabl 2.2 – Cyfanswm y nitrogen a gynhyrchir gan *dda byw* ar y *daliad*

Math o <i>dda byw</i>	Col 1	Col 2	Col 3
	Nifer y stoc	Cyfanswm y nitrogen a gynhyrchir gan bob uned o stoc (kg/blwyddyn)	Cyfanswm y nitrogen a gynhyrchwyd Col 1 x Col 2
Gwartheg			
Llo (pob categori yn cynnwys cig llo) hyd at 3 mis		8	
Buwch odro hyd at y llo cyntaf	O 3 mis ac o dan 13 mis	35	
	O 13 mis hyd at y llo cyntaf	61	
Buwch odro ar ôl magu llo cyntaf	Cynnyrch llaeth blynyddol dros 9,000 litr	115	
	Cynnyrch llaeth blynyddol 6,000 – 9,000 litr	101	
	Cynnyrch llaeth blynyddol yn llai na 6,000 litr	77	
Buchod neu fustych ^a hyd at 25 mis	O 3 mis ac o dan 13 mis	33	
	O 13 mis ac o dan 25 mis	50	
Buchod neu fustych ^a o 25 mis	Anifeiliaid benyw neu fustych ^a i'w lladd	50	
	Anifeiliaid bridio benyw sy'n pwyso 500 kg neu lai	61	
	Anifeiliaid bridio benyw sy'n pwyso dros 500 kg	83	
Teirw	Nid ar gyfer bridio, 3 mis a throsodd	54	
	Bridio – o 3 mis ac o dan 25 mis	50	
	Bridio – o 25 mis	48	
Defaid			
O 6 mis hyd at 9 mis		2.0	
O 9 mis hyd at yr oena cyntaf, yr hwrdda cyntaf neu'r lladd		1.4	
Ar ôl wyna neu hwrdda ^b	Pwyso llai na 60 kg	7.6	
	Pwyso dros 60 kg	12.0	
Geifr, ceirw, ceffylau			
Gafr		15.0	
Carw	Bridio	15.3	
	Arall	12.0	
Ceffyl		21.0	
Is-gyfanswm (i'w ddwyn ymlaen a'i barhau)			

a – bustych = gwryw wedi'i sbaddu

b – yn achos mamog, mae'r ffigur hwn yn cynnwys un neu ragor o ŵyn sugno hyd nes bo'r ŵyn yn 6 mis oed

Colofn 1 - nodwch nifer y *da byw* a gedwir ar y fferm. Dylid addasu'r nifer hwn (yn ôl nifer y diwrnodau allan o 365 diwrnod) os mai dim ond am ran o'r cyfnod 12 mis y cadwyd rhai o'r stoc

Colofn 2 - mae'n rhoi'r ffigur safonol ar gyfer cyfanswm y nitrogen a gynhyrchir gan bob categori o *dda byw*.

Colofn 3 - ar gyfer pob categori o *dda byw*, lluoswch y ffigur yng **Ngholofn 1** gyda'r ffigur yng **Ngholofn 2** a rhowch y canlyniad yng **Ngholofn 3**.

Blwch 2F – adiwch yr holl ffigurau yng **Ngholofn 3** a rhowch y canlyniad ym **Mlwch 2F**. Y ffigur hwn yw cyfanswm y nitrogen a gynhyrchir gan *dda byw* ar y fferm.

Tabl 2.2 parhad

Math o dda byw	Col 1	Col 2	Col 3
	Nifer y stoc	Cyfanswm y nitrogen a gynhyrchir gan bob uned o stoc (kg/blwyddyn)	Cyfanswm y nitrogen a gynhyrchwyd Col 1 x Col 2
Is-gyfanswm (wedi'i ddwyn ymlaen)			
Moch			
O 7 kg ond llai na 13 kg		1.5	
O 13 kg ond llai na 31 kg		5.2	
O 31 kg ond llai na 66 kg		8.8	
O 66 kg	Bwriedir i'w lladd	12.0	
	Hychod a fwriedir ar gyfer bridio, cyn cael eu torllwyth gyntaf	13.9	
	Hychod (gan gynnwys torllwythi hyd at 7 kg) ar ddiet yn cynnwys asidau amino synthetig ychwanegol	16.1	
	Hychod (gan gynnwys torllwythi hyd at 7 kg) ar ddiet heb asidau amino synthetig ychwanegol	17.9	
	Baeddod bridio o 66 kg hyd at 150 kg	12.0	
Baeddod bridio dros 150 k	17.5		
Dofednod			
leir a ddefnyddir i gynhyrchu wyau i'w bwyta gan bobl	O dan 17 wythnos oed	0.23	
	O 17 wythnos (mewn cewyll)	0.41	
	O 17 wythnos (nid mewn cewyll)	0.55	
leir a fegir ar gyfer cig		0.39	
leir a fegir ar gyfer bridio	O dan 25 wythnos oed	0.31	
	O 25 wythnos ymlaen	0.74	
Tyrswyn	Gwryw	1.37	
	Benyw	1.03	
Hwyaid		0.91	
Estrysod		1.40	
Is-gyfanswm (i'w ddwyn ymlaen a'i barhau)			2F

Colofn 1 - nodwch nifer y *dda byw* a gedwir ar y fferm. Dylid addasu'r nifer hwn (yn ôl nifer y diwrnodau allan o 365 diwrnod) os mai dim ond am ran o'r cyfnod 12 mis y cadwyd rhai o'r stoc

Colofn 2 - mae'n rhoi'r ffigur safonol ar gyfer cyfanswm y nitrogen a gynhyrchir gan bob categori o *dda byw*.

Colofn 3 - ar gyfer pob categori o *dda byw*, lluoswch y ffigur yng **Ngholofn 1** gyda'r ffigur yng **Ngholofn 2** a rhowch y canlyniad yng **Ngholofn 3**.

Blwch 2F – adiwch yr holl ffigurau yng **Ngholofn 3** a rhowch y canlyniad ym **Mlwch 2F**. Y ffigur hwn yw cyfanswm y nitrogen a gynhyrchir gan *dda byw* ar y fferm.

C 2.3 A ydych chi'n allgludo tail *da byw* oddi ar y fferm?

YDYN / NAC YDYN

Os "NAC YDYN" ewch ymlaen i **C 2.4**

Os "YDYN", cwblhewch **Dabl 2.4**

Tabl 2.4 - Tail da byw a allgludir

Col 1	Col 2	Col 3	Col 4
Math o dail	Cyfanswm (t neu m ³)	Cyfanswm cynnwys nitrogen (kg/t neu kg/m ³)	Cyfanswm nitrogen (kg)
Cyfanswm nitrogen yr holl dail <i>da byw</i> a allgludir			2H

kg N / blwyddyn

- Colofn 1** - nodwch y mathau o dail (o **Restr 2.3.1**) a allgludir.
- Colofn 2** - nodwch gyfanswm pob math unigol o dail a allgludir yn ystod y flwyddyn. Defnyddiwch fetrau ciwbig ar gyfer *slyri* neu dunelli ar gyfer mathau eraill o dail
- Colofn 3** - nodwch gyfanswm y nitrogen sydd ynddo ar gyfer pob math unigol o dail. Rhaid i chi naill ai ddefnyddio'r gwerthoedd safonol o **Restr 2.3.1** neu, os yw'n dderbyniol, ganlyniadau samplu a dadansoddi yn unol ag **Atodiad 3 o'r Canllawiau yma**
- Colofn 4** - ar gyfer pob math unigol o dail, nodwch gyfanswm y nitrogen a allgludir o'ch fferm, drwy luosi pob ffigur yng **Ngholofn 2** gyda'r ffigurau yng **Ngholofn 3**.
- Blwch 2H** - nodwch gyfanswm y ffigurau yng **Ngholofn 4** sy'n rhoi ffigur ar gyfer y cyfanswm nitrogen a allgludir yn yr holl dail *da byw*.

C 2.4 A ydych chi wedi nodi ffigur yn unrhyw un o **Flychau 2F, 2G neu 2H**?

Os "NADDO" ewch ymlaen i **Ran 3**

Os "DO" dylech wneud **Cyfrifiad 2.3**

Cyfrifiad 2.3

Nodwch gyfanswm y baich nitrogen o dail *da byw* ar eich fferm ym **Mlwch 2I** drwy adio'r ffigurau ym **Mlychau 2F** a **2G**, a thynnu'r ffigur ym **Mlwch 2H**.

2F		+	2G		-	2H		=	2I		kg N/blwyddyn
----	--	---	----	--	---	----	--	---	----	--	------------------

Casgliadau

Os yw **Blwch 2E** yn fwy na **Blwch 2I** rydych yn cydymffurfio â'r Rheoliadau ar y baich nitrogen.

Os yw **Blwch 2E** yn llai na **Blwch 2I** mae'r baich tail *da byw* ar eich fferm yn fwy na'r terfyn o 170 kg/ha – nid ydych yn cydymffurfio â'r Rheoliadau.

Er mwyn cydymffurfio bydd angen ichi ystyried dewisiadau megis:

- Ar gyfer moch a *dofednod* a gedwir dan do drwy'r amser, cewch ddefnyddio'r ffigurau cynhyrchu nitrogen a gynhyrchir gan feddalwedd a gymeradwyir gan Lywodraeth Cymru.
- Yn achos *da byw* sy'n cynhyrchu tail solet yn unig, gallwch ddefnyddio ffigurau sy'n deillio o waith samplu a dadansoddi yn unol ag **Atodiad 3 y Canllawiau** yma
- Cadw llai o *dda byw*.
- Cynyddu cyfanswm y tail a allgludir o'r fferm.
- Lleihau cyfanswm y tail a fewngludir i'r fferm.
- Cynyddu arwynebedd tir y fferm.

Rhan 3 - Cynllunio *taenu gwrtaith nitrogen* (gan gynnwys *gwrtaith a weithgynhyrchwyd, slyri a mathau eraill o dail organig*)

Gofyniad ar gyfer cynlluniau, cyfrifiadau a chofnodion

Beth	Pryd
<p>Os ydych yn bwriadu <i>taenu gwrtaith nitrogen</i>, rhaid i chi:</p> <p>a) cyfrifo faint o nitrogen yn y pridd sy'n debygol o fod ar gael i'r cnwd ei amsugno yn ystod y tymor tyfu ("Cyflenwad Nitrogen yn y Pridd");</p> <p>b) cyfrifo'r swm optimaidd o nitrogen y dylid ei <i>daenu</i> ar y cnwd, gan ystyried faint o nitrogen sydd ar gael o'r Cyflenwad Nitrogen yn y Pridd; a</p> <p>c) cynhyrchu "cynllun" (gweler isod) ar gyfer taenu <i>gwrtaith</i> nitrogen ar gyfer y tymor tyfu hwnnw</p>	<ul style="list-style-type: none"> ▪ Glaswelltir Parhaol - bob blwyddyn yn dechrau ar 1 Ionawr cyn <i>taenu gwrtaith nitrogen</i> am y tro cyntaf ▪ Pob cnwd heblaw <i>glaswelltir parhaol</i> - cyn <i>taenu</i> unrhyw wrtaith nitrogen am y tro cyntaf er mwyn ffrwythloni cnwd a blannwyd neu y bwriedir ei blannu.
<p>Rhaid i'r "cynllun" fod ar ffurf barhaol a rhaid iddo gofnodi:</p> <p>a) cyfeirnod neu enw'r cae perthnasol;</p> <p>b) "arwynebedd y cae a blannwyd neu y bwriedir ei blannu" (gweler isod);a</p> <p>c) y math o gnwd</p>	<ul style="list-style-type: none"> ▪ Glaswelltir Parhaol - bob blwyddyn yn dechrau ar 1 Ionawr cyn <i>taenu gwrtaith nitrogen</i> am y tro cyntaf ▪ Pob cnwd heblaw <i>glaswelltir parhaol</i> - cyn <i>taenu</i> unrhyw wrtaith nitrogen am y tro cyntaf, at y diben o wrteithio cnwd a blannwyd neu y bwriedir ei blannu.
<p>Ar gyfer "arwynebedd y cae a blannwyd neu y bwriedir ei blannu" rhaid i'r cynllun gofnodi:</p> <p>a) y math o bridd;</p> <p>b) y cnwd blaenorol (os <i>porfa</i>, ai torri neu bori oedd dull rheoli'r cnwd);</p> <p>c) Cyflenwad Nitrogen yn y Pridd a'r dull a ddefnyddiwyd i gyrraedd y ffigur hwnnw;</p> <p>d) y mis y disgwylir plannu'r cnwd;</p> <p>e) os yw'n dir âr, y cynnyrch a ragwelir; a</p> <p>f) y cyfanswm optimaidd o nitrogen y dylid ei <i>daenu</i> ar y cnwd gan ystyried faint o nitrogen sydd ar gael o'r Cyflenwad Nitrogen yn y Pridd</p>	<ul style="list-style-type: none"> ▪ Glaswelltir parhaol - bob blwyddyn yn dechrau ar 1 Ionawr cyn <i>taenu gwrtaith nitrogen</i> am y tro cyntaf ▪ Pob cnwd heblaw <i>glaswelltir parhaol</i> - cyn <i>taenu</i> unrhyw wrtaith nitrogen am y tro cyntaf er mwyn ffrwythloni cnwd a blannwyd neu y bwriedir ei blannu.

<p>Cyn <i>taenu tail organig</i>, rhaid i chi gyfrifo faint o nitrogen o'r tail sy'n debygol o fod ar gael i'w amsugno gan gnydau yn y tymor tyfu y <i>taenir</i> y tail, drwy gofnodi:</p> <p>a) yr arwynebedd y <i>taenir</i> y <i>tail organig</i> arno;</p> <p>b) cyfanswm y <i>tail organig</i> a <i>daenir</i>;</p> <p>c) y dyddiad (mis) y bwriedir ei <i>daenu</i>;</p> <p>d) y math o <i>dail organig</i>;</p> <p>e) cyfanswm cynnwys nitrogen y <i>tail organig</i>; a</p> <p>f) cyfanswm y nitrogen yn y tail y bwriedir ei <i>daenu</i> sy'n debygol o fod ar gael i'w amsugno gan gnydau yn y tymor tyfu y <i>taenir</i> y tail</p>	<p>ar bob achlysur cyn <i>taenu tail organig</i></p>
<p>Cyn <i>taenu gwrrtaith nitrogen</i> rhaid i chi gofnodi:</p> <p>a) y cyfanswm sy'n ofynnol⁸; a</p> <p>b) y dyddiad (mis) y bwriedir ei <i>daenu</i></p>	<p>ar bob achlysur cyn <i>taenu gwrrtaith nitrogen</i></p>
<p>Rhaid i chi gadw cofnod hefyd o'r hyn sy'n digwydd mewn gwirionedd, fel a ganlyn:</p> <p>Mewn perthynas â chnydau:</p> <p>a) y cnwd a heuir; a</p> <p>b) dyddiad yr hau</p> <p>Mewn perthynas â <i>thaenu tail organig</i>⁹:</p> <p>a) yr arwynebedd y <i>taenir tail organig</i> arno;</p> <p>b) cyfanswm y <i>tail organig</i> a <i>daenir</i>;</p> <p>c) y dyddiad(au);</p> <p>d) y dulliau <i>taenu</i>;</p> <p>e) y math o <i>dail organig</i>;</p>	<ul style="list-style-type: none"> ▪ o fewn wythnos i hau cnwd ▪ o fewn wythnos i <i>daenu</i>

⁸ Mae hyn yn cyfateb i h.y. y cyfanswm optimaidd o nitrogen sydd ei angen ar y cnwd (gan ystyried y **Cyflenwad Nitrogen yn y Pridd**) llai y cyfanswm o nitrogen a fydd ar gael i'w amsugno gan gnydau o *unrhyw dail organig a daenir*

⁹ Nid yw'r gofynion hyn yn berthnasol os yw 80% o *arwynebedd amaethyddol* eich daliad wedi'i hau â *glaswellt* mewn unrhyw flwyddyn galendr:

- a) nid yw cyfanswm y nitrogen mewn *tail organig* a daenir ar y daliad, boed yn uniongyrchol gan anifail neu o ganlyniad i *daenu* yn fwy na 100 kg / ha
- b) nid yw cyfanswm y nitrogen mewn nitrogen a weithgynhyrchwyd a daenir ar y daliad yn fwy na 90 kg/ha
- c) nad ydych yn dod ag unrhyw *dail organig* i'r daliad

<p>f) cyfanswm y nitrogen sydd ynddo; a g) cyfanswm y nitrogen a oedd ar gael i'r cnwd</p> <p>Mewn perthynas â <i>taenu</i> gwrtaitth a weithgynhyrchwyd:</p> <p>a) dyddiad y <i>taenu</i>; a b) cyfanswm y nitrogen a <i>daenir</i></p>	<ul style="list-style-type: none"> ▪ o fewn wythnos i <i>daenu</i>
<p>Os ydych wedi defnyddio <i>gwrtaitth nitrogen</i>, rhaid i chi gofnodi'r cynnyrch a geir o gnwd â'r.</p>	<p>o fewn wythnos ar ôl gwybod y cynnyrch</p>
<p>Rhaid i chi gofnodi sut yr oedd unrhyw <i>laswelltir</i> yn cael ei reoli yn ystod y flwyddyn galendr flaenorol.</p>	<p>cyn 30 Ebrill bob blwyddyn</p>

C 3.1 A ydych chi'n bwriadu *taenu gwrtaitth nitrogen* (mae hyn yn cynnwys *slyri* a *thail organig*) ar eich *daliad*?

YDW / NAC YDW

Os "NAC YDW" ewch ymlaen i baragraff olaf y **Rhan** hon, sydd â'r pennawd **Gofynion Cadw Cofnodion**

Os "YDW", **cwblhewch Tabl 3.1**. Mae cyfarwyddyd yn y blychau o dan y tabl.

C 3.2 A ydych chi'n bwriadu *taenu tail organig* yn ystod y tymor tyfu nesaf?

YDW / NAC YDW

Os "NAC YDW", ewch ymlaen i **C 3.3**

Os "YDW", cwblhewch **Tabl 3.2 (defnyddiwch linell ar wahân ar gyfer pob ychwanegiad)**

Mae amrywiaeth o ffynonellau gwybodaeth i'ch helpu i asesu'r nitrogen sydd ar gael i gnydau mewn *tail organig*. Mae'r rhain yn cynnwys cynghorwyr cymwysedig FACTS, meddalwedd PLANET a'r Llawlyfr Gwrteithiau - "RB209". Gweler **Atodiad 8** am fanylion cyswllt

Tabl 3.2 - Cynllun ar gyfer y nitrogen sydd ar gael o dail organig

Col 1	Col 2	Col 3	Col 4	Col 5	Col 6
Enw neu rif y cae	Arwynebedd y <i>taenir tail organig</i> arno (ha)	<i>Tail organig a fydd yn cael ei daenu</i>			Cyfanswm y nitrogen sydd ar gael i'r cnwd yn y tymor tyfu
		Math	Dyddiad(au) <i>taenu</i>	Cyfanswm (t)	

Colofn 1 - rhowch enw, rhif neu gyfeirnod y cae. Dylid cynnwys pob cae y *taenir tail organig* arno yn y golofn hon.

Colofn 2 - nodwch arwynebedd y cae a fydd yn cael *tail organig*, ond gan ystyried yr arwynebedd lle ni thaenir tail - gweler y **Map Risg yn Rhan 5**.

Colofn 3 - nodwch y math(au) o *dail organig* a *daenir* (cewch ddefnyddio'r categorïau a restrir yn **Nhabl 4.2**).

Colofn 4 - nodwch y dyddiad(au) y bwriedir *taenu*.

Colofn 5 - nodwch faint rydych yn bwriadu ei *daenu*.

Colofn 6 - nodwch gyfanswm y nitrogen sydd ar gael i'r cnwd a fydd yn cael ei *daenu*. Bydd angen cyfrifo'r ffigur hwn ar wahân (dylech gynnwys cyfrifiadau ar ddalen ar wahân).

C 3.3 A ydych chi'n bwriadu *taenu* gwrtait a weithgynhyrchwyd yn ystod y tymor tyfu nesaf?
YDW / NAC YDW

Os "NAC YDW" ewch ymlaen i baragraff olaf y **Rhan** hon, sydd â'r pennawd **Gofynion Cadw Cofnodion**

Os "YDW", cwblhewch **Tabl 3.3**. Mae canllawiau yn y blychau o dan y tabl.

Gofynion Cadw Cofnodion

Ar ôl i chi *daenu gwrtaith nitrogen*, mae'n ofynnol i chi gadw cofnodion. Gallwch wneud hyn drwy lenwi **Tabl 3.4**. Fel arall, mae dulliau eraill ar gael i'ch helpu gyda gofynion cadw cofnodion, gweler y ddogfen **Cwestiynau Cyffredin** sy'n cyd-fynd â'r **Canllawiau yma** am fanylion.

Bydd cynlluniau, cyfrifiadau a chofnodion o'r Rhan hon hefyd yn eich galluogi i weld a ydych yn cydymffurfio â'r rheol Rheoleiddio sy'n nodi:

Dylech sicrhau mewn unrhyw gyfnod o 12 mis¹⁰ nad yw cyfanswm y nitrogen mewn *tail organig* a *daenir* ar unrhyw hectar penodol ar y *daliad* yn fwy na 250kg.

Nodwch mai dim ond yr arwynebedd taenadwy (ac nid yr arwynebedd cyfan o reidrwydd) sy'n cyfrif tuag at y terfyn ar gyfer pob cae. Nodir arwynebedd taenadwy yn **Rhan 5** o'r **Atodiad** hwn.

¹⁰ mae cyfnod treigl o 12 mis yn gymwys

Rhan 4 - Y terfyn “Nmax”

C 4.1 Rhaid i'r cyfraddau defnyddio nitrogen (o wrtaith nitrogen a weithgynhyrchir a thail organig¹²) a nodir yn **Rhan 3**, ar gyfer cyfanswm arwynebedd pob math o gnwd a dyfir ar y daliad, fod yn llai na'r terfynau (gan ystyried addasiadau a ganiateir lle bo angen) a nodir yn **Tabl 4.1**. Os cyflenwir rhan neu'r cyfan o'r nitrogen sydd ar gael gan *dail organig*, yna rhaid tybio bod cyfanswm y nitrogen fel y nodir yn **Nhabl 4.2**, gyda'r ganran o nitrogen sydd ar gael fel y nodir yn **Nhabl 4.3**

YDW / NAC YDW

Os “YDW”, gallwch fynd ymlaen i **Ran 5**

Os “NAC YDW”, fe'ch cynghorir i lenwi **Cyfrifiad 4** isod.

Tabl 4.1 - Y terfynau “Nmax”

Cnwd	Cyfanswm y nitrogen a ganiateir (kg/ha) ^a	Nodiadau	Cynnyrch safonol (t/ha)
Asbaragws	150		amherthnasol
Gwenith a heuir yn yr hydref neu ddechrau'r gaeaf	220	b, c, d	8.0
Betys	350		amherthnasol
Ysgewyll Brwsel	350		amherthnasol
Bresych	350		amherthnasol
Calabrese	350		amherthnasol
Blodfresych	350		amherthnasol
Moron	150		amherthnasol
Seleri	250		amherthnasol
Courgettes	250		amherthnasol
Corffa	250		amherthnasol

12 Yn hytrach na defnyddio'r ffigurau yn **Nhabl 4.2**, gallwch ddefnyddio canlyniadau samplu a dadansoddi cyn belled â bod hyn yn cael ei wneud yn unol ag **Atodiad 3 y Canllawiau yma**

Ffa maes	0		amherthnasol
Indrawn porthiant	150		amherthnasol
<i>Porfa</i>	300	f	amherthnasol
Cennin	350		amherthnasol
Letys	250		amherthnasol
Winwns/Nionod	250		amherthnasol
Pannas	250		amherthnasol
Pys	0		amherthnasol
Tatws	270		amherthnasol
Radis	150		amherthnasol
Ffa dringo	250		amherthnasol
Gwenith a heuir yn y gwanwyn	180	c, d	7.0
Haidd gwanwyn	150	c	5.5
Betys siwgr	120		amherthnasol
Erfin	150		amherthnasol
India corn	250		amherthnasol
Maip	250		amherthnasol
Haidd gaeaf	180	b, c	6.5
Rêp had olew y gaeaf	250	e	3.5

Nodiadau Tabl 4.1

- caniateir 80 kg/ha ychwanegol ar gyfer pob cnwd a dyfir mewn caeau os rhoddwyd gwellt neu slwtsh papur ar y cnwd presennol neu'r cnwd blaenorol
- caniateir 20 kg/ha ychwanegol ar bob cae sydd â *phridd tenau* (ac eithrio *priddoedd tenau* ar dywodfaen)
- caniateir 20 kg/ha ychwanegol am bob tunnell y mae'r cynnyrch disgwylidig yn fwy na'r cynnyrch safonol
- caniateir 40 kg/ha ychwanegol ar gyfer mathau o wenith melino
- mae hyn yn cynnwys unrhyw nitrogen sy'n cael ei ychwanegu a ddefnyddir fel eithriad o'r cyfnod gwaharddedig ar gyfer *gwrtaitn nitrogen a weithgynhyrchwyd*.

Gellir cynyddu'r cyfanswm a ganiateir hyd at 30 kg/ha am bob ½ tunnelli y mae'r cynnyrch disgwylidig yn fwy na'r cynnyrch safonol

- f) caniateir 40 kg/ha ychwanegol ar gyfer *porfa* sy'n cael ei dorri o leiaf dair gwaith y flwyddyn.

Tabl 4.2 - Cyfanswm cynnwys nitrogen tail *da byw*

Tail heblaw <i>slyri</i>	Cyfanswm y nitrogen ym mhob tunnelli (kg)
Tail heblaw <i>slyri</i> o:	
Wartheg	6.0
Moch	7.0
Defaid	7.0
Hwyaid	6.5
Ceffylau	7.0
Tail o ieir dodwy	19.0
Tail o dyrchw neu ieir bwyta/brwyliaid	30.0
<i>Slyri</i>	Cyfanswm y nitrogen ym mhob m³ (kg)
Gwartheg	2.6
Moch	3.6
<i>Slyri</i> gwartheg a wahanwyd (ffracsiwn hylifol) Blwch hidlo Wal hidlo Hidl fecanyddol	Blwch hidlo 1.5 Wal hidlo 2.0 Hidl fecanyddol 3.0
<i>Slyri</i> gwartheg a wahanwyd (ffracsiwn solet)	4.0
<i>Slyri</i> moch a wahanwyd (ffracsiwn hylifol)	3.6
<i>Slyri</i> moch a wahanwyd (ffracsiwn solet)	5.0
Dŵr sydd ychydig yn fudr	0.5

Tabl 4.3 - Canran cyfanswm cynnwys nitrogen tail *da byw* sydd ar gael i gnwd / gnydau ei amsugno

Math o dail <i>da byw</i>	Cyfanswm y nitrogen sydd ar gael i'w amsugno gan gnydau yn y tymor tyfu y caiff ei <i>daenu</i>

	Tan 31 Rhagfyr	O 1 Ionawr
<i>Slyri gwartheg</i>	35%	40%
<i>Slyri moch</i>	45%	50%
<i>Tail dofednod</i>	30%	30%
<i>Tail da byw eraill</i>	10%	10%

Cyfanswm y nitrogen a ganiateir ar gyfer cnwd	4A							Cyfanswm y nitrogen a gynlluniwyd ar gyfer y cnwd	4B	

Colofn 1 - nodwch enw, rhif neu gyfeirnod pob cae lle tyfir y cnwd penodedig.

Colofn 2 - nodwch arwynebedd y cae sydd dan gnwd mewn hectarau.

Colofn 3 - nodwch y gyfradd Nmax (mewn kg/ha) ar gyfer y cnwd fel y'i nodir yn **Nhabl 4.1** (wedi'i addasu os caniateir hyn yn nodiadau'r Tabl).

Colofn 4 - nodwch gyfanswm yr Nmax ar gyfer yr arwynebedd sydd dan gnwd yn y cae drwy luosi'r ffigurau yng **Ngholofn 2** a **Cholofn 3**. **Mae colofnau 5 i 9 yn cyfeirio at nitrogen o dail da byw.**

Colofn 5 - os defnyddir tail *da byw*, nodwch y math o'r rhestr yn **Nhabl 4.2**. Defnyddiwch linellau ar wahân os yw gwahanol fathau yn cael eu hychwanegu at yr un arwynebedd bob blwyddyn.

Colofn 6 - nodwch y cyfanswm sydd i'w ychwanegu at yr arwynebedd dan gnwd yn y cae.

Colofn 7 - nodwch gyfanswm cynnwys nitrogen (kg/t) y tail *da byw* fel y'i nodir yn **Nhabl 4.2**.

Colofn 8 - nodwch ganran y nitrogen sydd ar gael i'w amsugno gan y cnwd fel y'i nodir yn **Nhabl 4.3**.

Colofn 9 - nodwch faint o nitrogen sydd ar gael o dail *da byw drwy* luosi'r ffigurau yng **Ngholofnau 6, 7 ac 8** a'u rhannu â 100. **Colofn 10** - nodwch gyfanswm y nitrogen rydych yn cynllunio ei ychwanegu fel gwrtaith a weithgynhyrchwyd - dylai'r ffigur hwn gytuno â **Cholofn 6 Tabl 3.3**.

Colofn 11 - nodwch gyfanswm y nitrogen sydd ar gael a fydd yn cael ei ychwanegu at y cnwd yn y cae hwnnw drwy adio'r ffigurau yng **Ngholofnau 9 a 10**.

Blwch 4A - nodwch gyfanswm y nitrogen a ganiateir ar gyfer y cnwd drwy adio'r ffigurau yng **Ngholofn 4**.

Blwch 4B - nodwch gyfanswm y nitrogen a fwriedir ar gyfer y cnwd drwy adio'r ffigurau yng **Ngholofn 11**.

Rhan 5 - Rheoli *taenu gwrteithiau nitrogen* (yn cynnwys *gwrtaith a weithgynhyrchwyd, slyri a mathau eraill o dail organig*)

Os cwblhewch fap risg at unrhyw bwrpas arall gallwch ei ddefnyddio fel tystiolaeth ar yr amod ei fod yn cwrdd â'r meini prawf hanfodol isod.

Y gofynion ar gyfer cynlluniau, cyfrifiadau a chofnodion

Beth	Pryd
Os ydych yn <i>taenu tail organig</i> ar eich <i>daliad</i> , rhaid i chi gadw map o'r <i>daliad</i> ("map risg") (a chadw copi ohono)	Rhaid diweddarau unrhyw newidiadau ar y map risg o fewn tri mis
<p>Rhaid i'r "map risg" ddangos:</p> <p>a) pob cae, gyda'i arwynebedd mewn hectarau</p> <p>b) pob ddŵr wyneb</p> <p>c) unrhyw dyllau turio, ffynhonnau neu bydewau ar y <i>daliad</i> neu o fewn 50 metr i ffin y <i>daliad</i></p> <p>d) ardaloedd â <i>phridd tywodlyd</i> neu <i>bridd tenau</i></p> <p>e) tir sydd ar oleddf o fwy na 12° (yn gyfatebol i "20%" neu "1 mewn 5")</p> <p>f) tir o fewn 10 metr i ddŵr wyneb</p> <p>g) tir o fewn 50 metr i dwll turio, ffynnon neu bydew</p> <p>h) draeniau tir (ac eithrio pibellau anhydraidd sydd wedi'u selio)</p> <p>i) safleoedd sy'n addas ar gyfer <i>tomenni dros dro mewn caeau</i>, os oes bwriad i ddefnyddio'r dull hwn o storio tail, gweler Rhan 1</p> <p>j) <i>tir y mae'r risg o oferu drosto yn isel</i> os yw tir o'r fath i'w ddefnyddio wrth gyfrifo gofynion storio <i>slyri</i> gweler Rhan 1</p>	Rhaid diweddarau unrhyw newidiadau ar y map risg o fewn tri mis
Os ydych yn <i>taenu tail organig</i> o fewn 6 i 10 metr i ddŵr wyneb (fel y caniateir o dan reolau Rheoli <i>taenu gwrtaith nitrogen</i> , rhaid i'r map risg nodi'r tir	Rhaid diweddarau unrhyw newidiadau ar y map risg o fewn tri mis

perthnasol	
------------	--

Bydd angen i chi baratoi “map risg” o’ch *daliad* fel yr amlinellir isod:

Cam 1 – Y daliad byddwch angen map (mae graddfeydd 1:2,500, 1:5,000 neu 1:10,000 yn addas) o’ch *daliad* sy’n dangos:

- pob cae a phob cwrs dŵr (gan gynnwys ffosydd)
- arwynebedd pob cae mewn hectarau
- unrhyw dyllau turio, ffynhonnau neu bydewau (gan gynnwys rhai ar dir cyfagos o fewn 50m i’ch ffin chi)

Cam 2 – Nodi cyrsiau dŵr marciwch mewn lliw coch yr ardaloedd lle mae’r Rheoliadau’n gwahardd *taenu tail organig*:

- o fewn 10 metr i’r naill ochr o unrhyw gwrs dŵr (gan gynnwys ffosydd). Os ydych chi’n bwriadu *taenu tail organig* gan ddefnyddio *cyfarpar taenu manwl* 6 i 10 metr o gwrs dŵr, dylech groeslinellu’r parth hwn dros yr ardaloedd sydd wedi’u lliwio’n goch
- o fewn 50 metr i unrhyw ffynnon, pistyll neu dwll turio

Cam 3 - Nodi mathau o dir - Hanfodol – marciwch mewn lliw oren ardaloedd lle mae’r Rheoliadau’n ei gwneud yn ofynnol ichi asesu’r risgiau sy’n gysylltiedig â *lledaenu tail organig* (gweler Rhan 1):

- ardaloedd â phriddoedd *tywodlyd* neu *fas*;
- tir â llethr o fwy na 12 ° (sy’n cyfateb i “20%” neu “1 mewn 5”);
- ardaloedd â draeniau tir (heblaw pibellau anhydraidd wedi’u selio);

Marciwch gan defnyddio lliwiau o’ch dewis y nodweddion canolynol fel sy’n ofynnol gan y rheoliadau.

- safleoedd sy’n addas ar gyfer tomenni caeau dros dro, os yw’r dull hwn o storio tail i’w ddefnyddio (gweler **Rhan 1**); a
- *tir sydd â risg dŵr ffo isel* os yw tir o’r fath i gael ei ddefnyddio wrth gyfrifo gofynion *storio slyri* (gweler **Rhan 1**).

Cam 4 - Nodi nodweddion eraill - Dewisol: Gallwch farcio hefyd mewn lliw coch yr ardaloedd eraill lle na fyddai **byth** yn briodol *taenu tail organig*:

- unrhyw ardaloedd lle na chaniateir i chi *daenu* am resymau megis cytundeb

tenantiaeth, hysbysiad atal oherwydd yr arogl, neu ddynodiad (e.e. Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig);

- ardaloedd yn y categori “cynefin bywyd gwylt” o dan gytundeb amaeth-amgylcheddol (e.e. Glastir), ynghyd ag unrhyw ardaloedd eraill lle mae cytundeb yn gwahardd *taenu* (e.e. tir ag ychydig iawn o fewnbynau);
- ardaloedd lle mae’r wyneb yn greigiog neu’n anwastad fel na ellir defnyddio offer yn effeithiol nac yn ddiogel; a
- chaeau neu rannau o gaeau sydd yn ystod y 12 mis diwethaf wedi’u draenio â phibellau, eu twrch-ddraenio neu sydd â’u hisbridd uwchben draeniau.

Amlinellwch ffiniau ardaloedd eraill lle na fydech fel arfer yn *taenu* a gadewch yr ardaloedd hyn yn wyn:

- ardaloedd sy’n atodol i ffermio (e.e. adeiladau, llwybrau, ffyrdd);
- ardaloedd o goetir neu berllannau; ac
- ardaloedd sy’n anaddas oherwydd eu lleoliad (e.e. yn rhy bell o’r fferm) ac nad ydynt fel arfer yn cael eu defnyddio am resymau gweithredol, ond y gellid eu defnyddio rywbryd yn y dyfodol.

Cam 5 - Nodweddion o'ch Cynllun Rheoli Maetholion – Dewisol - gallwch gwblhau eich map risg drwy gynnwys ardaloedd “risg uchel iawn” (oren) ac “risg uchel” (melyn) sydd wedi’u cynnwys yn gyffredinol mewn cynlluniau rheoli maetholion. Dim ond o dan amodau penodol neu lle y dylid cyfyngu ar gyfraddau y gellir *taenu* yn yr ardaloedd hyn. Bydd rhai rhannau o’r fferm yn anaddas ar gyfer *taenu* ar adegau penodol o’r flwyddyn, yn enwedig yn y gaeaf. Gallai’r rhain amrywio o flwyddyn i flwyddyn, **ond rhaid i chi gadw mewn cof y “cyfnodau gwaharddedig” Rheoleiddiol pan na chaniateir ychwanegu unrhyw fath o *dail organig* â mwy na 30% o gyfanswm y nitrogen sydd ar gael e.e. gellir defnyddio *slyri* ar unrhyw dir.**

Rhan 6 - Mewngludo neu allgludo tail *da byw*

Gofynion ar gyfer cynlluniau, cyfrifiadau a chofnodion

Beth	Pryd
Os byddwch yn dod â thail <i>da byw</i> ar ddaliad, rhaid i chi gofnodi:	o fewn wythnos
a) y math a’r cyfanswm o dail <i>da byw</i>	
b) y dyddiad rydych chi’n dod â’r tail i’r <i>daliad</i>	
c) cynnwys nitrogen y tail; ac, os ydych yn eu	

gwybod d) enw a chyfeiriad y cyflenwr	
Os byddwch yn anfon tail <i>da byw</i> oddi ar <i>ddaliad</i> , rhaid i chi gofnodi: a) y math a'r cyfanswm o dail <i>da byw</i> b) y dyddiad y caiff ei anfon oddi ar y <i>daliad</i> c) cynnwys nitrogen y tail d) enw a chyfeiriad y derbynnydd e) manylion cynllun wrth gefn i'w ddefnyddio os bydd cytundeb i berson dderbyn y tail <i>da byw</i> yn methu	o fewn wythnos
Os nad ydych yn gwybod cynnwys nitrogen y tail <i>da byw</i> sy'n cael ei gludo i <i>ddaliad</i> , rhaid i chi ei ganfod.	cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol, a'i gofnodi o fewn wythnos
Rhaid canfod pob cynnwys nitrogen naill ai drwy ddefnyddio ffigurau safonol (gweler Rhan 2) neu drwy samplu a dadansoddi fel y nodir yn Atodiad 3 y Canllawiau yma .	

Os byddwch yn mewnforio **tail da byw** i *ddaliad* neu'n ei allgludo oddi arno, rhowch y cofnodion gofynnol yn y blwch isod.

ATODIAD 3

Samplu a Dadansoddi *Tail Organig*

Slyri a mathau eraill o dail organig hylifol a lled-hylifol

1. Rhaid cymryd o leiaf bum sampl, pob un ohonynt yn 2 litr.
2. Yn amodol ar bwynt 3. isod, rhaid cymryd y pum sampl o gyr, a
 - a) os yw'n rhesymol ymarferol, rhaid i'r slyri fod wedi'i gymysgu'n drylwyr cyn i'r samplau gael eu cymryd, a
 - b) rhaid cymryd pob sampl o leoliad gwahanol.
3. Ond os oes falf addas wedi'i gosod ar dancer sy'n cael ei ddefnyddio ar gyfer *taenu*, gellir cymryd y samplau wrth daenu, a rhaid cymryd pob sampl bob hyn a hyn yn ystod y broses *daenu*.
4. Rhaid i'r samplau (sut bynnag y'u cesglir) gael eu harllwys i gynhwysydd mwy, cael eu troi'n drylwyr a rhaid cymryd sampl 2 litr o'r cynhwysydd hwnnw a'i arllwys i gynhwysydd glân llai.
5. Yna, rhaid anfon y sampl 2 litr i'w dadansoddi.

Tail solet

1. Rhaid cymryd y samplau o domen tail.
2. Rhaid cymryd o leiaf ddeg sampl o 1kg yr un - pob un o leoliad gwahanol mewn tomen.
3. Rhaid cymryd pob is-sampl o leiaf 0.5 metr o wyneb y domen.
4. Os cesglir samplau i gyfrifo cydymffurfiaeth â therfyn y fferm gyfan ar gyfer moch a *dofednod*, rhaid cymryd pedwar sampl i'w dadansoddi mewn blwyddyn galendr (un ym mhob chwarter) o domenni tail nad ydynt yn fwy na 12 mis oed.
5. Rhaid rhoi'r is-samplau ar hambwrdd neu ddalen lân a sych.
6. Rhaid torri unrhyw dalpiâu a rhaid cymysgu'r is-samplau gyda'i gilydd yn drylwyr.
7. Yna, rhaid anfon sampl gynrychioliadol sy'n pwysu 2kg o leiaf i gael ei dadansoddi.

Os ydych yn defnyddio samplu a dadansoddi i bennu'r cynnwys nitrogen mewn *tail organig*, rhaid i chi gadw adroddiad gwreiddiol y labordy.

Gofynion Cyffredinol ar gyfer Storio *Slyri a Silwair*

Rhaid i osodweithiau fodloni'r gofynion canlynol:

Oes Parhad

1. O dan y Rheoliadau rhaid adeiladu pob gosodwaith ag oes parhad o 20 mlynedd o leiaf Mae hyn yn golygu bod disgwyl i'r gosodwaith bara - gyda gwaith cynnal a chadw priodol - 20 mlynedd heb achosi, na bygwth achosi, llygredd, a pharhau i gydymffurfio â gofynion yr atodlen berthnasol i'r Rheoliadau. Os yw unrhyw ran o danc elifiant silwair o dan y ddaear, disgwylir i'r tanc gydymffurfio â gofynion paragraffau 4 a 5 o atodlen 1 am 20 mlynedd heb waith cynnal a chadw. Mae gan CNC ffurflen i'ch helpu i ddarparu'r wybodaeth hon (gweler **Atodiad 6** am fanylion cyswllt).

Cynnal a chadw

2. Pan fyddant yn cael eu defnyddio, rhaid i osodweithiau bob amser fodloni'r safonau perfformiad a nodir yn yr Atodlenni i'r Rheoliadau (gweler **Atodiad 5** - Atodlenni o'r Rheoliadau). Er enghraifft, rhaid bodloni gofyniad am sylfaen anhydraidd ar gyfer pob gosodwaith sy'n ddarostyngedig i'r Rheoliadau. Bydd archwilio'ch gosodweithiau'n aml yn helpu i sicrhau bod diffygion posibl yn cael eu canfod ac y gellir eu cywiro cyn iddynt allu achosi problemau.

Parthau Diogelwch

3. Ni ddylid adeiladu gosodweithiau, na gwneud silwair, na storio silwair, elifiant, a *slyri*, o fewn **10 metr** i unrhyw ddyfroedd croyw mewndirol neu ddyfroedd arfordirol y gallai unrhyw beth ollwng iddynt. (Mae hyn yn cynnwys afonydd, llynnoedd, cronfeydd dŵr a chyrsiau dŵr llai fel nentydd a ffosydd yn ogystal â phibelli draenio mandyllog). Pellterau **lleiaf** yw'r rhain a dylid eu cynyddu mewn lleoliadau sensitif, er enghraifft ger mewnlifoedd cyflenwad dŵr. Gall CNC eich cyngori yn hyn o beth.
4. Mae gan wahanol ddulliau o wneud silwair ofynion ychydig yn wahanol o ran parthau diogelwch. (Gweler **Atodiad 5**)
5. Caniateir draeniau anhydraidd a phibellau wedi'u selio (gan gynnwys pibellau wedi'u selio sy'n cludo *slyri*) o fewn 10 metr i ddyfroedd mewndirol neu arfordirol. Er bod defnyddio pibellau draenio mandyllog o fewn 10 metr

i unrhyw storfa *slyri* neu bydew derbyn (i symud dŵr wyneb eithriadol o uchel i ffwrdd) yn groes i'r Rheoliadau, **gellir** caniatáu hyn ar sail achos unigol, yn amodol ar ganiatâd CNC.

6. Mae'r *Cod Ymarfer Amaethyddol Da ar gyfer Diogelu Dŵr, Pridd ac Aer Cymru (CoGAP)*, a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru, yn rhoi cyfarwyddyd pellach ar adeiladau a strwythurau ar ffermydd a allai achosi llygredd dŵr, aer neu bridd o sylweddau nad ydynt yn cael eu rheoli gan y Rheoliadau hyn. Mae'n cynnwys cyngor hefyd ar drin a rheoli solidau a hylifau yng nghyffiniau buarth y fferm i osgoi llygredd, a sut i ddelio ag elifiannau sy'n ymddangos. Mae Adroddiad Cymdeithas Ymchwil a Gwybodaeth y Diwydiant Adeiladu (CIRIA) C759 "*Livestock manure and silage storage infrastructure for agriculture*" yn rhoi cyfarwyddyd technegol ar sut y gellir bodloni'r gofynion hyn ar gyfer gwahanol sylweddau sy'n llygru.

Sut mae'r Rheoliadau hyn yn berthnasol i storfeydd presennol, a beth yw 'Strwythurau Eithriedig'?

7. Mae'r Rheoliadau'n berthnasol i bob gosodwaith a ddefnyddiwyd, a adeiladwyd, a ailadeiladwyd yn sylweddol, neu a helaethwyd yn sylweddol ar ôl Medi 1991.

Mae gosodweithiau a oedd yn cael eu defnyddio neu a adeiladwyd cyn Mawrth 1991 neu lle y gwnaed contract i'w hadeiladu cyn mis Mawrth ac a gwblhawyd cyn Medi 1991 yn "strwythurau eithriedig" ac fel rheol gellir eu defnyddio yn amodol ar ddau gyfyngiad:

- gall CNC ei gwneud yn ofynnol i strwythurau "eithriedig" gael eu gwella i'w codi i'r safonau a bennir yn y Rheoliadau drwy gyflwyno Hysbysiad o dan reoliad 30 yn manylu ar y gwelliannau gofynnol a'r cyfnod amser ar gyfer cydymffurfio; a
- pan fydd gosodwaith a fu gynt yn "eithriedig", (neu unrhyw osodwaith arall), wedi cael (neu yn cael) ei ymestyn neu ei ailadeiladu'n sylweddol, neu fod gwaith o'r fath ar y gweill, bydd y Rheoliadau'n berthnasol i'r strwythur hwnnw, a byddant yn berthnasol i'r gosodwaith **cyfan** ac nid dim ond y rhan sydd newydd gael ei hymestyn neu ei hailadeiladu. Er enghraifft, byddai gwaith ailgyfarparu mawr ar storfa "eithriedig" yn dod â'r storfa a'i draeniau a'i thanciau cysylltiedig y tu mewn i gwmpas y Rheoliadau, ond ni fyddai atgyweiriadau neu fân newidiadau i bydew derbyn neu sianelau o reidrwydd yn achosi i danc storio *slyri* golli ei eithriad. Bydd "ailadeiladu'n sylweddol" yn aml yn golygu bod angen

newidiadau strwythurol sylweddol.

Dim ond i ofynion adeiladu storfa cyn 1991 y mae'r eithriad hwn yn berthnasol. Gellir defnyddio storfa cyn 1991 ond rhaid bodloni gofynion gofod storio'r Rheoliadau hyn o hyd.

8. Cyn dechrau gwaith i ymestyn neu ailadeiladu strwythur, fe'ch cynghorir yn gryf i drafod eich cynlluniau gyda CNC. Cofiwch fod yn rhaid i chi hysbysu CNC cyn dechrau adeiladu gosodwaith newydd, un sydd wedi'i newid yn sylweddol neu ei ailadeiladu.

Beth fydd yn digwydd os yw CNC yn credu bod perygl o lygredd?

9. Mae gan CNC bwerau i gyflwyno hysbysiad i chi sy'n ei gwneud yn ofynnol i chi gymryd camau i wella gosodweithiau presennol lle mae CNC o'r farn bod risg sylweddol o lygredd i 'ddyfroedd rheoledig'. (Gall hyn gynnwys safleoedd *silwair* mewn cae a gosodweithiau sydd fel arall yn "eithriedig"). Rhaid i'r camau sy'n ofynnol gan yr Hysbysiad fod yn briodol i'r dasg o leihau'r risg o lygredd (Er enghraifft, ei gwneud yn ofynnol darparu storfa ddigonol ar gyfer *slyri*).
10. Bydd gennych o leiaf 28 diwrnod i gydymffurfio â'r Hysbysiad. Gall CNC ymestyn y cyfnod lleiaf hwn i ystyried, er enghraifft, yr amser sydd ei angen i gael caniatâd cynllunio, neu drefnu i gontractwyr wneud y gwaith, neu'r tywydd neu amodau'r safle.

Alla' i apelio yn erbyn Hysbysiad gan CNC?

11. Gall ffermwr apelio i Weinidogion Cymru yn erbyn Hysbysiad a gyflwynir gan CNC. Os yw ffermwr yn dymuno apelio yn erbyn Hysbysiad a gyflwynwyd iddo gan CNC, rhaid gwneud hynny yn ysgrifenedig o fewn 28 diwrnod i'r diwrnod ar ôl y dyddiad y cafodd yr Hysbysiad ei gyflwyno. Mae gennych chi a CNC yr hawl i ofyn am wrandawriad llafar gan y sawl a benodwyd i benderfynu ar eich apêl. Dylid anfon apelau yng Nghymru i:

**Yr Is-adran Amaeth–Datblygu Cynaliadwy
Llywodraeth Cymru
Rhodfa Padarn
Llanbadarn Fawr
Aberystwyth
Ceredigion
SY23 3UR**

a dylid anfon copi i Cyfoeth Naturiol Cymru yn y cyfeiriad a roddwyd gyda'r Hysbysiad. Os bydd apêl yn llwyddiannus, gellir tynnu'r Hysbysiad yn ôl neu ei addasu neu ymestyn y cyfnod cydymffurfio. Os na chaiff yr Hysbysiad ei dynnu'n ôl ac os na chaiff y cyfnod cydymffurfio ei ymestyn yn dilyn yr apêl,

bernir bod y cyfnod cydymffurfio yn dod i ben ar ddiwrnod penderfynu'r apêl, oni bai bod Gweinidogion Cymru yn penderfynu ymestyn y cyfnod cydymffurfio. Gallai Gweinidogion Cymru ystyried, wrth benderfynu a ddylid ymestyn y cyfnod cydymffurfio, a fydd yn rhesymol, yn ddichonadwy neu'n ymarferol i'r apelydd gydymffurfio â'r penderfyniad cyn gynted ag y caiff ei gyhoeddi.

ATODIAD 5

Gofynion Penodol ar gyfer Gwneud *Silwair* a Storio *Silwair* y mae'r Rheoliadau yn effeithio arnynt

1. Rhaid adeiladu *seilos* yn unol â'r safonau adeiladu a nodir yn **Atodlen 5** i'r Rheoliadau a nodir yn llawn yn **Atodiad 6 y Canllawiau yma**.
2. Mae Parthau Diogelwch *Silwair* fel a ganlyn:
 - ***Silwair* mewn *seilos***
Ni ddylid gwneud na storio *silwair* mewn *seilos* o fewn 10 metr i unrhyw ddyfroedd mewndirol nac arfordirol y gallai elifiant fynd iddynt,
 - ***Silwair* mewn byrnau**
Rhaid ei selio mewn pilen anhydraidd neu ei fagio ac ni cheir ei wneud, ei storio, ei agor na'i ddadlapio o fewn 10 metr i unrhyw ddyfroedd mewndirol nac arfordirol y gallai elifiant fynd iddynt.
 - ***Silwair* mewn cae (*silwair* wedi'i storio ar dir agored)**
Yn ogystal â'r cyfyngiad deng metr ar gyfer *silwair* mewn byrnau, rhaid iddo beidio â chael ei wneud na'i storio o fewn 50 metr i'ffynhonnell cyflenwad dŵr gwarchodedig'.
3. 'Diffinnir 'ffynonellau cyflenwad dŵr gwarchodedig' yn **Rhan 6** o'r Rheoliadau fel 'mannau lle tynnir dŵr i'w yfed gan bobl, neu i'w ddefnyddio yn llaethdai ffermydd, neu i baratoi bwyd dynol'. Os nad ydych yn siŵr a yw cyflenwad dŵr cyfagos wedi'i warchod gan y Rheoliadau, dylech gysylltu â CNC am gyngor.
4. Pan fo *silwair* cae yn cael ei wneud, rhaid hysbysu CNC am y man lle bydd y *silwair* yn cael ei storio o leiaf 14 diwrnod cyn i'r safle hwnnw gael ei ddefnyddio gyntaf. Os bydd pwynt tynnu dŵr perthnasol pellach yn cael ei ganfod ar ôl dechrau gwneud y *silwair*, fel arfer nid oes angen atal na newid y drefn o wneud *silwair* ar y safle hwnnw ar gyfer y tymor hwnnw, er bod hyn yn torri'r Rheoliadau yn dechnegol. Fodd bynnag, ar gyfer y tymor nesaf dylai lleoliad unrhyw *silwair* cae ystyried y pwynt tynnu dŵr newydd.
5. Dylai *silwair* sy'n cael ei symud o'r man lle cafodd ei storio gyntaf i gael ei storio yn y tymor hir yn unol â'r Rheoliadau ar gyfer strwythurau, strwythurau "eithriedig", neu storfeydd maes.
6. Nid yw'r Rheoliadau'n berthnasol i *silwair* tra'i fod yn cael ei storio dros dro mewn cynhwysydd ar gyfer ei gludo. Ni chaiff "dros dro" ei ddiffinio yn y Rheoliadau, ond dylid ei ddarllen i olygu y dylid cludo *silwair* heb oedi diangen. Nid yw *silwair* sy'n cael ei symud o *seilo* fesul tamaid ar gyfer bwydo anifeiliaid yn rheolaidd yn ddarostyngedig i'r gofynion storio, a gellir ei gadw yn yr awyr agored heb fod mewn byrnau beth bynnag. **Ni** fydd y ddarpariaeth hon yn amddiffyniad ar gyfer unrhyw lygredd sy'n digwydd o ganlyniad i adael

silwair heb ei ddiogelu yn yr awyr agored.

7. Nid oes angen i chi storio byrnau *silwair* (wedi'u lapio neu eu bagio) ar lawr sydd wedi'i adeiladu'n arbennig, ond **rhaid** i chi sicrhau, os cânt eu storio'n uniongyrchol ar y ddaear, nad ydynt yn gollwng elifiant i ddŵr, gan y gallai hyn fod yn drosedd o dan y Rheoliadau
8. Rhaid gofalu casglu a storio unrhyw *elifiant silwair* heb achosi llygredd, gan y gallai hyn fod yn drosedd o dan y Rheoliadau. Gellir defnyddio *elifiant silwair* i'w fwydo i *dda byw* neu, ar ôl ei wanhau, gellir ei daenu ar dir amaethyddol fel gwrtaith.
9. Caniateir gwneud silwair mewn tomenni mewn caeau neu mewn bagiau heb ei fyrnu, heb fod angen sylfaen anhydraidd, ar yr amod bod y safle'n addas.

Storfeydd *Silwair*: Gweler Atodlen 5 yn Atodiad 7

10. Pan gaiff *silwair* ei storio mewn *seilos*, rhaid i'r *seilos* fod â sylfaen anhydraidd sy'n ymestyn y tu hwnt i unrhyw waliau, a draeniau anhydraidd o gwmpas yr ymyl sy'n llifo i danc elifiant digon mawr. Rhaid i unrhyw sianelau / draeniau, pibellau a thanciau cysylltiedig fod yn anhydraidd hefyd. Rhaid i'r sylfaen a'r sianelau / draeniau, pibellau a thanciau cysylltiedig allu gwrthsefyll cyrydiad gan *silwair* ac *elifiant silwair*.
11. Yn ogystal â sylfaen a gynlluniwyd yn unol â'r cod ymarfer ar gyfer dylunio strwythurau concrit ar gyfer cadw hylifau dyfrol, mae'r Rheoliadau bellach yn caniatáu i lorïau gael eu hadeiladu gan ddefnyddio asffalt wedi'i rolïo'n boeth, ar yr amod bod y defnydd hwn yn cyd-fynd â'r cod ymarfer ar gyfer dewis a defnyddio deunyddiau adeiladu.
12. Nid oes rhaid cael waliau ar *seilos*, ond lle mae waliau, rhaid eu gosod **y tu mewn i ddraeniau terfyn** y sylfaen. Rhaid i unrhyw waliau allu gwrthsefyll llwythi wal fel y'u nodir gan BS 5502 rhan 22 2003, ni cheir eu llwytho y tu hwnt i'r fanyleb ddylunio, a rhaid dangos hysbysiadau ar y waliau yn nodi'r llwythi hyn.
13. Mae'n debygol y bydd angen i ffermwyr gael cyngor proffesiynol er mwyn sicrhau bod y safonau gofynnol yn cael eu bodloni. Bydd angen i'r gosodweithiau hyn fodloni'r gofyniad oes parhad o 20 mlynedd gyda gwaith cynnal a chadw.
14. Mae angen systemau casglu elifiant i ddal unrhyw hylif a gynhyrchir. Rhaid i ofod storio lleiaf tanciau elifiant gyfateb i ofod storio'r seilo fel y dangosir yn Nhabl 1 isod. Yn y rhan fwyaf o achosion dylai'r cynwyseddau hyn allu storio gwerth o leiaf ddau ddiwrnod o elifiant pan fyddai'r llif ar ei uchaf. Fodd bynnag, hyd yn oed os yw'r tanc elifiant yn darparu storfa fel y nodir isod, byddai trosedd yn dal i gael ei chyflawni os bydd achos o lygredd.

Tabl 1: Gofod storio lleiaf tanciau *elifiant silwair* mewn perthynas â gofod storio seilos

Gofod Storio'r Seilo	Gofod Storio Lleiaf y Tanc Elifiant
Llai na 1500 ³	20 litr am bob 1m ³ o gapasiti'r seilo
1500 ³ neu fwy	30,000 litr a 6.7 litr am bob 1m ³ o gapasiti seilo dros 1500 ³
500m ³	10,000 litr
1000m ³	20,000 litr
1500m ³	30,000 litr
2000m ³	33350 litr- h.y. 30,000 +3350
2500m ³	36700 litr- h.y. 30,000 + 6700
3000m ³	40050 litr- h.y. 30,000 +10050
4000m ³	46750 litr- h.y. 30,000 +16750

15. Yn y rhan fwyaf o achosion dylai'r cynwyseddau hyn allu storio gwerth o leiaf ddau ddiwrnod o elifiant pan fyddai'r llif ar ei uchaf. Fodd bynnag, os nad yw'r tanc elifiant yn darparu digon o le storio a bod llygredd yn digwydd, byddai hyn yn dal i fod yn drosedd. Nid yw gofod storio tanciau elifiant yn debygol o fod yn ddigonol i storio gwerth dau ddiwrnod o elifiant ar gyfer silwair heb ei wywo neu *silwair* a wneir mewn seilo heb do. Dylech wirio a gwagio eich tanciau mor aml ag sydd angen. Bydd yr *elifiant silwair* hefyd yn ddarostyngedig i'r Rheoliadau ar storio a *thaenu tail organig* sydd â lefelau uchel o nitrogen sydd ar gael yn rhwydd.
16. Os yw unrhyw ran o'r tanc elifiant o dan lefel y ddaear, rhaid iddo fod yn anhydraidd a gallu gwrthsefyll niwed gan *elifiant silwair* am 20 mlynedd **heb waith cynnal a chadw**. Gall y tanc naill ai gael ei adeiladu o flaen llaw mewn un darn neu gael ei adeiladu ar y safle. Dylech drafod eich cynigion gyda CNC yn ystod y cam cynllunio, gan y bydd CNC angen cadarnhad ysgrifenedig bod gofynion yr Atodlen wedi'u bodloni. Gall CNC ddarparu ffurflen i'ch helpu i ddarparu'r cadarnhad hwn (gweler **Atodiad 8** am fanylion cyswllt).

17. Mewn rhai achosion efallai yr hoffech storio *elifiant silwair* a *slyri* yn yr un tanc. **Gall cymysgu neu ailgylchredeg *slyri* allyrru nwyon peryglus sy'n angheuol i bobl a da byw. Peidiwch byth â rhoi *elifiant silwair* mewn storfeydd *slyri* o dan y ddaear, gan y gall problemau tebyg ddigwydd.** Os defnyddir y dull storio hwn yna rhaid cynllunio'r cynhwysydd storio i wrthsefyll y ddau fath o elifiant heb eu gwanhau ac, wrth gwrs, rhaid iddo fod yn ddigon mawr i fodloni gofynion **Atodlenni 5 a 6 yn Atodiad 7**

Silwair Cae

18. Ystyr '*silwair cae*' yw tomenni mewn caeau ar dir agored, lle nad oes unrhyw fath o gloddio, na lloriau na waliau ar y safle. Gellir gwneud ychydig bach o lefelu ar safleoedd drwy lenwi pantiau bach. Noder **na cheir** cloddio'r uwchbridd o gwbl. Mae hyn yn bwysig iawn gan fod angen pridd heb ei darfu i helpu i gadw unrhyw *elifiant silwair* a allai gael ei gynhyrchu a lleihau'r risg o lygredd. Os oes cloddio, waliau neu loriau yna rhaid bodloni gofynion llawn **Atodlen 5**. *Silwair cae* yw gwneud a storio *silwair* sydd ddim mewn byrnau mewn 'bagiau swmp'. Caniateir gwneud a storio *silwair cae* mewn tomenni caeau neu mewn bagiau swmp (heb ei fyrnu) heb lawr na waliau anhydraidd, ar yr amod bod y safle'n addas.
19. Dylech ddewis safle gwastad a gwneud asesiad gofalus o'r risg posibl o lygru dyfroedd rheoledig. Dylid trafod cynigion gyda CNC ymhell cyn gwneud *silwair* a, sut bynnag, rhaid hysbysu CNC am y safle arfaethedig o leiaf 14 diwrnod cyn ei ddefnyddio am y tro cyntaf. Gall CNC ddarparu ffurflen safonol i chi ei defnyddio wrth wneud yr hysbysiad hwn (gweler **Atodiad 8** am fanylion cyswllt).
20. Wrth ystyried addasrwydd safleoedd, bydd CNC yn ystyried goleddf, athreiddedd y pridd, cywasgiad y pridd, faint o holltau a thyllau sydd yn y pridd, a'r risg o achosi llygredd dŵr wyneb a dŵr wyneb. Mae ffactorau eraill yn cynnwys agosrwydd ffyrdd a llwybrau fferm (a all gynyddu'r risg o ddŵr ffo yn cyrraedd dyfroedd wyneb) neu fodolaeth ardaloedd gwarchoddedig megis 'ffynonellau cyflenwi dŵr gwarchoddedig', neu Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SoDdGA).
21. Rhaid i safleoedd *silwair cae* fodloni gofynion y Rheoliadau. Rhaid i chi:
- hysbysu CNC am y safle arfaethedig o leiaf 14 diwrnod cyn i'r safle hwnnw gael ei ddefnyddio am y tro cyntaf. Cyn belled â bod y safle'n dderbyniol i CNC, nid oes angen unrhyw hysbysiadau pellach oni bai bod y safle hwnnw'n cael ei ehangu neu fod angen ystyried safleoedd newydd;
 - lleoli'r safle yn unol â pharagraff 20 uchod; a
 - lleoli'r safle o leiaf 50 metr i ffwrdd o ffynonellau dŵr. Gall ffynonellau dŵr fod wedi'u lleoli ar eiddo cyfagos a dylech ymchwilio'n drylwyr i bosibilrwydd o'r fath os yw eich safle arfaethedig o fewn 50 metr i'ch ffin ag eiddo cyfagos.

22. Os byddwch yn gwneud *silwair* cae ar safle heb hysbysu CNC, neu ar safle a wrthodwyd gan CNC, byddwch yn torri'r Rheoliadau, a gallech gael eich erlyn.

ATODIAD 6

Gofynion Penodol ar gyfer systemau Storio *Slyri* sy'n dod o dan y Rheoliadau

1. Mae'r Rheoliadau'n berthnasol i bob math o systemau storio *slyri*, gan gynnwys y rhai sydd wedi'u hadeiladu o bridd, ond nid i danceri a ddefnyddir i gludo *slyri* ar ffyrdd neu o gwmpas fferm, ac a ddefnyddir i storio *slyri* dros dro. Rhaid i storfeydd *slyri* sy'n cynnwys powndiau cloddiau pridd sydd newydd eu hadeiladu, wedi'u helaethu'n sylweddol neu wedi'u hailadeiladu'n sylweddol ar ôl Medi 1991 fod wedi'u hadeiladu'n unol â'r safonau adeiladu a bennir yn **Atodlen 6 yn Atodiad 7**. Dylid ystyried powndiau cloddiau pridd fel tanciau storio *slyri* i ddibenion y Safon Brydeinig gyfredol (BS 5502: rhan 50 1993).
2. Gall storfeydd *slyri* presennol a adeiladwyd cyn Medi 1991 ddal i gael eu defnyddio heb eu haltro cyn belled â'u bod yn gymwys fel "strwythur eithriedig" (gweler **Rhan 6** o'r **Rheoliadau**), oni bai fod CNC yn pennu bod angen gwneud gwaith pellach.
3. At ddibenion y Rheoliadau hyn, mae dŵr ffo o storfeydd tail solid, llociau gwely sglodion neu wellt, neu badiu atal¹³ yn cyfrif fel *slyri*. Rhaid ei gasglu a'i storio naill ai'n annibynnol, neu yn y brif system storio *slyri*. Mewn llawer o lociau does dim darpariaeth i storio draeniad. Gan fod gan lociau botensial sylweddol i lygru dyfroedd rheoledig, bydd yr Asiantaeth fel rheol yn mynnu bod y lloc yn cael ei addasu i sicrhau y cesglir y draeniad a'i ddal o fewn y system *slyri*.

Safonau adeiladu ar gyfer storfeydd *slyri* a phydwau derbyn: Atodlen 6

4. Mae gofynion cyffredinol i waliau a sylfaen pob tanc *slyri*, tanc cysylltiedig, pydew derbyn, pibell a sianel fod yn anhydraidd. Rhaid i bob tanc *slyri*, tanc

¹³Mae **llociau sglodion pren** fel arfer yn systemau parhaol, heb do, wedi'u draenio, gyda gwely o sglodion pren ac a ddefnyddir i gadw da byw. Nid oes ganddynt leinin anhydraidd, felly gallent lygru dŵr daear ac maent yn annerbyniol yn y rhan fwyaf o lefydd. Mae **padiu atal** yn debyg i lociau, ond un ai'n gorwedd ar isbridd anhydraidd, neu â leinin addas, gyda phibellau'n cludo'r draeniad, sef *slyri*, i system *slyri*.

Fel arfer, bydd CNC yn mynnu bod lloc sy'n sefyll ar bridd sy'n draenio'n rhydd a heb leinin anhydraidd yn cael ei addasu ac y dylid sicrhau y caiff unrhyw ddraeniad ei gasglu a'i ddal o fewn system *slyri*.

Mae amrywiadau ar y systemau hyn, gan gynnwys systemau gwellt, gyda neu heb leinin, a all fod yn dderbyniol ar sail achos unigol. Cyn dechrau adeiladu, dylid cael cyngor gan CNC.

cysylltiedig, pwll derbyn, pibell a sianel hefyd gyrraedd safonau ar gyfer gwarchod rhag crydiad fel yr amlinellir yn y Safon Brydeinig gyfredol (BS 5502: rhan 50 1993). Rhaid i lawr a waliau'r tanc *slyri* ac unrhyw bydew derbyn cysylltiedig allu gwrthsefyll y llwythi a bennir yn BS 5502: rhan 50 1993. Mae'r angen i gydymffurfio â'r gofynion dylunio yn **Atodlen 6** i'r **Rheoliadau**'n golygu bron yn sicr y bydd angen cyngor proffesiynol er mwyn cynllunio ac adeiladu pob gosodwaith *slyri* gan gynnwys powndiau cloddiau pridd. Bydd angen gwaith ychwanegol sylweddol ar storfeydd cloddiau pridd os canfyddir bod y defnydd sydd yn ei le fel sylfaen yn athraidd. Mae pridd a chynnwys clai o 20-30% fel rheol yn ddelfrydol ar gyfer cloddiau sy'n sad ac yn gwrthsefyll holltau. Gellir defnyddio cynnwys clai uwch ar gyfer y sylfaen. Yn y naill achos neu'r llall, dylid cadarnhau addasrwydd y deunydd drwy ei ddadansoddi mewn labordy pridd ac, yn ddelfrydol, cael peiriannydd sifil i'w ddilysu. Rhaid cael pridd anhydraidd hyd at ddyfnder o un metr o leiaf o dan waelod y storfa. Os nad yw'r deunydd yn addas, yna gellir mewngludo deunydd addas, neu dylid defnyddio leinin synthetig anhydraidd.

5. At hynny, yn achos storfeydd wal hidlo, rhaid i'r sylfaen ymestyn y tu hwnt i'w waliau a chynnwys draeniau terfyn i ddal unrhyw *slyri* a fydd wedi dianc. Yna, rhaid i'r elifiant hwn ddraenio i danc elifiant sy'n cydymffurfio â'r Rheoliadau hyn. Gellir adeiladu mesurau yn y storfa. Gallai'r rhain gynnwys codi ymylon allanol y draeniau terfyn i gasglu unrhyw '*slyri* sy'n tasgu', ond cynghorir ffermwyr i siarad â staff CNC am bob achos unigol, cyn cadarnhau dyluniadau.
6. Rhaid i unrhyw bibellau draenio ar danc storio *slyri*, tanc elifiant neu bydew derbyn gael dwy falf mewn cyfres, y naill a'r llall yn gallu atal llif y *slyri* a'r naill a'r llall yn cael ei chloi pan nad yw'n cael ei defnyddio. Nid yw hyn yn berthnasol mewn perthynas â thanc storio *slyri* sy'n draenio drwy bibell i danc storio *slyri* arall os yw gofod storio'r tanc arall yr un fath neu'n fwy, neu os yw topiau'r tanciau ar yr un lefel. Rhaid i ddyluniad a lleoliad y falfiau ystyried y posibilrwydd y gallai un talp rwystro'r ddwy falf os ydynt wedi'u lleoli'n rhy agos at ei gilydd, felly rhaid cael o leiaf un metr o bellter rhwng y ddwy falf. Dylid cynllunio pob falf fel y gellir defnyddio digon o rym i dorri drwy groniadau o ddeunydd sarn sy'n gallu pasio drwy'r system yn rheolaidd.
7. Efallai na fydd modd osgoi lleoli storfeydd mewn ardaloedd y mae'r lefel trwythiad yn uchel, ond gallai achosi i'r gosodweithiau arnofio oni bai bod mesurau ychwanegol yn cael eu cymryd. Er mwyn lleihau'r risg o arnofio heb ddefnyddio gormodedd o goncrit, gellir caniatáu gosod draeniau lliniaru pwysau dŵr wyneb. Gan fod y rhain yn debygol o gael eu lleoli o fewn 10 metr i'r gosodwaith ac y byddant yn cael eu hystyried yn 'gwrs dŵr', mae angen cytundeb CNC i'w wneud yn gyfreithlon. Gofynnir i chi gadarnhau bod y lefel trwythiad yn uchel, a bydd angen i'r cynllun gynnwys manau archwilio.

Pennu maint storfeydd *slyri* a phydewau derbyn

8. Ar ffermydd lle mae *slyri* yn cael ei daenu ar y tir, rhaid i chi ystyried gofynion '*cyfnod storio*' y Rheoliadau a rhoi cyfrif am gyfraddau ac amserau defnyddio *slyri*, gofod storio tanciau storio *slyri* eraill, faint o law ar gyfartaledd sy'n

cyfrannu at y cynnwys yn ystod y cyfnod hwnnw (gweler paragraff 15 isod) a'r angen i ddarparu o leiaf 750mm neu 300mm o fwrdd rhydd (gweler paragraff 13-14 isod).

9. Bydd ffermydd mewn rhai ardaloedd, yn enwedig y rhai sydd â glawiad uwch na'r cyfartaledd a lle mae'r tir yn drwm, angen cryn dipyn yn fwy o ofod storio *slyri*. Er enghraifft, pan fydd mynediad i dir addas ar gyfer *taenu* ar dir yn gyfyngedig, cynghorir ffermwyr i ddarparu digon o ofod storio i osgoi'r risg o achosi llygredd dŵr ac erlyniad dilynol.
10. Bydd eich swyddfa ardal CNC leol yn rhoi canllawiau cyffredinol ar eich gofod storio. Fodd bynnag, efallai y bydd ffermwyr yn ei gweld hi'n fuddiol cael cyngor proffesiynol ychwanegol ar ofynion storio gan ymgynghorydd amaethyddol.
11. Rhaid i ffermwyr sy'n ystyried bod ganddynt ddigon o dir risg is i'w galluogi i weithredu'n foddhaol gyda llai o le storio ymgynghori â CNC i drafod eu cynlluniau. Bydd angen iddynt ddangos i CNC fod y system yn peri risg fach iawn i'r amgylchedd.
12. Wrth gyfrifo maint lleiaf unrhyw osodwaith *slyri*, rhaid i chi gynnwys darpariaeth ar gyfer y symiau **cyfartalog** o ddŵr glaw sy'n disgyn yn uniongyrchol i'r storfa ac ar ardaloedd sy'n draenio i mewn i'r storfa (DS: Mae'r diffiniad o "*slyri*" yn cynnwys dŵr glaw a golchion buarth wedi'u cymysgu â charthion).
13. Ar gyfer storfeydd â chloddiau pridd, wrth gyfrifo gofod storio, rhaid i chi hefyd ganiatáu ar gyfer gofod storio ychwanegol i ddarparu o leiaf 750mm o fwrdd rhydd. Ni ddylid lleihau'r bwrdd rhydd hwn oherwydd y risg y bydd yr strwythur yn cael ei wanhau. Gwiriwch lefel y *slyri* yn rheolaidd a gwnewch drefniadau i'w *daenu* ar dir yn ddiogel neu ei allgludo i sicrhau bod digon o fwrdd rhydd. Rhaid cymryd gofal arbennig i sicrhau nad yw lagwnau neu storfeydd yn gorlifo. Gallai gorlifo arwain at erlyniad am lygredd.
14. Mae angen o leiaf 300mm o fwrdd rhydd wrth gyfrifo gofod storio storfeydd a adeiladwyd o ddeunyddiau heblaw pridd. Ar gyfer y storfeydd hyn, dim ond mewn **amgylchiadau eithriadol** y dylid cael llai o fwrdd rhydd na hyn a dylid gwaredu'r *slyri* gormodol cyn gynted â phosibl.
15. Ar gyfer cyfrifo maint unrhyw gyfleusterau a ddefnyddir i storio *slyri* dros dro (fel pydewau derbyn a sianelau cysylltiedig) dylai'r system fod yn ddigon mawr i storio o leiaf ddau ddiwrnod o gynhyrchiant *slyri* cyfunol (gan gynnwys yr holl wrin, golchiad parlwr ac ati) **a chyfartaledd glawiad**.

Yn achos defnyddio sianelau i storio *slyri* o'r fath:-

- Os yw'r *slyri* sy'n llifo i'r pydew derbyn yn dod o sianel a reolir gan lifddor, rhaid i'r pydew derbyn fod yn ddigon mawr i gynnwys uchafswm y *slyri* y gellid ei ryddhau drwy agor unrhyw lifddor. Rhaid i sianelau sy'n arwain at y llifddor fod yn ddigonol i storio gwerth deuddydd o *slyri*.

- Lle nad oes llifddor a bod pennau uchaf y sianelau yr un uchder â phen uchaf unrhyw bydedw derbyn, rhaid i gapasiti'r sianelau casglu ynghyd â'r pydedw derbyn fod yn ddigonol gyda'i gilydd ar gyfer gwerth deuddydd o *slyri*.
- Lle nad oes llifddor, a bod y sianelau'n uwch na'r pydedw derbyn, rhaid i ofod storio'r pydedw derbyn yn unig fod yn ddigonol ar gyfer gwerth deuddydd o *slyri* o leiaf.
- Os nad oes sianelau'n arwain at y pwll derbyn, rhaid i'r pydedw derbyn allu dal gwerth deuddydd o *slyri* o leiaf.
- Os bydd sianelau'n gollwng yn uniongyrchol i danc storio *slyri*, nid oes angen i'r sianelau gydymffurfio â'r gofyniad gofod storio lleiaf.

Hysbysiad sy'n gwneud gwaith yn ofynnol

16. Rhaid i'r hysbysiad

- bennu neu ddisgrifio'r gwaith y mae'n ofynnol i'r person ei wneud neu'r rhagofalon neu'r camau eraill y mae'n ofynnol iddo eu cymryd;
- datgan y cyfnod y mae rhaid cydymffurfio ag unrhyw ofyniad o'r fath o'i fewn; a
- hysbysu'r person o'r hawl i apelio.

17. Y cyfnod i gydymffurfio â'r hysbysiad yw 28 niwrnod, neu'n hwy os yn rhesymol o dan yr amgylchiadau.

18. Caiff Cyfoeth Naturiol Cymru, ar unrhyw adeg (gan gynnwys adeg ar ôl i'r cyfnod i gydymffurfio ddod i ben) dynnu'r hysbysiad yn ei ôl, estyn y cyfnod i gydymffurfio ag unrhyw ofyniad yn yr hysbysiad, neu gyda chydysniad y person y cyflwynir yr hysbysiad iddo, addasu gofynion yr hysbysiad.

Apelau yn erbyn hysbysiadau

19. Caiff person y cyflwynwyd hysbysiad iddo, o fewn cyfnod o 28 niwrnod sy'n dechrau drannoeth y dyddiad y cyflwynwyd yr hysbysiad iddo (neu unrhyw gyfnod hwy a ganiateir gan Weinidogion Cymru), apelio i Weinidogion Cymru yn erbyn yr hysbysiad.

20. Rhaid i apêl gael ei gwneud gan yr apelydd yn cyflwyno hysbysiad i Weinidogion Cymru. Rhaid i'r hysbysiad gynnwys datganiad o sail yr apêl neu rhaid i ddatganiad o'r fath ddod gydag ef.

21. Cyn penderfynu ar apêl o dan y rheoliad hwn, rhaid i Weinidogion Cymru, os daw cais gan yr apelydd neu Cyfoeth Naturiol Cymru iddynt wneud hynny, roi cyfle i'r apelydd neu Cyfoeth Naturiol Cymru ymddangos ger eu bron a chael gwrandawriad gan berson a benodwyd gan Weinidogion Cymru at y diben hwnnw.

22. Wrth benderfynu ar apêl, caiff Gweinidogion Cymru gyfarwyddo Cyfoeth Naturiol Cymru i dynnu'r hysbysiad yn ôl; i addasu unrhyw un neu ragor o'i ofynion; i estyn y cyfnod i gydymffurfio ag unrhyw ofyniad; neu i wrthod yr

apêl.

23. Gellir ymestyn y cyfnod ar gyfer cydymffurfio â hysbysiad y gwnaed apêl yn ei erbyn fel ei fod yn dod i ben ar y dyddiad pan fydd Gweinidogion Cymru'n penderfynu'n derfynol ar yr apêl.

ATODIAD 7

ATODLENNI A GYMERWYD O'R RHEOLIADAU

ATODLEN 1

Rheoliadau 3, 4, 29, 34 a 36

Meintiau o dail, nitrogen a ffosffad a gynhyrchir gan *dda byw* sy'n pori a *da byw nad ydynt yn pori*

Tabl 1

Da byw sy'n pori

<i>Categori</i>	<i>Tail a gynhyrchir gan bob anifail yn ddyddiol (litrau)</i>	<i>Nitrogen a gynhyrchir gan bob anifail yn ddyddiol (gramau)</i>	<i>Ffosffad a gynhyrchir gan bob anifail yn ddyddiol (gramau)</i>
Gwartheg			
Lloi (pob categori ac eithrio lloi cig llo) hyd at 3 mis:	7	23	12.7
Buchod godro—			
o 3 mis ymlaen ac o dan 13 mis:	20	95	34
o 13 mis ymlaen tan y llo cyntaf:	40	167	34
Ar ôl y llo cyntaf â'r—			
cynnyrch llaeth blynyddol yn fwy na 9000 litr:	64	315	142
cynnyrch llaeth blynyddol rhwng 6000 a 9000 litr:	53	276	121
cynnyrch llaeth blynyddol yn llai na 6000 litr:	42	211	93
Buchod neu fustych eidion ^(a) —			
o 3 mis ymlaen ac o dan 13 mis:	20	91	33
o 13 mis ymlaen ac o dan 25 mis:	26	137	43
O 25 mis ymlaen—			
gwartheg benyw neu fustych i'w cigydd:	31	137	60
gwartheg benyw ar gyfer bridio—			
sy'n pwyso 500 kg neu lai:	32	167	65

sy'n pwysu mwy na 500 kg:	45	227	86
Teirw			
nad ydynt ar gyfer bridio, ac sy'n 3 mis a throsodd:	26	148	24
Bridio—			
o 3 mis ymlaen ac o dan 25 mis:	26	137	43
o 25 mis ymlaen:	26	132	60
Defaid			
O 6 mis ymlaen hyd at 9 mis oed:	1.8	5.5	0.76
O 9 mis hyd at wyna am y tro cyntaf, hwrdda am y tro cyntaf neu gigydda:	1.8	3.9	2.1
Ar ôl wyna neu hwrdda ^(b) —			
yn pwysu llai na 60 kg:	3.3	21	8.8
yn pwysu 60 kg i fyny:	5	3	10.0
Geifr, ceirw a cheffylau			
Geifr:	3.5	41	18.8
Ceirw—			
bridio:	5	42	17.6
eraill:	3.5	33	11.7
Ceffylau:	24	58	56

^(a)Anifail gwryw wedi ei ysbaddu.

^(b)Yn achos mamog, mae'r ffigur hwn yn cynnwys un neu ragor o'i hŵyn sugno tan fod yr ŵyn yn chwe mis oed.

Tabl 2

Da byw nad ydynt yn pori

<i>Categori</i>	<i>Tail a gynhyrchir gan bob anifail yn ddyddiol (litrau)</i>	<i>Nitrogen a gynhyrchir gan bob anifail yn ddyddiol (gramau)</i>	<i>Ffosffad a gynhyrchir gan bob anifail yn ddyddiol (gramau)</i>
Gwartheg			
Lloi cig llo:	7	23	12.7
Dofednod^(a)			
leir a ddefnyddir i gynhyrchu wyau i'w gyfer eu bwyta gan bobl—			
o dan 17 wythnos:	0.04	0.64	0.47
o 17 wythnos ymlaen (mewn caets):	0.12	1.13	1.0
o 17 wythnos ymlaen (nid mewn caets):	0.12	1.5	1.1

leir a fegir ar gyfer cig:	0.06	1.06	0.72
leir a fegir ar gyfer bridio—			
o dan 25 wythnos:	0.04	0.86	0.78
o 25 wythnos ymlaen:	0.12	2.02	1.5
Tyrcwn—			
gwryw:	0.16	3.74	3.1
benyw:	0.12	2.83	2.3
Hwyaid:	0.10	2.48	2.4
Estrysiaid:	1.6	3.83	18.5
Moch			
Yn pwyso o 7 kg i fyny ac yn llai na 13 kg:	1.3	4.1	1.3
Yn pwyso o 13 kg i fyny ac yn llai na 31 kg:	2	14.2	6.0
Yn pwyso o 31 kg i fyny ac yn llai na 66 kg—			
porthir â bwyd sych:	3.7	24	12.1
porthir â hylifau:	7.1	24	12.1
Yn pwyso o 66 kg i fyny ac—			
A fwriedir i'w cigydda—			
porthir â bwyd sych:	5.1	33	17.9
porthir â hylifau:	10	33	17.9
hychod a fwriedir ar gyfer bridio ond nad ydynt eto wedi cael eu torllwyth cyntaf:	5.6	38	20
hychod (gan gynnwys eu torllwythi yn pwyso hyd at 7 kg pob porchell) a borthwyd ar ddeiet gydag ychwanegiadau o asidau amino synthetig:	10.9	44	37
hychod (gan gynnwys eu torllwythi yn pwyso hyd at bwysau 7 kg pob porchell) a borthwyd ar ddeiet heb ychwanegiadau o asidau amino synthetig:	10.9	49	37
baeddod bridio o 66 kg hyd at 150 kg:	5.1	33	17.9

baeddod bridio o 150 kg	8.7	48	28
----------------------------	-----	----	----

^(a) Sylwer: mae pob ffigur ar gyfer dofednod yn cynnwys sarn.

ATODLEN 2 Rheoliad 5

Rhywogaethau o ffrwythau

<i>Enw Botanegol</i>	<i>Enw cyffredin</i>
Cydonia oblonga	Cwins
Malus domestica	Afalau
Mespilus germanica	Afalau tindwll
Morus spp.	Mwyar Mair
Prunus armenaica	Bricyll
Prunus avium	Ceirios melys
Prunus cerasus	Ceirios duon (coginio)
Prunus ceracifera	Eirin myrobalan
Prunus domestica	Eirin
Prunus domestica subsp. insititia	Eirin hirion
Prunus persica	Eirin gwlanog
Prunus persica var. nectarina	Nectarinau
Prunus x gondouinii	Ceirios y Dug
Prunus spinosa	Eirin duon bach
Pyrus communis	Gellyg
Pyrus pyrifolia	Gellyg Asia

ATODLEN 3

Rheoliadau 9, 36 a 37

Cyfrifo'r nitrogen sydd mewn *tail organig*

RHAN 1

Y Tabl Safonol

Cyfanswm y nitrogen mewn tail *da byw*

<i>Tail ac eithrio slyri</i>	<i>Cyfanswm y nitrogen ym mhob tunnell (kg)</i>
<i>Tail ac eithrio slyri</i> o'r anifeiliaid a ganlyn—	
gwartheg:	6
moch:	7
defaid:	7
hwyaid:	6.5
ceffylau:	7
geifr:	6
Tail o ieir dodwy:	19
Tail o dycwn neu ieir brwylio:	10

<i>Slyri</i>	<i>Cyfanswm y nitrogen ym mhob metr ciwbig (kg)</i>
gwartheg:	2.6
moch:	3.6
<i>Slyri</i> gwartheg a wahanwyd (ffracsiwn hylifol)—	
blwch hidlo:	1.5
wal hidlo:	2
hidl fecanyddol:	3
<i>Slyri</i> gwartheg a wahanwyd (ffracsiwn solet):	4
<i>Slyri</i> moch a wahanwyd (ffracsiwn hylifol):	3.6
<i>Slyri</i> moch a wahanwyd (ffracsiwn solet):	5
Dŵr budr:	0.5

RHAN 2

Samplu a dadansoddi *tail organig*

Slyri a thail organig hylifol a lled-hylifol arall

1.—(1) O ran *slyri* a *thail organig* hylifol a lled-hylifol arall, rhaid cymryd o leiaf bum sampl, pob un ohonynt yn 2 litr.

Yn ddarostyngedig i is-baragraff (3), rhaid cymryd y pum sampl allan o lestr, ac—

- (a) os yw'n rhesymol ymarferol, rhaid cymysgu'r *slyrŷn* drwyadl cyn cymryd y samplau, a
- (b) rhaid cymryd pob sampl o le gwahanol.

3) Os defnyddir tancer sydd â falf addas arno ar gyfer *taenu*, caniateir i'r samplau gael eu cymryd wrth *daenu*, a rhaid cymryd pob sampl fesul ysbaid yn ystod y *taenu*.

P'un a gymerir fel y disgrifir yn is-baragraff (2) neu (3), rhaid arllwys y pum sampl i gynhwysydd mwy, wedi'u troi'n drylwyr a rhaid cymryd sampl 2 litr o'r cynhwysydd hwnnw a'i arllwys i gynhwysydd glân llai.

Yna, rhaid anfon y sampl 2 litr a baratowyd yn unol ag is-baragraff (4) i'w dadansoddi.

Tail solet

—(2) O ran tail solet, rhaid cymryd y samplau allan o domen dail.

Rhaid cymryd o leiaf ddeg sampl 1 kg yr un, a phob un ohonynt o fan gwahanol mewn tomen.

Rhaid cymryd pob un o'r is-samplau 0.5 metr, o leiaf, o wyneb y domen.

Os cesglir y samplau i gyfrifo i ba raddau y cydymffurfiwyd â'r terfyn fferm gyfan ar gyfer moch a dofednod, rhaid cymryd pedair sampl i'w dadansoddi mewn blwyddyn galendr (gan gymryd un ym mhob chwarter) o domenni tail nad ydynt yn hŷn na 12 mis oed.

Rhaid gosod yr is-samplau ar hambwrdd neu ddalen sy'n lân a sych.

Rhaid i unrhyw dalpiau gael eu torri'n ddarnau mân, a rhaid cymysgu'r is-samplau yn drwyadl gyda'i gilydd.

Yna, rhaid i sampl gynrychiadol, sy'n pwysu 2 kg o leiaf, gael ei hanfon i'w dadansoddi.

ATODLEN 4

Rheoliadau 20 a 22

Y cnydau a ganiateir am y cyfnod gwaharddedig

<i>Y cnyd</i>	<i>Y gyfradd uchaf o nitrogen (kg/hectar)</i>
Rêp had olew, gaeaf ^(a)	30
Merllys	50
Bresych ^(b)	100
Porfa ^{(a)(c)}	80
Sgaliwns wedi eu gaeafu	40
Perllys	40
Bylbiau winwns	40

^(a) Ni chaniateir taenu nitrogen ar gnydau ar ôl 31 Hydref.

^(b) Caniateir taenu 50 kg ychwanegol o nitrogen yr hectar bob pedair wythnos yn ystod y cyfnod gwaharddedig hyd at ddiwedd y cynhaeaf.

^(c) Caniateir taenu uchafswm o 40 kg o nitrogen yr hectar ar unrhyw un adeg.

ATODLEN 5 Rheoliad 24

Y gofynion ar gyfer seilos

1. Y gofyniad sydd i'w fodloni mewn perthynas â seilo yw ei fod yn cydymffurfio â'r darpariaethau a ganlyn yn yr Atodlen hon.

Rhaid i sylfaen y seilo—

- (a) ymestyn y tu hwnt i unrhyw furiau sydd i'r seilo,
- (b) cael o'i hamgylch sianelau sydd wedi eu dylunio a'u hadeiladu fel eu bod yn casglu unrhyw elifiant silwair sy'n dianc o'r seilo, ac
- (c) bod â darpariaeth ddigonol ar gyfer draenio'r elifiant hwnnw o'r sianelau hynny i danc elifiant drwy sianel neu bibell.

Ni chaiff tanc elifiant dal llai nag—

- (d) yn achos seilo sy'n dal llai na 1,500 o fetrau ciwbig, 20 litr ar gyfer pob metr ciwbig o'r hyn y mae'r seilo yn ei ddal, a
- (e) yn achos seilo sy'n dal 1,500 o fetrau ciwbig neu fwy, 30 o fetrau ciwbig ac yn ychwanegol 6.7 litr ar gyfer pob metr ciwbig o'r hyn y mae'r seilo yn ei ddal uwchlaw 1,500 o fetrau ciwbig.

—(2) Rhaid i sylfaen y seilo—

bod wedi ei dylunio yn unol â'r cod ymarfer ar gyfer dylunio strwythurau concrit i gadw hylifau dyfrllyd a gyhoeddir gan y Sefydliad Safonau Prydeinig dan rif BS 8007: 1987⁽¹⁴⁾, neu

bod wedi ei hadeiladu gan ddefnyddio asffalt wedi ei rolïo'n boeth yn unol â'r cod ymarfer ar gyfer dewis a defnyddio deunyddiau adeiladu a gyhoeddwyd gan y Sefydliad Safonau Prydeinig dan rif BS 5502: Rhan 21: 1990⁽¹⁵⁾.

Rhaid i sylfaen y seilo, sylfaen a muriau ei danc elifiant a sianelau a muriau unrhyw bibellau fod yn anhydraidd.

Rhaid i sylfaen a muriau'r seilo, ei danc elifiant a'i sianelau a muriau unrhyw bibellau, i'r graddau y mae hynny'n rhesymol ymarferol, allu gwrthsefyll ymosodiad gan elifiant silwair.

Ni chaniateir lleoli unrhyw ran o'r seilo, ei danc elifiant na'i sianelau nac unrhyw bibellau o fewn 10 metr i unrhyw ddyfroedd cro yw mewndirol na dyfroedd arfordirol y gallai elifiant silwair fynd i mewn iddynt pe bai'n dianc.

Os oes gan y seilo furiau cynnal—

rhaid i'r muriau cynnal allu gwrthsefyll lleiafswm o lwythi mur sydd wedi eu cyfrifo ar y rhagdybiaethau ac yn y dull a ddangosir gan baragraff 15.6 o'r cod ymarfer ar adeiladau a strwythurau ar gyfer amaethyddiaeth a gyhoeddwyd gan y Sefydliad Safonau Prydeinig dan rif BS 5502: Rhan 22: 2003⁽¹⁶⁾,

ni chaniateir i'r seilo bod wedi ei lwytho ar unrhyw adeg i ddyfnder sydd uwchlaw'r dyfnder eithaf sy'n gyson â'r rhagdybiaeth ddyluniol a wnaed o ran llwythi y muriau cynnal, ac

(¹⁴) Dyddiad cyhoeddi: 30 Hydref 1987. ISBN 0-580-16134-X.

(¹⁵) Dyddiad cyhoeddi: 31 Rhagfyr 1990. ISBN 0-580-18348-3.

(¹⁶) Dyddiad cyhoeddi: 10 Mehefin 2003. ISBN 0-580-38654-6.

rhaid arddangos hysbysiadau ar y muriau cynnal yn unol â pharagraff 18 o'r cod ymarfer hwnnw.

Yn ddarostyngedig i baragraff 9, rhaid i'r seilo, ei danc elifiant a'i sianelau ac unrhyw bibellau fod wedi eu dylunio a'u hadeiladu fel y'u bod yn debygol, gyda'r gwaith cynnal a chadw priodol, o barhau i fodloni gofynion paragraffau 2 i 5 ac, os yw'n gymwys, paragraff 7(a) am o leiaf 20 mlynedd.

Os oes unrhyw ran o danc elifiant islaw wyneb y tir, rhaid i'r tanc fod wedi ei dylunio a'i adeiladu fel ei fod yn debygol o barhau i fodloni gofynion paragraffau 4 a 5 am o leiaf 20 mlynedd heb waith cynnal a chadw.

ATODLEN 6 Rheoliad 25

Y gofynion ar gyfer systemau storio *slyri*

1. Mae'r gofynion sydd i'w bodloni mewn perthynas â system storio *slyri* fel a ganlyn.
2. Rhaid i sylfaen y tanc storio *slyri*, sylfaen a muriau unrhyw danc elifiant, sianelau a phydwed derbyn, a muriau unrhyw bibellau fod yn anhydraidd.
3. Rhaid i sylfaen a muriau'r tanc storio *slyri*, unrhyw danc elifiant, sianelau a phydwed derbyn, a muriau unrhyw bibellau fod wedi eu diogelu rhag cyrydiad yn unol â pharagraff 7 o'r cod ymarfer ar adeiladau a strwythurau ar gyfer amaethyddiaeth a gyhoeddwyd gan y Sefydliad Safonau Prydeinig dan rif BS 5502: Rhan 50: 1993(17).
4. Rhaid i sylfaen a muriau'r tanc storio *slyri* ac unrhyw bydwed derbyn allu gwrthsefyll llwythi nodweddiadol sydd wedi eu cyfrifo ar y rhagdybiaethau ac yn y dull a ddangosir gan baragraff 5 o'r cod ymarfer ar adeiladau a strwythurau ar gyfer amaethyddiaeth a gyhoeddwyd gan y Sefydliad Safonau Prydeinig dan rif BS 5502: Rhan 50: 1993.

Rhaid bod gan unrhyw gyfleusterau a ddefnyddir i storio *slyri* dros dro cyn iddo gael ei drosglwyddo i danc storio *slyri* ddigon o le i storio—

yr uchafswm o *slyri* (gan ddiystyru unrhyw *slyri* a fydd yn cael ei drosglwyddo'n uniongyrchol i danc storio *slyri*) sy'n debygol o gael ei gynhyrchu yn y fangre mewn unrhyw gyfnod o ddau ddiwrnod, neu

swm llai y mae CANC wedi cytuno'n ysgrifenedig ei fod yn ddigonol i osgoi unrhyw risg sylweddol o lygru dyfroedd a reolir.

Pan fo *slyri* yn llifo i mewn i sianel cyn cael ei ollwng i bydwed derbyn a bod llif y *slyri* allan o'r sianel yn cael ei reoli gan lifddor, rhaid i'r hyn y gall y pydwed derbyn ei ddal fod yn ddigonol i ddal yr uchafswm o *slyri* y gellir ei ollwng drwy agor y llifddor

Yn achos tanciau storio *slyri* sydd â muriau wedi eu gwneud o bridd, rhaid i'r tanc fod ag o leiaf 750 mm o fwrdd rhydd, a 300 mm o fwrdd rhydd ym mhob achos arall.

5. Ni chaniateir lleoli unrhyw ran o'r tanc storio *slyri*, nac unrhyw danc elifiant na sianelau na phydwed derbyn o fewn 10 metr i unrhyw ddyfroedd croyw mewndirol na dyfroedd arfordirol y gallai *slyri* fynd i mewn iddynt pe bai'n dianc oni chymerir rhagofalon y mae CANC wedi cytuno'n ysgrifenedig eu bod yn ddigonol i osgoi unrhyw risg sylweddol o lygru dyfroedd a reolir.
6. Rhaid i'r tanc storio *slyri* ac unrhyw danc elifiant, sianelau, pibellau a phydwed derbyn fod wedi eu dylunio a'u hadeiladu fel y'u bod yn debygol, gyda'r gwaith cynnal a chadw priodol, o barhau i fodloni gofynion paragraffau 2 i 4 am o leiaf 20 mlynedd.

7. Os nad yw muriau'r tanc storio *slyri* yn anhydraidd, rhaid i sylfaen y tanc—

- (a) ymestyn y tu hwnt i'r muriau;
- (b) cael o'i hamgylch sianelau sydd wedi eu dylunio a'u hadeiladu fel eu bod yn casglu unrhyw *slyri* sy'n dianc o'r tanc;
- (c) bod â darpariaeth ddigonol ar gyfer draenio'r *slyri* o'r sianelau hynny i danc elifiant drwy sianel neu bibell.

—(2) Yn ddarostyngedig i is-baragraff (3), os oes pibell ddraenio wedi ei gosod yn y tanc storio *slyri* neu yn unrhyw danc elifiant neu bydwed derbyn, rhaid bod dwy falf mewn cyfres ar y bibell a bod pellter o 1 metr o leiaf rhwng un falf a'r llall.

(17) Dyddiad cyhoeddi: 15 Ebrill 1993. ISBN 0-580-22053-2.

Rhaid i bob falf allu cau llif y *slyri* drwy'r bibell a rhaid eu cadw wedi eu cau ac wedi eu cloi yn y safle hwnnw pan nad ydynt yn cael eu defnyddio.

Nid yw is-baragraff (1) yn gymwys mewn perthynas â thanc storio *slyri* sy'n draenio drwy'r bibell i danc storio *slyri* arall os yw'r tanc arall yn dal yr un faint neu fwy neu os yw topiau'r tanciau ar yr un lefel â'i gilydd.

ATODIAD 8

Rhagor o Wybodaeth a Manylion Cyswllt

Llywodraeth Cymru

Canolfan Gyswllt Cwsmer:

Dylai eich pwynt cyswllt cyntaf ar gyfer pob ymholiad ffôn a gohebiaeth ar-lein fod y Ganolfan Cyswllt Cwsmer lle mae staff wrth law i ddarparu gwybodaeth ac ateb ymholiadau. Mae'r Ganolfan Cyswllt Cwsmer ar agor rhwng 09:00 a 16:00

Mae'r manylion cyswllt ar gyfer y Ganolfan Cyswllt Cwsmer fel a ganlyn:

Ffôn: 0300 062 5004

Cyfeiriad Blwch Post:

Blwch Post 25, Caernarfon, LL55 9DA

Gwefan Llywodraeth Cymru:

I gael y wybodaeth ddiweddaraf am y Rheoliadau ac i gael mynediad at Ganllawiau a dogfennau ategol, ewch i wefan Llywodraeth Cymru yn <https://llyw.cymru/rheoli-tir>

Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC)

Gallwch gysylltu â CNC ar:

Ebost: enquiries@naturalresourceswales.gov.uk

Ffôn: 0300 065 3000

neu drwy'r post:

Cyfoeth Naturiol Cymru,

d/o Canolfan Gofal Cwsmeriaid, Ty Cambria,

29 Ffordd Casnewydd, Caerdydd CF24 0TP

Llinell Gymorth (ADAS) Rheoliadau Rheoli Llygredd Amaethyddol– 01974 847000

Meddalwedd PLANET - gallwch gael copi am ddim drwy fynd i www.planet4farmers.co.uk neu ffonio 08453 451302

Meddalwedd ENCASH - ar gyfer pennu nitrogen a gynhyrchir gan foch a dofednod sy'n cael eu cadw dan dro drwy'r amser - gallwch gael copi am ddim drwy fynd i www.planet4farmers.co.uk neu ffonio 08456 023864

Meddalwedd MANNER NPK - gallwch gael copi am ddim drwy fynd i www.planet4farmers.co.uk neu ffonio 08456 023864

The Nutrient Management Guide (RB 209) - ar gael yn <https://ahdb.org.uk/RB209>.

Cod Ymarfer Amaethyddol Da ar gyfer Diogelu Dŵr, Pridd ac Aer Cymru 2011 (Llywodraeth Cymru) - ar gael yn <https://llyw.cymru/cod-ymarfer-amaethyddol-da>

Gellir cael Canllawiau ar Leihau Allyriadau Amonia yma <https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2019-04/cod-ymarfer-amaethyddol-da-canllawiau-i-leihau-allyriadau-amonia.pdf>

Taflenni cyfarwyddyd ar Adeiladu, Atgyweirio a Chynnal a Chadw:

- Above-ground circular concrete and weeping-wall *slurry* stores (CGN 001)
- Earth-banked *slurry* stores (CGN 002)
- In-situ concrete *slurry* stores (CGN 003)
- Above-ground circular steel *slurry* stores (CGN 004)
- Separation of clean and dirty water; dirty water storage; and yard area construction (CGN 008)
- Sluice valves on steel and concrete above-ground *slurry* stores (CGN 010)
- The use of covers on circular steel and concrete *slurry* stores (CGN 011)

Mae **Arweiniad i'r system gynllunio ar gyfer ffermwyr** (Llywodraeth Cymru, Awst 2003) ar gael yma <http://adlib.everysite.co.uk/adlib/defra/content.aspx?doc=102371&id=102373>